Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**



# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Swyddfa Gyfathrebiadau

Am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018

**© Hawlfraint Ofcom 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (nid yw hyn yn golygu'r Arfbais Frenhinol na logo unrhyw adran neu asiantaeth os ydynt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng gyhyd â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai Ofcom sy'n berchen ar hawlfraint y deunyddiau a rhaid rhoi teitl y ddogfen. Os oes deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid gofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn at:
ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk

ISBN 978-1-5286-0283-9

CCS0318319686 07/18

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75%
o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf

Argraffwyd yn y DU gan Hobbs the Printers Ltd
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


## A Adroddiad Perfformiad

2 Ein pwerau a'n dyletswyddau

5 Neges y Cadeirydd

7 Adroddiad y Prif Weithredwr

11 Y cynnydd sydd wedi'i wneud yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

33 Prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

35 Gweithio yn y gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol

39 Sut rydym yn gweithio a chyda phwy rydym yn gweithio

45 Adolygiad Ariannol

51 Cyfrifoldeb Corfforaethol

53 Adroddiad Cynaliadwyedd

## B Adroddiad Atebolrwydd

58 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

59 Bwrdd Ofcom

61 Datganiad Llywodraethu

74 Ein gweithwyr

79 Adroddiad taliadau

86 Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd

## C Datganiad Ariannol

88 Datganiad o incwm cynhwysfawr

89 Datganiad am y sefyllfa ariannol

90 Datganiad am newidiadau mewn ecwiti

91 Datganiad am y llifoedd arian parod

92 Nodiadau i'r cyfrifon

## D Atodiad

120 Byrddau, paneli a phwyllgorau Ofcom

123 Datganiadau rheoleiddio

128 Rhaglen ymchwiliadau

129 Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

133 Gorfodi a pheirianneg sbectrwm

134 Trwyddedu sbectrwm

139 Cynaliadwyedd

143 Clirio 700 MHz


145 Geirfa



# Adroddiad Perfformiad

# Ein pwerau a'n dyletswyddau

Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau band eang a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alwad, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau diwifr yn eu defnyddio



## Beth rydym yn ei wneud

Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau band eang a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alwad, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau diwifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag arferion cyfrwys. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.

Rydym yn awdurdod cyhoeddus annibynnol ac yn atebol i'r Senedd.

## Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol[1]. Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.

[1] Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau'r Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.





## Ein dyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:

- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd da yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu; a
- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am wasanaethau post neu delegyfathrebiadau. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo. Ond rydym yn ystyried cwynion gan unigolion am wasanaethau teledu a radio hefyd.

## Ein cyfrifoldebau rheoleiddio newydd dros y BBC

O dan y Siarter Brenhinol a'r Cytundeb cysylltiedig newydd, cafodd y gwaith o reoleiddio'r BBC ei drosglwyddo o Ymddiriedolaeth y BBC i Ofcom ar 3 Ebrill 2017. Mae'r dogfennau hyn yn nodi'r newid sydd wedi digwydd i'r ffordd mae'r BBC yn cael ei lywodraethu a'i reoleiddio, gan gynnwys creu Bwrdd unedol newydd i redeg y BBC.


Un o gyfrifoldebau canolog Ofcom o dan y Siarter newydd ydy dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus.

Fel rhan o'n cyfrifoldebau newydd, rhaid i ni gyhoeddi Fframwaith Gweithredu sy'n cynnwys darpariaethau er mwyn rheoleiddio'r BBC yn effeithiol. Mewn perthynas â pherfformiad y BBC, rhaid i ni osod trwydded weithredu ar gyfer y BBC, a gallwn osod mesurau i asesu perfformiad y BBC. Rhaid i'r drwydded nodi'r amodau rheoleiddio y gellir eu gorfodi sy'n briodol yn ein barn ni er mwyn i'r BBC gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus.

Rydym wedi ymgynghori ar fframweithiau a gweithdrefnau newydd sy'n ymwneud â'n rôl yn goruchwylio safonau darlledu'r BBC, ac effaith y BBC ar gystadleuaeth yn y farchnad ehangach, ac wedi'u cyhoeddi.

Ym mis Hydref 2017, gwnaethom gyhoeddi trwydded weithredu newydd[1] ar gyfer y BBC. Mae'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarlledu mwy o raglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud yn y DU. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fwy o gynnwys y BBC gael ei wneud ar draws y DU ac yn y gwledydd. Bwriad y rheolau yw sicrhau bod y darlledwr yn cynnig rhaglenni unigryw o safon uchel ar gyfer ei gynulleidfa i gyd. Mae hefyd, yn gosod cwotâu newydd mewn meysydd fel y celfyddydau, cerddoriaeth, comedi a rhaglenni plant.

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/107075/bbc-operating-licence-cymraeg.pdf






## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodwyd yn gynharach, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau[2] i:

- orfodi gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol, fel y nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998, a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

[2] Mae'r term 'materion cyfathrebiadau' yn cynnwys gwahanol agweddau ar gyfathrebiadau electronig, yn ogystal â darlledu a darparu gwasanaethau post. Rydym yn defnyddio'r pwerau hyn ar y cyd â'r CMA.



# Neges y Cadeirydd

## Yr Arglwydd Burns, GCB

Mae diwydiannau cyfathrebiadau'r DU ymysg y rhai pwysicaf a'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yn economi'r DU



Mae diwydiannau cyfathrebiadau'r DU ymysg y rhai pwysicaf a'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yn economi'r DU. Rydym yn dibynnu ar wasanaethau cyfathrebu bob diwrnod o'n bywydau, o'r rhyngrwyd a ffonau symudol i deledu, radio a'r post.

Cystadleuaeth a rheoleiddio effeithiol yw sylfaen llwyddiant y diwydiannau hyn ar gyfer defnyddwyr a dinasyddion ledled y Deyrnas Unedig.

Fel Cadeirydd Ofcom, rwy'n canolbwyntio ar helpu i sicrhau bod y cyhoedd yn cael budd o wasanaethau cyfathrebu dibynadwy sydd o safon uchel. Gwnawn hyn drwy hyrwyddo cystadleuaeth rhwng cwmnïau gwahanol, a chamu i mewn i ddiogelu pobl a busnesau os nad yw pethau'n gweithio'n iawn.

Gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau band eang, ffôn a symudol i ddefnyddwyr yn ystod y flwyddyn.

Drwy greu'r amodau sy'n galluogi cystadleuaeth i ffynnu, gwelsom nifer o ymrwymiadau gan gwmnïau telegyfathrebiadau i adeiladu rhwydweithiau ffeibr newydd o'r radd flaenaf, a fydd yn golygu band eang cyflymach a mwy dibynadwy.

Dros y blynyddoedd nesaf, disgwylir y bydd nifer y cartrefi a busnesau a fydd yn gallu manteisio ar fand eang ffeibr llawn yn codi o un miliwn i chwe miliwn, sy'n ddechrau addawol.

Ond, mae'n hollbwysig bod pawb yn gallu cael gafael ar fand eang teilwng, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig. Yn dilyn deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2018, dechreusom weithio ar roi 'gwasanaeth cyffredinol' ar gyfer band eang ar waith. Mae hyn yn golygu y bydd gan bawb yn y DU, erbyn 2020, hawl gyfreithiol i ofyn am gysylltiad band eang fforddiadwy o 10Mbit yr eiliad.

Cyflawnodd y pedwar rhwydwaith symudol cenedlaethol eu rhwymedigaethau erbyn diwedd 2017 i ymestyn y ddarpariaeth. Cynhaliwyd arwerthiant gennym o sbectrwm ar gyfer ffonau symudol – ar gyfer gwasanaethau 4G a 5G yn y dyfodol – a dechrau cynllunio



ar gyfer ein harwerthiant nesaf. Cynigiwyd gennym y byddai'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus am rywfaint o'r sbectrwm gyflwyno darpariaeth symudol 4G gwell mewn ardaloedd gwledig ac ymhob un o wledydd y DU.

Bydd Ofcom hefyd yn camu i mewn i helpu'r cyhoedd pan na fydd pethau'n gweithio'n iawn. Gwnaethom fwrw ymlaen â'n cynlluniau i gwsmeriaid ffôn cartref a band eang gael iawndal awtomatig pan fydd eu darparwyr yn eu siomi. Gwnaethom hefyd gamu i mewn i helpu rhai o bobl fwyaf bregus cymdeithas drwy ddod i gytundeb a fyddai'n golygu bod BT yn gostwng ei brisiau rhent llinell ar gyfer ei gwsmeriaid llinell dir yn unig yn sylweddol.

Gwnaethom hefyd gwblhau ein blwyddyn gyntaf yn rheoleiddio'r BBC. Ym mis Hydref 2017, gwnaethom osod amodau ar y BBC y mae'n rhaid iddo eu bodloni i helpu i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael y rhaglenni sydd bwysicaf iddynt hwy. Byddwn yn cyhoeddi ein hasesiadau cyntaf o sut mae'r BBC yn perfformio ac yn cyflawni gofynion ei Siarter Brenhinol yn yr hydref.

Cafwyd newidiadau ym mwrdd Ofcom yn ystod y flwyddyn wrth i dymhorau swyddogion anweithredol ddod i ben.

Ffarweliodd Ofcom â'r Cadeirydd Patricia Hodgson, a roddodd y gorau iddi ddiwedd 2017. Mae'r Fonesig Patricia wedi bod yn arweinydd doeth ac ymroddedig ers ymuno â'r Bwrdd yn 2011.

Gadawodd Sheila Noakes, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Ofcom, y Bwrdd ym mis Mai 2018 ar ôl i'w thymor ddod i ben. Roedd gan y Farwnes Noakes brofiad gwerthfawr fel aelod bwrdd i'w roi i Ofcom, a darparodd stiwardiaeth ariannol fedrus ers ymuno â'r Bwrdd ym mis Mehefin 2014.

Gadawodd Nick Pollard, aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys, y Bwrdd ym mis Mai 2018 ar ôl i'w dymor ddod i ben.

Penderfynodd Steve Unger, aelod o'r Bwrdd Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr Ofcom, adael Ofcom ym mis Mehefin eleni. Maent i gyd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol at waith Ofcom dros y blynyddoedd ac mae'r sefydliad yn ddiolchgar iawn.

Adeg ysgrifennu hyn, roedd yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn recriwtio aelodau newydd i'r Bwrdd.

Mae Ofcom yn deall pwysigrwydd adlewyrchu'r gwledydd a'r rhanbarthau rydym yn eu gwasanaethu yn eu cyfanrwydd; mae ein swyddfeydd newydd yn Warrington a Chaeredin wedi'u sefydlu'n iawn erbyn hyn.

Gwnaethom groesawu Bob Downes i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2018. Mae ganddo brofiad helaeth gan gynnwys yn y maes telegyfathrebiadau. Roedd penodiad Bob yn dilyn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth a Senedd yr Alban, ar gyfer penodiadau i Fwrdd Ofcom.

Unwaith y bydd cytundebau tebyg wedi'i gwneud â'r gweinyddiaethau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, byddwn yn penodi aelodau Bwrdd ar gyfer y gwledydd hyn.

Ym mis Medi 2017, penodwyd Tim Suter i'r Bwrdd am dymor o bedair blynedd. Mae Tim yn gyfarwydd â gwaith Ofcom, ac yntau wedi ymuno â'r sefydliad adeg ei sefydlu yn 2003 i oruchwylio'r gwaith o reoleiddio darlledu.

Mae TIm a Bob eisoes yn dod â'u crebwyll a'u profiad helaeth i'r Bwrdd, sy'n dod â budd mawr i Ofcom.

Nes i aelodau newydd y Bwrdd gael eu sefydlu, bydd Bob yn gweithredu fel Cadeirydd dros dro y Pwyllgor Archwilio a Risg; bydd Tim yn Gadeirydd dros dro y Bwrdd Cynnwys a bydd Ben Verwaayen yn Gadeirydd dros dro y Pwyllgor Taliadau.





# Adroddiad y Prif Weithredwr

## Sharon White, Prif Weithredwr

Efallai nad yw pibellau ceblau tanddaearol a pholion telegraff yn swnio fel man cychwyn ar gyfer y chwyldro digidol nesaf

Ond mae ganddynt rôl hanfodol yn datgloi buddsoddiad mewn rhwydweithiau gwibgyswllt newydd, a fydd yn helpu i ddarparu gwasanaethau band eang a symudol gwell i bobl a busnesau.

Mae ffeibr llawn yn darparu band eang i gwsmeriaid sy'n llawer cyflymach ac oddeutu bum gwaith yn fwy dibynadwy na gwasanaethau cyflym iawn heddiw. Ond dim ond i 4% o gartrefi a swyddfeydd y DU y mae ar gael.

Ymysg ein penderfyniadau pwysicaf yn ystod y flwyddyn oedd ei gwneud yn haws i gwmnïau gael mynediad i bolion a thwneli y mae Openreach, cwmni rhwydwaith BT, yn berchen arnynt. O ganlyniad, mae'n awr yn gyflymach ac yn rhatach i gwmnïau eraill adeiladu a darparu eu rhwydweithiau ffeibr eu hunain yn uniongyrchol i gartrefi yn y DU er mwyn gallu cynnig mwy o ddewis i gwsmeriaid.

Mae'r mesur hwn yn wirioneddol newid yr achos busnes dros adeiladu rhwydweithiau newydd. Gallai leihau'r costau ymlaen llaw o osod ceblau ffeibr o £500 y cartref i £250 y cartref. Mae hefyd yn lleihau'r angen i dyllu ffyrdd.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld Virgin Media, Vodafone, CityFibre, BT a TalkTalk ymysg eraill yn gwneud sawl ymrwymiad



i fuddsoddi mewn band eang gwell. Gallai hyn olygu y bydd hyd at chwe miliwn o gartrefi a busnesau'n elwa o ffeibr llawn erbyn 2020. Mae hyn yn ddechrau addawol, ond mae llawer mwy i'w wneud.

Roedd agor rhwydwaith Openreach yn rhan o becyn o fesurau i wella'r buddsoddi mewn band eang sydd, yn y pen draw, yn golygu band eang gwell i gwsmeriaid.

Gwnaethom benderfynu peidio â rheoleiddio prisiau cynnyrch band eang cyflym iawn cyfanwerthol cyflymaf Openreach, gan gynnwys ei wasanaethau ffeibr llawn newydd, sy'n helpu i ysgogi cwmnïau i adeiladu rhwydweithiau newydd.

Ar yr un pryd, gwnaethom ddiogelu cwsmeriaid rhag prisiau uchel, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Gwnaethom hyn drwy gwtogi'r pris cyfanwerthol y gall Openreach ei godi ar gwmnïau telegyfathrebiadau am ei wasanaeth band eang cyflym iawn sylfaenol.

## Gwella gwasanaethau band eang a ffonau symudol

Mae Ofcom yn canolbwyntio'n ddiarbed ar sicrhau bod pobl yn y DU yn cael y gwasanaethau band eang a ffonau symudol gorau posibl, a bod y rhain ar gael mor eang â phosibl.

Mae hyn yn cynnwys darparu cymhellion cryf i gwmnïau wella ansawdd eu gwasanaethau i'w cwsmeriaid.

Gwnaethom gadarnhau ein cynlluniau i fynnu bod darparwyr band eang a llinell dir yn talu iawndal awtomatig – un ai taliad arian neu gredyd ar fil – i gwsmeriaid sy'n dioddef oherwydd arafwch yn trwsio gwasanaeth, neu apwyntiadau neu derfynau amser sy'n cael eu methu.

Yn dilyn ein hymyrraeth, cytunodd BT, Sky, TalkTalk, Virgin Media a Zen Internet – sydd gyda'i gilydd yn gwasanaethu oddeutu 90% o gwsmeriaid band eang a llinell dir y DU – i gyflwyno iawndal awtomatig pan fydd pethau'n mynd o chwith.

O ddechrau 2019, dylai cwsmeriaid band eang a llinell dir dderbyn £142m y flwyddyn mewn taliadau gan eu darparwr, heb orfod gofyn, i'w digolledu am wasanaeth trwsio araf, apwyntiadau sy'n cael eu methu neu arafwch yn gosod gwasanaeth. Mae hyn oddeutu naw gwaith yn fwy na'r lefel ar hyn o bryd.

Yn ogystal ag ansawdd gwasanaeth, mae cyflymder band eang yn rhwystredig iawn i lawer o bobl. Ddiwedd mis Mawrth 2018, gosododd Llywodraeth y DU ddeddfwriaeth ar gyfer 'rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol' ar gyfer band eang, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2018, ac a fydd yn cael ei weithredu gan Ofcom. Mae hyn yn golygu y byddai gan bawb yn y DU erbyn 2020 hawl gyfreithiol i ofyn am gysylltiad band eang o 10 Mbit yr eiliad.

Mae gosod rhwymedigaethau darpariaeth ar gwmnïau symudol yn chwarae rhan bwysig yn sicrhau bod mwy o bobl a busnesau'n gallu cael darpariaeth dda.






Ar ôl llwyddo i amddiffyn ein penderfyniadau rhag ymgyfreitha gan gwmnïau symudol, gwnaethom gynnal arwerthiant pwysig o'r 'sbectrwm' 4G a 5G, y tonnau awyr sy'n rhoi mynediad i'r rhyngrwyd ar ffonau symudol a dyfeisiau llechen. Ddechrau Ebrill 2018, gwnaethom gyhoeddi bod y pedwar cwmni rhwydwaith symudol wedi prynu sbectrwm. Bydd hyn yn arwain at wasanaethau gwell i gwsmeriaid, heddiw ac yn y dyfodol, wrth i ni baratoi ar gyfer 5G, y genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol.



Yn 2014, cytunodd y pedwar cwmni rhwydwaith symudol â Llywodraeth y DU i sicrhau y gellir gwneud galwadau o ffonau symudol yn 90% o dirfas y wlad erbyn diwedd 2017, gan ddefnyddio'r mesurau darpariaeth a oedd ar waith bryd hynny. Hefyd, yn 2013, gwnaethom fynnu bod O2 yn darparu gwasanaeth data symudol 4G i 98% o adeiladau ar draws y DU erbyn diwedd 2017. Eleni, gwnaethom gadarnhau bod y cwmnïau symudol wedi cyflawni'r rhwymedigaethau hyn mewn perthynas â darpariaeth.

Ond rydym am weld y ddarpariaeth yn llawer ehangach. Felly, ym mis Mawrth 2018, gwnaethom ymgynghori ar rwymedigaethau newydd ar gyfer y ddarpariaeth symudol, erbyn y byddwn yn rhyddhau sbectrwm yn y band 700Mhz, a fydd gobeithio yn cael ei werthu mewn ocsiwn ddiwedd 2019.

Gwnaethom gynnig y bydd yn rhaid i gwmnïau sy'n ennill meintiau penodol o sbectrwm gyflwyno darpariaeth symudol well mewn ardaloedd gwledig – gan gynnwys ar gyfer adeiladau nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cael darpariaeth dda gan yr un cwmni. Dan ein cynlluniau hefyd byddai'n rhaid i rai cwmnïau sicrhau gwell darpariaeth ymhob un o wledydd y DU.

Mae cael mwy o donnau awyr i ddwylo cwmnïau symudol yn hanfodol: mae defnyddwyr y DU yn defnyddio 40% yn fwy o ddata rhyngrwyd ar eu dyfeisiau symudol bob blwyddyn.

Gwnaethom hefyd barhau i ddarparu adnoddau a data i helpu defnyddwyr i gael gwybodaeth am y cyflymderau band eang a'r ddarpariaeth symudol maent yn debygol o'u cael. Cofnodwyd dros 3.7 miliwn o ymweliadau â gwefan ein gwiriwr darpariaeth yn 2017/18.

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Mae diogelu defnyddwyr – pobl a busnesau – yn ganolog i waith Ofcom. Felly, pan fydd pethau'n mynd o chwith, rydym yn barod i gamu i mewn.

Ym mis Hydref 2017, roeddem yn falch fod BT wedi cytuno i'n gofynion i gwtogi biliau ei gwsmeriaid sy'n prynu ffôn llinell dir yn unig. O fis Ebrill 2018 ymlaen, cafodd biliau rhent llinell eu cwtogi £7 y mis i £11.99, sy'n arbed £84 y flwyddyn i hyd at 900,000 o gwsmeriaid oedrannus neu fregus yn bennaf.

Roeddem yn falch fod Swyddfa'r Post, sydd â'r ail gyfran uchaf o'r farchnad llinell-dir-yn-unig ar ôl BT, wedi cynnig pris newydd o £11.50 y mis.

Ym mis Rhagfyr 2017, gwnaethom gyhoeddi gwelliannau mawr ar gyfer cwsmeriaid symudol sydd am newid eu darparwr. O flwyddyn nesaf ymlaen, bydd cwsmeriaid symudol yn gallu newid rhwydwaith drwy wneud dim ond anfon neges destun rhad ac am ddim.

Ni fydd cwsmeriaid yn gorfod siarad â'u darparwr presennol ar ôl hyn – un o brif achosion yr anawsterau i bobl a oedd am newid. Mae ein rheolau newydd hefyd yn golygu na fydd cwmnïau symudol yn cael codi am gyfnodau rhybudd sy'n rhedeg ar ôl y dyddiad newid.

Mae defnyddwyr y DU yn defnyddio 40% yn fwy o ddata rhyngrwyd ar eu dyfeisiau symudol bob blwyddyn




## Cefnogi darlledu i wylwyr a gwrandawyr

2017/18 oedd blwyddyn gyntaf Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, y darlledwr cenedlaethol sy'n agos at galon cymdeithas y DU ac economi greadigol y DU. Mae gan y rôl bwysig hon dri phrif gyfrifoldeb: diogelu safonau golygyddol, monitro perfformiad a sicrhau bod y BBC yn cystadlu'n deg â'r farchnad fasnachol. Mae buddiannau cynulleidfaoedd wrth galon ein gwaith rheoleiddio.

Ymysg y dyletswyddau mwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn oedd sefydlu 'trwydded weithredu' ar gyfer y BBC, sy'n helpu i sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni a gwasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd teledu a radio.

Dywedodd cynulleidfaoedd wrthym fod rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU yn bwysig iddynt. Felly, gwnaethom fynnu bod y BBC yn darlledu mwy o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n adlewyrchu bywydau a diddordebau ei holl gynulleidfa. Mae mwy o gwotâu mewn meysydd fel y celfyddydau, cerddoriaeth, comedi a rhaglenni plant, sy'n helpu i gyflawni diben y BBC i fod yn unigryw, yn greadigol ac yn berthnasol i gymunedau amrywiol y DU. Rhaid i'r BBC hefyd wario tua'r un faint ar raglenni, y pen, ym mhob gwlad.

Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal yn y maes darlledu. Roedd sicrhau bod darlledwyr yn adlewyrchu cynulleidfaoedd yn y gwledydd yn ffocws pwysig i ni yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Medi 2017, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad *Amrywiaeth mewn Darlledu*[1] cyntaf. Roedd yn dangos pa mor dda y mae darlledwyr yn hyrwyddo cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth. Roedd yn dangos bod angen i'r holl ddarlledwyr wneud mwy i fonitro a gwella amrywiaeth eu gweithwyr. Gwnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau newydd i ddarlledwyr ar sut i hyrwyddo cyfle cyfartal.

Mae gan Ofcom rôl bwysig, a sefydlwyd gan y Senedd, i gynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae teledu yn newid yn gyflym. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i'n darlledwyr traddodiadol addasu i fynd i'r afael â heriau cystadleuaeth fyd-eang, technoleg newydd a chymdeithas fwy amrywiol.

Eleni, gwnaethom gyflwyno rhai o'r newidiadau hyn ac esbonio sut y byddwn yn cefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth iddynt ymateb i'r rhain. Dechreusom weithio ar adolygiad o'r ffordd maent yn ymddangos mewn canllawiau rhaglenni teledu, ac ailddatgan ein hymrwymiad i gadw tonnau awyr ar gyfer Freeview, sy'n cael ei ddefnyddio gan 19 miliwn o gartrefi, am 10 mlynedd o leiaf.

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/106446/amrywiaeth-chyfle-cyfartal-mewn-teledu.pdf

# Y cynnydd sydd wedi'i wneud yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol

Amcan Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, rydym wedi gosod tri nod tymor hir ac mae gan bob un set o amcanion ar gyfer gwneud hynny




### Ein tri nod yw:

- **sicrhau safonau a gwella ansawdd;**
- **hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr; a**
- **diogelu defnyddwyr rhag niwed.**

Rydym yn edrych ar bob nod yn fanwl isod, gan esbonio'n hamcanion, pa gamau rydym wedi'u cymryd, a'r canlyniadau hyd yma.



## Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Mae Ofcom yn gweithio i greu marchnad sy'n sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu o ansawdd da ar gael i bawb ac yn fforddiadwy i bawb.

Er bod cystadleuaeth iach yn ysgogi gwasanaethau o ansawdd gwell a phrisiau is, nid yw marchnadoedd bob amser yn gwasanaethu pawb yn yr un ffordd. Pan ddigwydd hyn, mae angen i ni ymyrryd mewn ffyrdd penodol i warchod defnyddwyr neu i wella ansawdd gwasanaethau.

Rydym hefyd yn sicrhau safonau ym maes teledu, radio a fideo ar-alwad, gan ddal darlledwyr yn atebol am eu cynnyrch.






## Mae bron i saith o bob deg adeilad yn gallu derbyn signal symudol 4G dan do erbyn hyn gan y pedwar rhwydwaith

### Ein hamcan

**Gwella darpariaeth gwasanaethau cyfathrebu sefydlog a symudol i ddiwallu anghenion defnyddwyr a busnesau ledled y DU**

Er bod y ddarpariaeth o ran rhwydweithiau sefydlog a symudol yn parhau i wella, mae rhai rhannau o'r DU o hyd yn parhau heb wasanaethau band eang cyflym a lle mae'r ddarpariaeth symudol yn wael – yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

Er enghraifft, mae oddeutu 0.9 miliwn o gartrefi a busnesau bach, neu 3% o adeiladau, yn dal heb allu derbyn cyflymderau band eang o 1 0 Mbit yr eiliad.

Mae mynediad i fand eang a chyflymderau band eang yn dal yn waeth mewn ardaloedd gwledig, lle mae adeiladau'n aml iawn wedi'u lleoli gryn bellter o'r gyfnewidfa ffôn neu'r cabinet stryd lleol. Nid yw oddeutu 16% o adeiladau yng nghefn gwlad yn cael gwasanaethau band eang teilwng o'i gymharu â dim ond 1% mewn ardaloedd trefol.

Ac er bod pobl erbyn hyn yn gallu gwneud galwadau ffôn ar y pedwar rhwydwaith symudol y tu mewn i 92% o adeiladau'r DU, mae hyn yn gostwng i 75% ar ffyrdd A a B ac i 66% mewn ardaloedd gwledig. Mae oddeutu tri chwarter o dirfas y DU yn cael darpariaeth gan y pedwar cwmni, ond mae 7% heb fod yn cael darpariaeth gan yr un cwmni.

Mae oddeutu saith o bob deg adeilad yn gallu derbyn signal symudol 4G dan do erbyn hyn gan y pedwar rhwydwaith. Ond mae gormod o bobl o hyd yn y DU yn dal yn ei chael hi'n anodd cael derbyniad da – yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ac ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd. Mae cyfanswm y ddarpariaeth symudol ddaearyddol 4G, lle mae derbyniad ar gael gan y pedwar cwmni rhwydwaith, ar gael ar draws 57% yn unig o dirfas y DU. Ar gyfer galwadau a negeseuon testun, nid yw 24% o ardal ddaearyddol y DU yn derbyn signal gan y pedwar cwmni.

Ein nod yw gwella'r ddarpariaeth mewn perthynas â gwasanaethau cyfathrebu sefydlog a symudol er mwyn diwallu anghenion pobl a busnesau ar draws y DU, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell lle mae dulliau masnachol yn aml wedi methu â bodloni'r disgwyliadau.

### Beth rydym wedi'i wneud

Mae nifer yr adeiladau sydd heb fynediad i fand eang teilwng wedi gostwng o 2.4 miliwn i 0.9 miliwn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Ond, mae darparu band eang teilwng mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd yn dal yn fasnachol heriol.

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gyflwyno rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) erbyn 2020. I gefnogi'r nod hwn, cyhoeddasom ym mis Rhagfyr 2016 ein cyngor i'r Llywodraeth ar sut i ddarparu cysylltiad band eang teilwng i bawb. Buom yn ystyried ffactorau megis cyflymder, cymhwysedd, fforddiadwyedd ac ariannu, yn ogystal â'r costau posibl.

Ystyriodd y Llywodraeth yr opsiynau, a gwrthod cynnig gwirfoddol gan BT. Ym mis Mawrth 2018, gosododd y Llywodraeth fanylion yr USO mewn is-ddeddfwriaeth. Byddai hwn yn rhoi'r hawl i bawb yn y DU wneud cais am gysylltiad band eang teilwng – sy'n cael ei ddiffinio fel cyflymder llwytho i lawr o 10Mbit yr eiliad o leiaf, a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad o leiaf.

Gwaith Ofcom yn awr yw rhoi hyn ar waith, er enghraifft drwy ddynodi darparwyr y gwasanaeth cyffredinol. Mae'r gwaith bellach ar y gweill.

Ar yr un pryd, dylai ein gwaith ar hybu buddsoddiad a chystadleuaeth mewn rhwydweithiau llinell sefydlog (gweler tudalennau 20) helpu i sbarduno darpariaeth band eang cyflym iawn a gwibgyswllt, gan ddiwallu anghenion cynyddol pobl a busnesau am led band.

Mae cael gwasanaethau symudol yn fwyfwy pwysig i bobl a busnesau, ac mae gwella hyn yn flaenoriaeth i Ofcom.

Rydym yn cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth symudol a rhaid i ddarparwyr roi blaenoriaeth i gynnig darpariaeth well. Rydym yn cymryd camau uniongyrchol ein hunain, gan gynnwys cynllun chwe phwynt i helpu i wella'r ddarpariaeth symudol ar draws y DU.

### 1. Gosod gofynion newydd yn nhrwyddedau cwmnïau

Rydym wedi ymgynghori ar gynlluniau i wella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig, drwy osod rhwymedigaethau darpariaeth ar donnau awyr symudol a fydd yn cael eu rhyddhau yn y dyfodol. Bwriadwn gyflwyno gofynion yn nhrwyddedau cwmnïau y dyfernir yr amleddau hyn iddynt yn y band 700 MHz, sy'n addas ar gyfer sicrhau darpariaeth gref dros ardaloedd helaeth iawn ac, a ddylai fod yn cael eu defnyddio erbyn canol y 2020au.

### 2. Gorfodi'r rhwymedigaethau presennol

Roedd cwmnïau symudol i fod i sicrhau darpariaeth llais a thestun i 90% o dirfas y DU erbyn diwedd 2017. Roedd disgwyl i O2 hefyd ddarparu signal 4G dan do i o leiaf 98% o adeiladau erbyn yr un pryd. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar waith y cwmnïau symudol yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r rhwymedigaethau hyn, a byddwn yn sicrhau bod hyn yn parhau.

### 3. Cynyddu capasiti rhwydweithiau

Ym mis Ebrill 2018, gwnaethom lwyddo i ddyfarnu 190 MHz o sbectrwm ar draws y bandiau 2.3 GHz a 3.4 GHz (gweler tudalen 20-22). Byddem wedi gwneud hyn yn gynt oni bai am ymgyfreitha. Bydd y tonnau awyr newydd hyn yn helpu i gynyddu'r capasiti symudol presennol a darparu sbectrwm ar gyfer gwasanaeth 5G yn y dyfodol. Dechreusom weithio hefyd ar arwerthiant ar gyfer y band 700 MHz a'r band 3.6 i 3.8 GHz. Cyn y bydd y broses ddyfarnu hon yn digwydd, byddwn yn parhau i glirio gwasanaethau teledu daearol digidol a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) o'r band hwn er mwyn gallu ei ryddhau ar gyfer data symudol. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y risg y bydd y gwasanaethau symudol newydd yn wynebu ymyriant oddi wrth ddefnyddwyr presennol y band, a'r camau lliniaru posibl mewn perthynas â'r ymyriant yma. Buom hefyd yn gweithio ar lunio a gweinyddu cynlluniau grant y Llywodraeth i helpu i reoli'r gwaith o symud y gwasanaethau pwysig hyn i fandiau amledd newydd.



### 4. Helpu i wella'r ddarpariaeth ar drenau

Rydym wedi gosod cyfarpar ar drên peirianneg Network Rail i helpu i greu darlun o'r derbyniad symudol ar draws rhwydwaith rheilffyrdd y DU. Bydd hyn yn helpu'n gwaith gyda'r Llywodraeth i helpu i wella'r ddarpariaeth.

### 5. Cefnogi diwygiadau cynllunio

Rydym hefyd yn helpu i roi deddfau cynllunio newydd ar waith a fydd yn ei gwneud hi'n rhatach ac yn haws i gwmnïau symudol wella'r ddarpariaeth drwy rannu a gosod offer, fel mastiau symudol ar dir preifat a chyhoeddus.

### 6. Ymestyn y defnydd o gyfarpar cryfhau signal

Ym mis Hydref, gwnaethom benderfynu roi caniatâd i 'ddyfeisiau mwyhau' ar gyfer ffonau symudol gael eu defnyddio dan reolaeth ac yn ddidrwydded. Mae'r rhain yn chwyddo'r signal rhwng ffôn symudol a throsglwyddydd y cwmnïau. Bydd y newidiadau, a gafodd eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2018, yn helpu pobl i wella'u darpariaeth symudol lle mae'r signal yn wan.

Er bod ein hymchwil yn dangos bod y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau sefydlog a symudol ar draws y DU wedi gwella, a bod mwy o ddarpariaeth ar gael, mae rhagor i'w wneud, yn arbennig yn y gwledydd ac yn ardaloedd gwledig Lloegr.





## Ein hamcan

**Gwella ansawdd y gwasanaeth mewn gwasanaethau telegyfathrebu sefydlog a symudol ar gyfer defnyddwyr a busnesau**

Mae cystadleuaeth, arloesi a buddsoddi mewn telegyfathrebiadau dros y degawd diwethaf wedi bod o fudd i gwsmeriaid ar ffurf prisiau is a gwasanaethau gwell. Ond er bod defnyddwyr at ei gilydd wedi manteisio ar y prisiau is, yn rhy aml nid yw ansawdd y gwasanaethau wedi bod yn ddigon da.

Mae pobl a busnesau angen gwasanaethau telegyfathrebu dibynadwy o ansawdd da. Er bod y rhan fwyaf yn dweud wrthym eu bod yn fodlon â'u ffôn neu fand eang, mai rhai wedi dioddef ansawdd gwasanaeth gwael, fel oedi annerbyniol gyda gosod neu drwsio cyfarpar.

Mae Ofcom yn gweithio i ddarparu newid sylweddol yn ansawdd y gwasanaeth ar draws y diwydiant, ac i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu digolledu'n briodol pan fydd pethau'n mynd o chwith.

## Beth rydym wedi'i wneud

Mae rhoi gwybodaeth dda i ddefnyddwyr, sy'n cymharu cwmnïau gwahanol, yn gallu cynyddu cystadleuaeth a gwella ansawdd y gwasanaeth. Ym mis Ebrill 2017, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar ansawdd gwasanaethau ar draws y diwydiant telegyfathrebiadau, gan enwi'r perfformwyr gorau a'r rhai salaf.

Ar yr un pryd, gwnaethom lansio offer ar-lein sy'n cyflwyno manylion yr adroddiad mewn fformat gweledol hawdd. Mae'r gwasanaeth hwn, a'r adroddiad ategol, yn rhoi cyfle i gwsmeriaid ffôn a band eang gymharu sgoriau darparwyr gwahanol ar gyfer ateb galwadau cwsmeriaid, delio â chwynion, a dibynadwyedd eu gwasanaethau.

Mae ein hadroddiad blynyddol ar ansawdd gwasanaethau'n feincnod ar gyfer gwella. Mae'n rhoi'r wybodaeth mae defnyddwyr ei hangen i ganfod y perfformwyr gorau a'r rhai salaf, ac i chwilio am rywbeth gwell. Mae cyhoeddi'r wybodaeth fanwl hon hefyd yn ysgogiad amlwg i ddarparwyr wella yn y meysydd lle nad ydynt yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid.

Cwmni pwysig ym maes ansawdd gwasanaeth yw Openreach, y rhan o Grŵp BT sy'n rhedeg ac yn cynnal prif rwydwaith telegyfathrebiadau'r DU ar ran nifer o gwmnïau ffôn a band eang.

Mae Openreach wedi bod yn lleihau'r amser mae'n ei gymryd i drwsio namau a gosod llinellau newydd. Ond rydym am weld ei berfformiad yn gwella eto. Felly, fel rhan o'n Hadolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol (gweler tudalen 20), gwnaethom osod gofynion mwy llym ar Openreach ar gyfer trwsio, a gosod llinellau ffôn a band eang safonol, i sicrhau bod ei berfformiad yn dal o safon dderbyniol.

Daeth y gofynion newydd yn weithredol ym mis Ebrill 2018 a byddant yn cynyddu'n flynyddol dros y tair blynedd nesaf. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad Openreach yn agos ac yn ymateb os na chaiff y safonau eu cyflawni.

Mae gan y sector cyfan – nid Openreach yn unig – ran i'w chwarae yn darparu gwasanaeth o ansawdd gwell. A phan na fydd cwsmeriaid yn cael y safon maent yn ei disgwyl, credwn y dylent dderbyn iawndal digonol yn awtomatig heb orfod gofyn amdano.



Ym mis Mawrth 2017, gwnaethom gyflwyno cynigion i fynnu bod darparwyr band eang a llinell dir yn talu iawndal awtomatig – un ai taliad arian neu gredyd ar fil – i gwsmeriaid sy'n dioddef oherwydd arafwch yn trwsio namau, neu apwyntiadau neu derfynau amser sy'n cael eu methu.

Yn dilyn ein hymyrraeth, cytunodd BT, Sky, TalkTalk, Virgin Media a Zen Internet – sydd gyda'i gilydd yn gwasanaethu oddeutu 90% o gwsmeriaid band eang a llinell dir y DU – i gyflwyno cynllun iawndal awtomatig sy'n adlewyrchu'r niwed mae pobl yn ei ddioddef pan fydd pethau'n mynd o chwith.

O dan y cynllun, bydd gan gwsmer llinell dir neu fand eang hawl i gael iawndal awtomatig yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- os yw ei wasanaeth wedi stopio gweithio a heb ei drwsio'n iawn ar ôl dau ddiwrnod gwaith llawn. Byddant yn cael £8 am bob diwrnod nad yw'r gwasanaeth wedi cael ei drwsio;
- peiriannydd ddim yn dod i apwyntiad sydd wedi cael ei drefnu, neu mae'n cael ei ganslo gyda llai na 24 awr o rybudd. Byddant yn derbyn £25 am bob apwyntiad a fethir; neu
- mae'i ddarparwr yn addo dechrau gwasanaeth newydd ar ddyddiad penodol ond ddim yn gwneud hynny. Byddant yn cael £5 am bob diwrnod o oedi, gan gynnwys y dyddiad cychwyn a gafodd ei fethu.

Ynghyd â hyn, gwnaethom gyflwyno rheolau newydd i wneud yn siŵr bod pob busnes bach a chanolig yn cael gwybodaeth gliriach, fwy manwl ymlaen llaw am safon y gwasanaeth y gallant ei disgwyl. Mae hyn yn cynnwys p'un ai a allant hawlio iawndal pan fydd problemau'n codi.

Yn dilyn cyfnod gweithredu, o fis Chwefror 2019 ymlaen, bydd pob cwsmer llinell dir a band eang sy'n dioddef gwaith atgyweirio araf, oedi gyda gosod gwasanaeth neu beirianwyr yn methu apwyntiadau, yn derbyn iawndal digonol yn hawdd, yn gyflym ac yn awtomatig. Ar hyn o bryd, dim ond mewn un ymhob saith achos y mae iawndal yn cael ei dalu. Gallai'r newidiadau olygu cyfanswm o £142m o daliadau i bobl, tua naw gwaith yn fwy na'r lefel ar hyn o bryd.

Mae'r cynllun newydd yn darparu ysgogiad i ddarparwyr wella ansawdd eu gwasanaethau o safbwynt ariannol ac o ran cadw enw da. Byddwn yn monitro'r cynllun yn ofalus ac yn ei adolygu flwyddyn ar ôl ei roi ar waith i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, rydym am weld rhagor o welliant yn safonau gwasanaethau. Mae Ofcom yn benderfynol o helpu i chwyldroi gwasanaeth yn y sector telegyfathrebiadau, gan sicrhau sector lle daw cysondeb a rhagoriaeth yn fater o drefn a lle bydd y cwsmeriaid yn dod yn gyntaf bob tro.

## Ein hamcan

**Cynyddu capasiti rhwydweithiau symudol drwy sicrhau bod digon o sbectrwm ar gael**

Mae sbectrwm yn adnodd gwerthfawr y mae pen draw iddo sy'n sail i wasanaethau diwifr, yn amrywio o deledu i gyfathrebiadau radio a band eang.

Un o rolau craidd Ofcom yw rheoli'r cyflenwad cyfyngedig o sbectrwm yn ofalus a chydbwyso anghenion defnyddwyr drwy sicrhau eu bod yn cael mynediad at faint priodol ohono. Mae sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithlon o'r tonnau awyr yn bwysig er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr ffonau symudol, ac er mwyn cefnogi economi ehangach y DU.

Mae maint y data sy'n llifo drwy ein dyfeisiau symudol ddeg gwaith yn fwy nag yr oedd bum mlynedd yn ôl. Mae darparwyr gwasanaethau symudol angen mwy o donnau awyr i gefnogi'r galw cynyddol hwn am wasanaethau rhyngrwyd ar y ffordd, sy'n cael ei sbarduno gan ffonau clyfar a dyfeisiau llechen.

Roedd datganiad Ofcom ar y Strategaeth Data Symudol, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Mai 2014 ac a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2016, yn esbonio sut rydym yn bwriadu hwyluso'r gwaith o sicrhau twf hirdymor parhaus yn y buddion i ddefnyddwyr a dinasyddion yn sgil defnyddio mwy o wasanaethau data symudol dros y ddau ddegawd nesaf.

5G yw'r genhedlaeth nesaf o dechnoleg symudol. Mae'n dilyn y cenedlaethau technoleg symudol blaenorol fel 3G a 4G. Mae disgwyl y bydd yn darparu band eang cyflymach a gwell ac yn golygu y bydd modd ei ddefnyddio mewn ffordd fwy chwyldroadol mewn sectorau fel gweithgynhyrchu, trafnidiaeth a gofal iechyd. Gall hyn greu buddion i bobl ac i fusnesau, gan ehangu rôl cysylltedd di-wifr yn yr economi a'r gymdeithas.

Rydym am weld y DU yn arwain y byd ym maes technoleg 5G, a fydd o fudd i'n pobl, i'n busnesau ac i'r economi ehangach. Rydym yn ceisio sicrhau nad yw sbectrwm yn rhwystro'r gwaith o gyflwyno 5G yn gynnar. Byddwn yn rhyddhau gwahanol fathau o fandiau sbectrwm ar gyfer 5G cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar y sbectrwm maent ei angen.

Ym mis Mawrth 2018, gwnaethom gyhoeddi dogfen drafod ar alluogwyr 5G, gan gynnwys sbectrwm. Gwnaethom bennu bandiau gwahanol, ar ystodau amledd gwahanol ar gyfer diwallu gofynion defnyddwyr 5G yn y dyfodol a'r hyn y bydd 5G yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer yn y dyfodol:

- Sbectrwm amledd isel: cefnogi gwell darpariaeth a gwell profiad i ddefnyddwyr;
- Sbectrwm amledd-canol: bodloni'r galw cynyddol am gapasiti ar gyfer gwasanaethau symudol gan gynnwys 5G; a
- Sbectrwm amledd-uchel (ton mm): nid yw hwn wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau symudol hyd yma, ond mae'n debyg y bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi rhaglenni 5G newydd, yn arbennig y rheini sy'n gofyn am gapasiti uchel ac oedi isel iawn gan gwmnïau rhwydwaith symudol (MNOs) symudol a chwaraewyr eraill.

## Beth rydym wedi'i wneud

Mae'r DU yn elwa o bedwar cwmni rhwydwaith symudol cenedlaethol, yn ogystal â nifer o 'rith' gwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau drwy gludo eu gwasanaeth ar seilwaith y cwmnïau cenedlaethol. Mae'r gystadleuaeth hon yn helpu i sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel, prisiau cystadleuol, dewis ac arloesedd.

Ym mis Mawrth 2018, dechreusom gynnal arwerthiant o 190 MHz o sbectrwm radio ar draws y bandiau 2.3 GHz (40 MHz) a 3.4 GHz (150 MHz), er mwyn galluogi cwmnïau rhwydweithiau symudol i wella'u capasiti data, a galluogi eu cwsmeriaid i fwynhau pori mwy dibynadwy ar y we.

Arferai'r bandiau gael eu defnyddio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, a chawsant eu pennu fel rhan o gynllun y Llywodraeth i ryddhau 750 MHz o sbectrwm y sector cyhoeddus mewn bandiau o dan 10 GHz erbyn 2022. O hyn, bydd dau draean ar gael erbyn 2020.

Mae sbectrwm yn y band 2.3 GHz yn gydnaws â ffonau cyfredol sy'n cael eu gwneud gan gwmnïau fel Apple a Samsung ac mae modd ei ddefnyddio yn syth ar ôl ei ryddhau ar ôl yr arwerthiant, gan helpu i wella capasiti band eang symudol ar gyfer defnyddwyr ffonau symudol heddiw.

Mae'r sbectrwm 3.4 GHz wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau 5G i'r dyfodol. Y disgwyl yw y bydd ar gael i'w ddefnyddio yn 2019 ar gyfer y cyfryw wasanaethau. Bydd yn hollbwysig ar gyfer y dyfodol, gan gefnogi cyflwyno 5G yn y DU.

Gwnaethom gynllunio'r arwerthiant o'r bandiau hyn i sicrhau y bydd defnyddwyr gwasanaethau symudol yn parhau i elwa o gystadleuaeth gref.

Roedd rheolau'r arwerthiant yn rhoi dau gap ar y sbectrwm y caiff unrhyw un cwmni ei ddal, er mwyn diogelu cystadleuaeth yn y farchnad. Roedd y cyntaf yn golygu nad oedd EE, a oedd yn dal y rhan fwyaf o sbectrwm, yn cael gwneud cais am unrhyw sbectrwm yn y band 2.3 GHz. Yr ail oedd cap cyffredinol ar faint y caiff un cwmni ei ddal ar ôl yr arwerthiant.

Heriodd BT/EE a Three y rheolau hyn yn y llysoedd, gan oedi'r broses ddyfarnu a oedd wedi'i chlustnodi yn wreiddiol ar gyfer mis Hydref 2017. Roedd BT/EE am weld y cyfyngiadau yn cael eu dileu, a gofynnodd Hutchison 3G am derfynau llymach ar faint o sbectrwm y gallai unrhyw un ymgeisydd ei gael.

Ar ôl i'r Uchel Lys a'r Llys Apêl benderfynu o blaid Ofcom, roeddem yn gallu cadarnhau'r rheolau a oedd wedi'u gosod yn wreiddiol ar gyfer y broses ddyfarnu. Wedyn, gwnaethom wahodd cwmnïau i gyflwyno ceisiadau ar gyfer yr arwerthiant, a chyhoeddi rhestr ar ôl hynny o'r chwe chynigydd cymwys ar 27 Chwefror 2018. Dechreuodd yr ymgeisio ym mhrif gam yr arwerthiant ar 20 Mawrth 2018, a dod i ben ar 4 Ebrill 2018. Rhoddodd Ofcom drwyddedau i ddefnyddio'r sbectrwm i'r ymgeiswyr llwyddiannus ar 13 Ebrill 2013.

Telefónica enillodd y 40 MHz i gyd o'r sbectrwm 2.3 GHz a dechreuodd ei ryddhau ar gyfer ei ddefnyddio gan ei gwsmeriaid ar yr un diwrnod ag y gwnaethom roi'r drwydded. Yn y band 3.4 GHz, enillodd Vodafone 50 MHz, ac enillodd Telefónica ac EE ill dau 40 MHz. Enillodd Hutchison 3G 20 MHz wrth ymyl y bloc o 20 MHz y mae UK Broadband eisoes yn dal trwydded ar ei gyfer sef is-gwmni sydd ym meddiant llwyr Hutchison 3G.

Yn gyffredinol, roedd yr arwerthiant yn golygu bod cynnydd wedi'i weld yn syth yn y capasiti band eang symudol ar gyfer cwsmeriaid Telefónica, a hefyd bod sbectrwm yn gyffredinol wedi'i ddosbarthu'n fwy cyfartal rhwng y cwmnïau rhwydweithiau symudol cenedlaethol. Mae'n fan cychwyn da i alluogi'r pedwar i ddatblygu gwasanaethau 5G yn y dyfodol.

Wrth gynllunio'r arwerthiant, ein dyletswydd oedd sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, nid i sicrhau'r refeniw gorau posibl. Rydym yn amcangyfrif y bydd y tonnau awyr hyn yn sicrhau buddion gwerth £10bn i ddefnyddwyr y DU dros y degawd nesaf. Cododd y broses ddyfarnu £1.37bn ar gyfer Trysorlys ei Mawrhydi.

Ar hyn o bryd, rydym yn paratoi i arwerthu'r band 700 MHz a'r bandiau 3.6-3.8 GHz yn ail hanner 2019.



## Ein hamcan

**Sicrhau ansawdd mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus**

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn disgrifio rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu er budd y cyhoedd, yn hytrach nag at ddibenion masnachol yn unig, dan gylch gwaith penodedig.

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu nifer o fuddion diwylliannol sylweddol. Mae'n sicrhau amrywiaeth yn y cyfryngau a lluosogrwydd yn y maes newyddion. Mae'n annog y gwaith o gynhyrchu rhaglenni sy'n adlewyrchu ac yn archwilio'r gymdeithas ehangach. Mae ganddo hefyd rôl economaidd bwysig yn cefnogi'r diwydiannau creadigol ac yn arbennig y sector cynhyrchu annibynnol.

Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ansawdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r gwasanaethau teledu a ddarperir gan y darparwyr gwasanaeth cyhoeddus penodedig.

Mae hyn yn cynnwys faint mae'r darlledwyr hyn yn ei wario ar raglenni, a'r gwahanol fathau o raglenni maent yn eu dangos.

## Beth rydym wedi'i wneud

Gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad newydd sy'n disgrifio'r heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig yn wyneb rhagor o gystadleuaeth o bob rhan o'r byd a mwy o ddefnydd o gyfryngau ar-lein.

Roedd hwn yn esbonio beth y gallwn ei wneud i gefnogi'r system yn y degawd nesaf a thu hwnt, a fydd yn ffurfio rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwnaethom hefyd annog darlledwyr i gydweithredu i sicrhau eu bod yn aros yn gystadleuol yn fyd-eang ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn y DU.

Mae gwylwyr wedi dweud wrth Ofcom fod rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y DU yn bwysig iddynt. Y BBC yw conglfaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae cynnwys gwreiddiol yn gallu helpu'r BBC i gyflawni dyletswyddau dan ei Siarter newydd, sy'n cynnwys bod yn unigryw, yn greadigol ac yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn ymgynghori ar ein trwydded weithredu gyntaf ar gyfer y BBC a'i chyhoeddi. Roedd y drwydded yn sefydlu amrywiaeth eang o amodau y gellir eu gorfodi ar gyfer:

- dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth newydd a'i ddibenion cyhoeddus;
- sicrhau y darperir cynnwys unigryw ar draws y DU; a
- sicrhau bod allbwn y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu cymunedau amrywiol gwledydd a rhanbarthau'r DU.

Gwnaethom benderfynu osod trwydded ar gyfer holl wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU yn hytrach na thrwyddedau gwasanaeth ar wahân, gan fod y gofynion gwahanol ymhlith pethau eraill wedi'u hanelu at un o wasanaethau'r BBC, rhai ohonynt neu'r cwbl. Gwnaethom gyhoeddi hefyd ddogfennau unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU, gan ddwyn ynghyd yr holl amodau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC yn y wlad honno.

Dan y drwydded newydd, rhaid i o leiaf dri chwarter yr holl oriau rhaglenni (75%) ar sianeli teledu mwyaf poblogaidd y BBC fod yn gynyrchiadau gwreiddiol, wedi'u comisiynu gan y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU.

Mae gofynion newydd ar Radio 1 a Radio 2 i chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na'r hyn mae gorsafoedd masnachol yn ei wneud a mwy o gerddoriaeth gan artistiaid newydd a' rhai sy'n dod i'r amlwg yn y DU. Mae'n rhaid i'r sianeli plant CBBC a CBeebies ill dwy ddangos o leiaf 400 a 100 awr yr un o raglenni newydd sbon a fydd wedi cael eu comisiynu yn y DU bob blwyddyn.

Yn y rhan fwyaf o feysydd, rydym wedi gosod gofynion llymach ar y BBC nag yn flaenorol. Byddwn yn cyflwyno ein hasesiad o gydymffurfiad y BBC yn yr hydref.

Ynghyd â'r drwydded newydd, gwnaethom gyhoeddi ein hadolygiad manwl cyntaf o'r ffordd y mae grwpiau gwahanol yn cael eu cynrychioli a'u portreadu gan y BBC ar sail yr hyn y mae cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'n canfyddiadau ochr yn ochr â'r adroddiad cydymffurfio blynyddol yn yr hydref.

Yn ogystal, gwnaethom nodi sut y byddwn yn mesur perfformiad y BBC yn fwy eang er, mwyn rhoi darlun manwl a chynhwysfawr i gynulleidfaoedd o sut mae'n cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei holl wasanaethau. Bwriadwn ddefnyddion amrywiaeth o ffynonellau data i wneud hyn, gan gynnwys traciwr newydd gan y BBC a fydd yn casglu barn amrywiol gynulleidfaoedd am y BBC.

Mae cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus Channel 4 yn rhoi pwyslais penodol ar amrywiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys amcan i adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau gwahanol, traddodiadau a diddordebau diwylliannol yn y DU ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r wlad. Bob blwyddyn, rydym yn ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Channel 4, gan ddisgrifio'n hasesiad o ba mor dda mae'r darlledwr wedi cyflawni'i ddyletswyddau yn y flwyddyn flaenorol.

Cyhoeddasom ein seithfed ymateb ym mis Gorffennaf 2017. Cyn hyn, gwnaethom gynnal ymchwil cynulleidfa i ganfod a yw gwylwyr yn teimlo bod Channel 4 yn cyflawni ei gylch gwaith. Buom hefyd yn edrych yn fanwl ar gynaliadwyedd ariannol Channel 4, i ganfod gallu'r cwmni i barhau i gyflawni ei gylch gwaith.

Yn gyffredinol, gwnaethom ganfod fod Channel 4 wedi perfformio'n gryf yn ystod 2016, yn arbennig o ran amrywiaeth, defnydd ar-lein, newyddion a rhaglenni materion cyfoes. Gwnaethom ganfod hefyd, ar sail tueddiadau tebygol mewn gwylio, gwario a hysbysebu ar deledu, y gallai Channel 4 barhau'n gynaliadwy'n ariannol ar ei ffurf bresennol gydol cyfnod ei drwydded, er ein bod yn cydnabod ei fod yn wynebu rhai risgiau.

Lleisiwyd ychydig o bryderon gennym am y gostyngiad ym muddsoddiad Channel 4 mewn cynnwys addysgol ar gyfer pobl ifanc 14- 9 oed, a gofyn hefyd i'r sianel ystyried sut y gallai gynrychioli cymunedau a diwylliannau gwahanol yn well yn ei raglenni. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y cwmni.

Gan y DU y mae'r diwydiannau teledu a radio mwyaf arloesol, creadigol ac egnïol yn y byd, ac mae gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ran fawr yn y llwyddiant hwnnw. Dylai ein gwaith helpu i sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd ac yn cynnal safonau o ran darlledu a chynnwys.




Gan y DU y mae'r diwydiannau teledu a radio mwyaf arloesol, creadigol ac egnïol yn y byd, ac mae gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ran fawr i'w chwarae yn y llwyddiant hwnnw

## Ein hamcan

**Sicrhau bod darlledu yn cynrychioli ac yn portreadu cymdeithas y DU yn gywir**

Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl bod rhaglenni'n adlewyrchu bywyd modern ar draws holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Ond, mae ymchwil Ofcom wedi canfod bod llawer o bobl yn teimlo nad yw darlledwyr yn gwneud rhaglenni sy'n portreadu eu bywydau a'u cymunedau go iawn mewn ffordd ddilys.

Mae diwydiannau creadigol y DU eisoes yn arwain y byd o ran dychymyg ac arloesedd. Ond gellir gwneud mwy i ehangu cwmpas a dyfnder pobl dalentog sy'n gweithio ar yr awyr ac oddi arno.

Mae gennym ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal i ddynion a menywod, pobl o gefndiroedd ethnig gwahanol, a phobl anabl sy'n cael eu cyflogi gan ddarlledwyr teledu a radio.

## Beth rydym wedi'i wneud

Lansiodd Ofcom raglen Amrywiaeth ym maes Darlledu o bwys i helpu i wella amrywiaeth yn y diwydiant.

Ym mis Medi 2017, cyhoeddasom ein hadroddiad *Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal yn y Diwydiant Teledu*', a oedd yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r ffordd y mae darlledwyr teledu yn perfformio ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r canfyddiadau'n taflu goleuni ar raddfa a natur yr her amrywiaeth, gan ddatgelu pa grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar draws darlledwyr teledu mawr.

Gwnaethom edrych ar weithwyr ar draws rolau gwahanol, y camau sy'n cael eu cymryd i hyrwyddo cyfle cyfartal a rhai o'r strategaethau sydd wedi cael eu hanelu at wella amrywiaeth.

Gwnaethom ddatblygu canllawiau newydd ar sail canfyddiadau'r adroddiad i helpu darlledwyr i hyrwyddo cyfle cyfartal yn eu sefydliadau. Mae adroddiad yn annog darlledwyr yn frwd i fonitro holl nodweddion eu gweithwyr, oherwydd ni all amrywiaeth wella heb iddo gael ei fesur yn effeithiol.

Adolygodd Ofcom drefniadau cyfle cyfartal bob darlledwr a rhoi asesiad cyffredinol a chanllawiau iddynt am yr hyn yr oedd ei angen i wella'u trefniadau. Nodwyd yn glir gennym y byddwn yn adolygu trefniadau'r darlledwyr yn flynyddol ac yn eu hasesu gan ddefnyddio'n canllawiau newydd.

Cyn yr ail adroddiad teledu, sydd i'w gyhoeddi yn 2018, rydym wedi bod yn cysylltu â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i gael adborth, i rannu arferion gorau ac i drafod mesurau darlledwyr i hyrwyddo cyfle cyfartal ymysg eu gweithwyr. Rydym wedi trafod amrywiaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac agweddau pwysig eraill ar amrywiaeth fel symudedd cymdeithasol a chefndiroedd addysgol a daearyddol.

Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar ein hadroddiad *Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal yn y Diwydiant Radio*' gan gysylltu â rhanddeiliaid y byd radio. Bydd yr adroddiad hwn yn dangos yn glir i ni sut mae diwydiant radio'r DU yn perfformio ar amrywiaeth yn gyffredinol, a sut mae'n hyrwyddo cynhwysiant ymysg ei weithlu.

Mae Ofcom yn awyddus i gael rôl arweiniol yn helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal yn y diwydiant cyfryngau. Rydym am weld y talent gorau a disgleiriaf yn cael gyrfaoedd llwyddiannus yn ein sector creadigol, ni waeth beth yw eu cefndir.

Mae gan ddarlledu allu unigryw i siapio ac adlewyrchu cymdeithas a gwerthoedd y DU. Drwy gyhoeddi ein hadroddiad monitro blynyddol, rydym yn annog darlledwyr i asesu ac i wella'u trefniadau cyfle cyfartal yn rheolaidd.

A thrwy wella'u hamrywiaeth, gall darlledwyr ddarparu cynnwys o'r radd flaenaf a fydd yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y DU yn well.

## Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol ar ran defnyddwyr

Mae Ofcom am weld pobl a busnesau'n elwa o amrywiaeth o wasanaethau a chynnyrch cyfathrebu.

Rydym hefyd am weld y farchnad cyfathrebiadau'n cynnig prisiau teg, ansawdd uchel, buddsoddiad iach ac arloesedd.

Anelwn at gyflawni hyn drwy sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol, gan ddefnyddio rheoleiddio lle bo hynny'n ofynnol, fel bo defnyddwyr yn elwa o gystadleuaeth gref.

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/106446/amrywiaeth-chyfle-cyfartal-mewn-teledu.pdf

## Ein hamcan

**Galluogi cwmnïau sy'n cystadlu â'i gilydd i fuddsoddi mewn rhwydweithiau llinell sefydlog cyflym iawn a gwibgyswllt**

Mae cartrefi a busnesau angen mwy o gapasiti band eang bob blwyddyn. Gwelwyd traean o gynnydd ym maint y data a oedd yn llifo dros rwydweithiau'r DU y llynedd. Mae rhai amcangyfrifon yn awgrymu y gallai fod bum deg gwaith yn fwy mewn deg mlynedd.

Rhaid i seilwaith ffisegol y DU esblygu i helpu i ateb y galw hwn, i osgoi 'gwasgfa capasiti', a allai danseilio safle'r DU fel economi ddigidol sy'n arwain y byd.

Mae Ofcom yn dymuno gweld rhwydweithiau ffeibr sy'n cystadlu â'i gilydd ar gael yn eang, ac yn cynnig cyflymder lawrlwytho sylfaenol o 300 Mbit yr eiliad. Ond, ar hyn o bryd, mae darpariaeth ffeibr llawn yn y DU ar ei hôl hi'n arw o'i gymharu â gwledydd eraill.

Mae galluogi cystadleuaeth yn ganolog i'n hymdrechion i ysgogi buddsoddiad yn sector telegyfathrebiadau'r DU. Bydd pwysau cystadleuol yn gwthio BT i uwchraddio ei rwydwaith, neu weld cwmnïau sy'n cystadlu ag ef yn cael mantais.

Ein nod yw creu'r amgylchedd rheoleiddio gorau posibl i annog arloesedd a chystadleuaeth, gan alluogi cystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid band eang cyflym iawn heddiw, a band eang gwibgyswllt yn y dyfodol

## Beth rydym wedi'i wneud

Mae'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol (WLA) yn cyfeirio at y cysylltiadau o'r gyfnewidfa ffôn leol i gartref neu fusnes, sy'n cael eu defnyddio i ddarparu band eang a gwasanaethau eraill ar lefel adwerthol.

Gwnaethom adolygu'r farchnad hon, er mwyn ceisio hyrwyddo cystadleuaeth a rhoi hwb i fuddsoddi. Fel rhan o'n hadolygiad, gwnaethom benderfynu y dylai fod yn ofynnol i BT ganiatáu i'w bolion telegraff a phibellau tanddaearol gael eu defnyddio gan gwmnïau sy'n cystadlu sy'n dymuno gosod eu rhwydweithiau ffeibr llawn, gwibgyswllt eu hunain. Enw'r broses hon yw 'mynediad i bolion a phibellau' (DPA).

Bydd hyn yn ei gwneud yn gyflymach, yn haws ac yn rhatach i'r rheini sy'n cystadlu â BT adeiladu eu rhwydweithiau ffeibr llawn eu hunain. Rydym yn amcangyfrif y gallai defnyddio'r polion a phibellau presennol haneru cost gosod rhwydweithiau ffeibr.

Mae proses debyg wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus mewn gwledydd eraill i sbarduno buddsoddiad mewn ffeibr llawn. Yn Sbaen a Phortiwgal, er enghraifft, mae fersiwn o fynediad i bolion a phibellau wedi helpu i ddarparu band eang ffeibr llawn i 79% o adeiladau yn Sbaen a 70% ym Mhortiwgal.

O dan ein gofynion DPA ni, rhaid i Openreach sicrhau bod ei rwydwaith o bibellau a pholion yn barod i'w ddefnyddio. Bydd yn rhaid iddo drwsio seilwaith diffygiol a chlirio pibellau sydd wedi'u rhwystro ar gais, a hynny cyn pen amserlen y cytunir arni gyda'i gwsmeriaid cyfanwerthol. Rhaid i Openreach hefyd ddarparu data cynhwysfawr ar ei rwydwaith o bolion a phibellau, er mwyn i gystadleuwyr allu cynllunio safleoedd eu rhwydweithiau.

Rydym hefyd wedi sicrhau tegwch i bawb drwy sicrhau bod darparwyr yn gallu gosod ffeibr ym mhibellau BT yr un mor hawdd ac ar yr un gost â BT ei hun. Mae hyn yn golygu y bydd BT yn adennill costau cysylltiedig, fel trwsio pibellau, yn yr un ffordd ag y mae'n adennill y costau hyn ar gyfer ei ddefnydd ei hun – drwy eu rhannu rhwng yr holl wasanaethau sy'n defnyddio'r bibell.

I helpu i wella'r economeg a chryfhau'r achos busnes i ddarparwyr fuddsoddi mewn rhwydweithiau gwibgyswllt gan ddefnyddio DPA, penderfynasom ganiatáu i gwmnïau mewn rhai amgylchiadau ddefnyddio seilwaith BT i ddarparu 'llinellau ar brydles'. Llinellau cyflymder uchel pwrpasol yw'r rhain a ddefnyddir gan fusnesau mawr.

Rhoesom derfyn hefyd ar y taliadau rhent y gall Openreach eu codi i gael mynediad i'w rwydwaith o bolion a phibellau.

Rydym yn sylweddoli y bydd darparwyr sy'n cystadlu yn buddsoddi yn y gwaith o adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain dim ond os yw hyn yn fwy deniadol na phrynu gwasanaethau cyfanwerthol gan BT.



> Gwelwyd traean o gynnydd ym maint y data a oedd yn llifo dros rwydweithiau'r DU y llynedd

Mae hefyd angen sicrwydd ar y cwmnïau hyn y byddant yn gyfnewid am fuddsoddi mewn ffeibr llawn yn gallu adfer rhai o'r costau drwy brisiau eu rhwydwaith yn y dyfodol.

Bwriad ein gwaith rheoleiddio fydd sicrhau cydbwysedd rhwng hyrwyddo cystadleuaeth ac ysgogi buddsoddiad.

I hyrwyddo cystadleuaeth a gwarchod rhag prisiau uchel, gwnaethom dorri'r pris cyfanwerthol ar gyfer cynnyrch band eang cyflym iawn mwyaf poblogaidd Openreach a oedd yn darparu 40 Mbit yr eiliad. Mae hyn yn golygu y gall cwmnïau gynnig gwasanaeth cyflym iawn fforddiadwy am bris cystadleuol, ac y gallwn ni helpu i ddiogelu cwsmeriaid band eang rhag cynnydd mewn prisiau yn y tymor agos.

I ddiogelu'r cymhellion i gwmnïau fuddsoddi, rydym yn gadael i Openreach osod prisiau ar gyfer ei gynnyrch band eang cyflym iawn cyfanwerthol cyflymaf. Y nod yw helpu i roi hwb i fuddsoddi mewn rhwydweithiau sy'n cystadlu a fydd yn darparu dyfodol ffeibr i'r DU yn y tymor hir.

Gyda'r adolygiad o'r WLA, mae rheoleiddio Ofcom wedi datblygu i roi sylw i flaenoriaethau band eang newydd y DU. Mae ein polisïau'n canolbwyntio ar hyrwyddo buddsoddiad mewn llinellau ffeibr llawn a all gynnal gwasanaethau digidol y dyfodol a bod o fudd i'r economi ehangach.

Cystadleuaeth yw'r ysgogydd pwysicaf o hyd y tu ôl i'n gwaith rheoleiddio. Dyma sut yr oedd pethau dros ddegawd yn ôl, pan arweiniodd y broses o agor cyfnewidfeydd BT i ddarparwyr sy'n cystadlu â'i gilydd at gystadleuaeth adwerthol gryf, prisiau adwerthol is a chyflymderau band eang cyflymach.

Cystadleuaeth rhwng rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd yw'r ffordd orau o sbarduno arloesedd a buddsoddiad mewn ffeibr llawn, gan gynnwys gan BT, a fydd yn arwain at wasanaethau o ansawdd gwell a gwerth gwell i ddefnyddwyr. Rydym wedi gweld mewn sawl gwlad arall fod buddsoddi mewn ffeibr llawn yn mynd law yn llaw â chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau.

Ers i ni gynnig mesurau i hyrwyddo buddsoddiad mewn ffeibr llawn, mae momentwm cryf wedi datblygu y tu ôl i'r dechnoleg, gyda nifer o gwmnïau band eang yn cyhoeddi cynlluniau i fuddsoddi.

Mae BT yn bwriadu cysylltu hyd at dair miliwn o adeiladau i rwydweithiau ffeibr llawn erbyn 2020. Mae'r cwmni hefyd wedi amlinellu uchelgais yn y tymor hwy i gyrraedd deg miliwn o gartrefi erbyn canol yr 2020au. Ond rydym eisiau i BT wneud ymrwymiad mwy cadarn a gwneud yr uchelgais hwnnw yn realiti.

Mae Virgin Media yn bwriadu ymestyn ei rwydwaith ffeibr a chebl gwibgyswllt i gyrraedd pedair miliwn yn rhagor o adeiladau. Cyhoeddodd CityFibre a Vodafone bartneriaeth a fydd yn cyflwyno band eang ffeibr llawn i filiwn o gartrefi erbyn 2020, ynghyd â'r potensial i gyrraedd pum miliwn o erbyn 2025. Mae darparwyr eraill fel Gigaclear, Hyperoptic a KCOM hefyd yn cymryd mwy o ran.

Mae Hyperoptic yn bwriadu cysylltu pum miliwn o adeiladau i ffeibr llawn erbyn 2025.



Mae Gigaclear yn gobeithio cyrraedd 150,000 o adeiladau gwledig erbyn 2020, ac mae KCOM yn bwriadu darparu'r gwasanaeth i 200,000 o adeiladau yn ardal Hull erbyn mis Mawrth 2019.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd TalkTalk gynlluniau i greu menter ar y cyd gyda'r nod o fuddsoddi £1.5bn i gysylltu hyd at dair miliwn o gartrefi yn y DU i rwydwaith ffeibr llawn newydd.

Os bydd y cwmnïau'n cadw at eu hymrwymiadau, gallai band eang ffeibr llawn gyrraedd hyd at chwe miliwn o adeiladau, neu 20% o'r wlad, erbyn 2020. Byddai hyn yn gynnydd mawr ar y 4% presennol, ond bydd y DU yn dal yn llusgo y tu ôl i wledydd eraill. Mae mwy i'w wneud i helpu i gyflawni ein strategaeth hirdymor.

Rydym am weld cwmnïau band eang yn gwneud mwy i adeiladu ar gyfer y dyfodol er mwyn i'r DU ddod yn un o brif economïau digidol y byd.

Ar wahân, yn dilyn dyfarniad gan y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ar ein Hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes yn 2016 (2016 BCMR), ym mis Tachwedd 2017 gwnaethom ddiddymu rheoliadau ar rai gwasanaethau busnes ac, ar yr un pryd, osod rheoliadau dros dro ar wasanaethau llinellau prydles BT ar ac o dan 1Gbit yr eiliad mewn rhai marchnadoedd daearyddol ar draws y DU.

Mae'r Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes yn ystyried y cysylltiadau data cyflymder-uchel (llinellau ar brydles) pwrpasol a ddefnyddir gan fusnesau mawr a chwmnïau band eang symudol i drosglwyddo data ar eu rhwydweithiau. Bydd ein mesurau'n diogelu cystadleuaeth ac yn gwarchod buddiannau defnyddwyr nes bydd adolygiad arall o'r farchnad wedi cael ei gwblhau.

Ar yr un pryd, gwnaethom ymgynghori ar gynigion i gyflwyno ateb 'ffeibr tywyll' cyfyngedig, proses lle mae BT yn agor ei rwydwaith ffeibr optig i gwsmeriaid cyfanwerthol ar gyfer gwasanaethau llinellau ar brydles ar 1Gbit yr eiliad ac is. Mewn ymateb i hyn, esboniodd y cwmnïau sydd fwyaf tebygol o brynu ffeibr tywyll y byddai gwasanaeth â lled band uwch yn fwy defnyddiol iddynt o lawer. Felly, penderfynasom beidio â chyflwyno'r ateb hwn ac, yn hytrach, ystyried y posibilrwydd o gael ateb ffeibr tywyll fel rhan o'n hadolygiad pellach o'r farchnad.

## Post

**Fel rheoleiddiwr y gwasanaeth post, mae Ofcom yn sicrhau bod y Post Brenhinol yn darparu gwasanaeth post cyffredinol yn y DU.**

Mae hyn yn cynnwys gofyniad i ddosbarthu a chasglu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos (pum niwrnod yr wythnos yng nghyswllt parseli) am bris fforddiadwy ac unffurf i bob cyfeiriad yn y DU. Mae miliynau o bobl a busnesau ledled gwledydd y DU, ac mewn ardaloedd gwledig, yn dibynnu ar y gwasanaeth.

Fel rhan o'n gwaith i sicrhau bod defnyddwyr yn elwa o wasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol ac yn fforddiadwy i ddefnyddwyr, rydym wedi gweithio mewn nifer o feysydd fel sydd wedi cael ei nodi yn ein Cynllun Blynyddol blaenorol.

Rydym yn cynnig cyngor i'r Llywodraeth ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol, ac ar wasanaethau dosbarthu parseli ar draws ffiniau yn yr Undeb Ewropeaidd, ac rydym wedi parhau â'n gwaith i ddeall yn well achosion ac effeithiau codi tâl ychwanegol am barseli yng Ngogledd Iwerddon ac Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban.

Roedd ein gwaith yn monitro'r farchnad post yn dangos bod 11.7 biliwn o lythyrau a chyfeiriad arnynt wedi cael eu dosbarthu y llynedd, i lawr 5% ar y flwyddyn flaenorol. Cafodd 2.1 biliwn o barseli eu dosbarthu, i fyny 7% dros y 12 mis. Canfu ein hymchwil hefyd fod y rhan fwyaf o gwsmeriaid preswyl yn fodlon â'r gwasanaethau post yn gyffredinol (86%), ac â gwerth am arian (75%). Roedd mwyafrif y busnesau bach hefyd yn fodlon.

Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017/18, nodwyd y byddem yn adolygu a yw'r gwaith o reoleiddio ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol yn dal yn briodol yn wyneb datblygiadau yn y farchnad. Rydym wedi asesu'r fframwaith ansawdd gwasanaeth presennol, ac wedi penderfynu na fyddai'n briodol gwneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

Rydym wedi diwygio'r gofynion rheoleiddio ar y Post Brenhinol o ran adroddiadau ariannol, ac rydym wedi bod yn datblygu model costio, i'n helpu i ddeall costau danfon y Post Brenhinol. Rydym hefyd wedi adolygu'r dull o adennill costau rheoleiddio a'r cyrff eiriolaeth defnyddwyr yng nghyswllt gwasanaethau post.

Rydym yn parhau â'n hymchwiliad i gŵyn gan Whistl UK ynghylch y prisiau a'r telerau ac amodau a gynigiwyd gan y Post Brenhinol ar gyfer rhoi mynediad at wasanaethau dosbarthu llythyrau penodol.



## Ein hamcan

**Hyrwyddo cystadleuaeth mewn gwasanaethau llinell sefydlog, drwy gryfhau annibyniaeth strategol a gweithredol Openreach ar BT**

Roedd Adolygiad Strategol Ofcom o Gyfathrebiadau Digidol, a gwblhawyd yn 2017, yn disgrifio ein strategaeth i ddarparu gwasanaethau band eang dibynadwy ledled y DU. Mae hyrwyddo ac ymyriadau rheoleiddio effeithiol yn ganolog i'r ymdrechion i ysgogi buddsoddiad, i wella ansawdd, i ddarparu rhagor o ddewis ac i ddarparu prisiau is i bobl a busnesau.

Mae Openreach yn rhan o'r BT Group sy'n datblygu ac yn cynnal prif rwydwaith telegyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig. Mae'n cael ei ddefnyddio gan BT Consumer a'i gystadleuwyr uniongyrchol, fel Sky, TalkTalk a Vodafone, i ddarparu gwasanaethau ffôn a band eang i'w cwsmeriaid.

Bydd cystadleuaeth rhwng rhwydwaith Openreach a rhwydweithiau ffeibr llawn cystadleuwyr, sydd yn yr arfaeth gan gwmnïau eraill, yn cymryd amser. Yn y cyfamser, o gofio'i safle yn y farchnad, bydd y gwaith o reoleiddio Openreach yn parhau i chwarae rhan ganolog yn sicrhau gwelliannau ar draws y sector.

Roedd yn bryderus bod safle Openreach o fewn BT Group yn golygu bod penderfyniadau buddsoddi strategol newydd yn cael eu cymryd ar lefel BT Group, er budd y cwmni hwnnw – yn hytrach na budd defnyddwyr sy'n cystadlu a chwsmeriaid yn ehangach.

Felly, gwnaethom gynnig diwygio perthynas Openreach â BT yn llwyr, gan gryfhau ei annibyniaeth drwy ei wneud yn gwmni annibynnol ac ar wahân gyda'i fwrdd a'i strategaeth ei hun.

## Beth rydym wedi'i wneud

Ym mis Mawrth 2017, bodlonodd BT ein gofynion ar gyfer isgwmni Openreach newydd a fydd ar wahân yn gyfreithiol. Mae Openreach erbyn hyn yn gwmni ar wahân, gyda'i reolwyr ei hun, ynghyd â'i strategaeth ei hun a phwrpas cyfreithiol i wasanaethu ei holl gwsmeriaid fel ei gilydd.

Ni yw BT hyd yma wedi gweithredu ei ymrwymiadau yn llawn i ddiwygio Openreach. Mae llawer o'r newidiadau i'r drefn lywodraethu wedi cael eu rhoi ar waith yn barod gan BT ac Openreach, ond nid yw'r model newydd wedi'i weithredu'n llawn. Yn benodol, nid yw rhan fwyaf y staff wedi cael eu trosglwyddo eto o BT i Openreach, oherwydd cymhlethdodau'r cynllun pensiwn.

Gwahanu Openreach yn gyfreithiol yw'r gwaith diwygio mwyaf yn hanes y cwmni, un a fydd yn darparu sylfaen ar gyfer rhagor o welliannau yn y farchnad.

Drwy reoli ei rwydwaith yn annibynnol, bydd Openreach yn helpu i ddarparu eglurder a hyder i gwmnïau eraill, buddsoddwyr a'r sector ehangach. Rydym yn disgwyl i'r Openreach newydd ymateb yn adeiladol i fodelau buddsoddi gwahanol a fydd yn cael eu cynnig gan ei gwsmeriaid, gan gynnwys buddsoddi ar y cyd a rhannu risg.

Rydym yn sylweddoli y gall buddsoddiadau mawr mewn seilwaith – a'r manteision sy'n dod yn sgil hynny, fel mwy o gystadleuaeth, ansawdd gwasanaeth gwell a phrisiau is – gymryd gryn dipyn o amser i'w gwireddu.

Yn y cyfamser, byddwn yn craffu ar agweddau ar y strwythur newydd, fel gwelliannau i waith Openreach yn ymgysylltu ac ymgynghori â chwsmeriaid, fel arwyddion o lwyddiant yn y tymor hwy.

Rydym eisoes wedi dechrau mesur effeithiau newidiadau Openreach, gan geisio canfod a yw'r bobl a'r busnesau sy'n defnyddio rhwydwaith Openreach yn cael gwasanaeth a chyflymderau da. Byddwn yn mesur ac yn cyflwyno adroddiad ar gyfraniad Openreach at y rhwydweithiau band eang ffeibr cynyddol, gan gynnwys llinellau ffeibr llawn sydd ar gael ar hyn o bryd i ddim ond 4% o adeiladau'r DU.

Rydym wedi sefydlu Uned Fonitro benodol ar gyfer Openreach yn Ofcom i ddadansoddi a yw'r trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae'r uned hon yn asesu a yw'r rheolau newydd yn cael eu dilyn, ac a yw Openreach yn gweithredu'n fwy annibynnol ar BT, yn gwneud ei benderfyniadau ei hun, ac yn trin ei holl gwsmeriaid yn deg. Bydd yn ystyried a yw BT ac Openreach yn dilyn yr ymrwymiadau i'r llythyren ac mewn ysbryd, ac yn creu diwylliant sy'n hyrwyddo annibyniaeth Openreach.

Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau o fewn chwe mis i'r adeg y daw'r ymrwymiadau i rym, a phob blwyddyn wedi hynny. Bydd hyn yn cynnwys gwaith BT yn cyflawni'i drefniadau yng Ngogledd Iwerddon, lle nad yw Openreach yn gweithredu, a lle bydd rheolau newydd yn rheoli'r berthynas rhwng Rhwydweithiau Gogledd Iwerddon a BT Group.

Rydym wedi gweld camau calonogol yn cael eu cymryd gan Openreach i weithredu er budd ei gwsmeriaid, gan gynnwys ymgynghoriad ar draws y diwydiant ar sut i wneud band eang ffeibr llawn yn ymarferol ar raddfa fawr.

Ond, yn y tymor hwy, oni fydd ein gwaith yn diwygio adran rhwydwaith BT yn arwain at y canlyniadau a ddymunir, byddwn yn ailystyried yr angen i wahanu'r cwmnïau'n llwyr.



## Ein hamcan

**Sicrhau bod gwybodaeth well a manylach ar gael i bobl ac i fusnesau a gwella eu gallu i ymgysylltu â'r farchnad**

Er mwyn i gystadleuaeth fod yn llwyddiannus, mae angen i bobl a busnesau allu manteisio ar y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Mae hyn cynnwys gallu newid gwasanaethau a darparwyr a chael yr wybodaeth y maent ei hangen i wneud dewisiadau effeithiol.

Rhaid i'r broses o newid darparwr fod mor hawdd â phosibl, ac mae angen i gwsmeriaid fod yn hyderus y bydd y broses yn hwylus.

Bod blwyddyn rydym yn cyhoeddi ymchwil amrywiol i helpu defnyddwyr i gymharu darparwyr a gwneud dewisiadau gwybodus. Mae hyn yn cynnwys argaeledd, cyflymder, ansawdd a phrisiau gwasanaethau cyfathrebu. Rydym hefyd yn gweithio gyda thrydydd partïon i wneud yn siŵr bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth ofynnol. Mae hyn yn cynnwys achredu gwasanaethau cymharu prisiau a gweithio gyda chynrychiolwyr defnyddwyr fel Which? a Cyngor ar Bopeth, a thrwy'r cyfryngau.

## Beth rydym wedi'i wneud

Trwy gydol y flwyddyn gwnaethom barhau â'n rhaglen ymchwil reolaidd i helpu siopwyr pan maent yn ystyried darparwr neu wasanaeth cyfathrebu newydd.

Mae ein data chwe misol, sy'n cymharu cyflymder band eang llinell sefydlog preswyl yn y DU, yn nodi'r cyflymderau gwirioneddol a ddarperir i ddefnyddwyr ar gyfartaledd Mae'n cymharu gwahaniaethau rhwng cyflymderau, a mesurau perfformiad eraill, ar draws darparwyr a thechnolegau. Rydym hefyd yn monitro ac yn cyhoeddi data blynyddol ar dueddiadau prisio, a sut mae newidiadau mewn tariffau a chontractau'n effeithio ar ddefnyddwyr gwahanol.

Am y tro cyntaf eleni, gwnaethom gyhoeddi adroddiad blynyddol newydd ar ansawdd y gwasanaeth (gweler tudalen 14) a oedd yn cymharu nifer o fesurau ar draws darparwyr mewn un cyhoeddiad hawdd pori trwyddo. Hefyd, rydym yn parhau i gyhoeddi data cwynion am y maes telegyfathrebu bob chwarter.

Drwy ein hymchwil a'n gwybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a'u hansawdd, rydym yn rhoi data perfformiad annibynnol y gellir ei gymharu i gwsmeriaid ar draws darparwyr. Mae hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus ac yn ysgogi darparwyr i wella'u perfformiad.

Mae ein data cwynion a'n hymchwil i ansawdd gwasanaethau yn awgrymu gwelliant parhaus ym mherfformiad darparwyr cyfathrebiadau at ei gilydd. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant parhaus dros amser.

Yn rhy aml, mae bwlch rhwng y cyflymder band eang y mae cwsmer yn meddwl y bydd yn ei dderbyn a'r hyn y bydd yn ei gael go iawn. I helpu gyda hyn, rhoesom ofynion llymach ar ddarparwyr rhyngrwyd i ddarparu gwybodaeth fwy realistig am y cyflymder adeg prynu'r gwasanaeth, gan gynnwys gwarantu cyflymder sylfaenol.

Mae ein cod ymarfer ar gyflymderau band eang sydd wedi'i ddiweddaru yn rhoi mwy o bŵer i bobl ddal darparwyr band eang i gyfrif am lefelau gwasanaeth gwael. Erbyn hyn, mae'n rhaid i ddarparwyr adael i gwsmeriaid symud yn ddi-gosb os na fyddant yn darparu'r cyflymder sylfaenol a warantwyd. Mae nifer y cwsmeriaid sy'n gallu arfer eu hawl i adael contract wedi cynyddu hefyd; mae'r hawl hwnnw bellach yn ymestyn i'r rheini sydd â gwasanaethau ffôn a theledu drwy dalu sydd wedi'u prynu gyda band eang, ac i gwsmeriaid yr holl dechnolegau band eang.

Mae'r gwasanaethau symudol sydd ar gael, a'u hansawdd, yn fwyfwy pwysig i fywydau gwaith a phersonol pobl. Gwnaethom gyhoeddi ymchwil yn dadansoddi profiad defnyddwyr o ffonau symudol, gan gynnwys cymariaethau rhwng cwmnïau.

Cafodd y data ei gasglu gan ddefnyddio ap ymchwil symudol Ofcom, a gyflwynwyd am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2016. Mae nifer y defnyddwyr sy'n cyfrannu'n parhau i godi, ac mae'n ein helpu i lunio meincnod cynhwysfawr ac annibynnol ar gyfer ffactorau fel y defnydd o'r ap, dibynadwyedd galwadau llais, cryfder signal, lleoliad a chyflymderau data.

Mae gan wefannau cymharu prisiau rôl bwysig yn helpu defnyddwyr i ganfod y bargeinion sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion hwy. I roi hyder i bobl yn y gwasanaethau hyn, rydym yn archwilio'r gwefannau cymharu prisiau yn rheolaidd fel rhan o gynllun achredu. Ym mis Ionawr 2018, cafodd wythfed gwefan cymharu prisiau ei hachredu gennym, Broadbanddeals.co.uk. Rhoesom gefnogaeth i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd hefyd yn ei astudiaeth yn y farchnad o offer cymharu digidol, a ddaeth i ben ym mis Medi 2017.

Dim ond rhan o'r dasg yw darparu mwy o wybodaeth a gwybodaeth well. Dylai defnyddwyr allu gweithredu ar yr wybodaeth honno drwy newid darparwyr er mwyn iddynt allu manteisio ar wasanaethau a thariffau sy'n fwyaf addas i'w hanghenion hwy.

Mae ein hymchwil yn dangos bod oddeutu dau ymhob pump cwsmer sy'n newid darparwr symudol (38%) – 2.5 miliwn o bobl – wedi wynebu o leiaf un broblem fawr yn ystod y broses, tra oedd tua 70% wedi cael rhywfaint o leiaf o drafferth.

Mae newid darparwr yn tueddu i fod yn llawer mwy anodd pan mae defnyddwyr yn gorfod cysylltu â'u darparwr presennol fel rhan o'r broses.

Ym mis Rhagfyr 2017, gwnaethom gyhoeddi rheolau newydd sy'n golygu bod cwsmeriaid yn gallu newid darparwyr symudol heb orfod siarad â'u darparwr presennol, a hynny dim ond drwy anfon neges destun sy'n rhad ac am ddim.

Cyhoeddwyd cynllun gennym hefyd i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid gael bargeinion gwell, ac i helpu i chwalu'r rhwystrau y gallent eu hwynebu. Gwnaethom lansio'r gwaith hwn drwy ofyn am farn y cyhoedd, grwpiau defnyddwyr a chwmnïau am y rhwystrau hyn, a chynnal ymchwil defnyddwyr hefyd. Bwriadwn ymgynghori ym mis Gorffennaf ar gynigion ar gyfer hysbysiadau diwedd contract, er mwyn i ddarparwyr fynd ati'n rhagweithiol i roi gwybod i gwsmeriaid pan fydd cyfnod sylfaenol eu contract ar fin dod i ben, neu wedi dod i ben.

Dylai ein gwaith ar newid darparwr a hybu ymgysylltiad defnyddwyr â'r farchnad wella hyder y cyhoedd pan maent yn ystyried newid darparwyr, drwy wneud y broses yn syml, yn gyflym ac yn ddidrafferth.

Daw rheolau newydd Ofcom ar newid darparwr gwasanaethau symudol i rym yn ystod haf 2019. Maent yn cynnwys gwahardd darparwyr rhag codi tâl am gyfnodau rhybudd sy'n rhedeg ar ôl y dyddiad newid. Bydd hyn yn rhoi terfyn ar yr arfer o bobl yn gorfod talu am wasanaethau hen a newydd ar yr un pryd – gan arbed cyfanswm o tua £10 miliwn y flwyddyn i gwsmeriaid symudol y DU.

Mae grymuso pobl i wneud dewisiadau gwell yn flaenoriaeth i Ofcom. Byddwn yn parhau i fonitro'r farchnad, gan gamu i mewn os gwelwn gyfleoedd i wella ymgysylltiad defnyddwyr, i wella'r prosesau newid neu i ddarparu gwybodaeth well.

## Ein hamcan

**Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol er mwyn darparu ystod eang o gynnwys amrywiol ac o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd darlledu**

Mae cystadleuaeth iach o fudd i wylwyr a gwrandawyr. Gall wella'r dewis o raglenni sydd ar gael, ysgogi buddsoddiad yn y sector, ac annog darlledwyr i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wasanaethu eu cynulleidfaoedd.

Fel rheoleiddiwr y BBC, mae Ofcom yn cynnal safonau a pherfformiad y darlledwr cenedlaethol. Ond hefyd, os bydd y BBC yn gwneud newidiadau i'w wasanaethau, mae gennym swyddogaeth i sicrhau y gellir cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol drwy'r gwerth i'r cyhoedd a ddarperir gan y newid.

## Beth rydym wedi'i wneud

Gall pryderon ynghylch cystadleuaeth godi os ystyrir bod gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn gwthio cystadleuaeth i ffwrdd neu'n atal cwmnïau eraill rhag buddsoddi neu arloesi. Heb ddiogelwch priodol, mae perygl hefyd y gellid defnyddio arian cyhoeddus y BBC fel cymhorthdal neu fantais ar gyfer is-gwmnïau masnachol, er enghraifft drwy gynnig gwasanaethau ar delerau ffafriol.

Rhaid i ni roi mesurau ar waith i sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â darpariaethau ei Siarter a'i Gytundeb o ran cystadleuaeth. Ar ôl ymgynghori, gwnaethom amlinellu ym mis Mehefin 2017 sut y bwriadwn orfodi ein gofynion cystadleuaeth ar y BBC. Esboniwyd gennym sut y byddem yn disgwyl ymdrin â chwynion, cynnal ymchwiliadau a gosod sancsiynau petai raid.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith ar is-gwmnïau masnachol y BBC a'u perthynas â rhan 'gwasanaeth cyhoeddus' y BBC. Dan y Siarter a'r Cytundeb, mae gan 'wasanaeth cyhoeddus' y BBC hawl i wneud rhywfaint o fasnachu masnachol penodol sy'n ategu ei waith gwasanaeth-cyhoeddus craidd. Ym mis Gorffennaf 2017, gwnaethom sefydlu gofynion a chanllawiau ar sut y mae'r BBC yn cynnal y gweithgareddau hyn.

Gwnaethom hefyd edrych ar gynlluniau'r BBC i uno dau o'i is-gwmnïau masnachol: BBC Studios a BBC Worldwide, ac ym mis Mawrth 2018, rhoddodd y BBC ymrwymiadau gwirfoddol i ni mewn perthynas â'r uno.

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd y BBC ei gynigion terfynol ar gyfer sianel deledu newydd yn yr Alban a fydd yn dechrau darlledu yn ystod hydref 2018. Gwnaethom ofyn am sylwadau ar y cynigion a chynnal cyfarfodydd a gweithdai gyda rhanddeiliaid yn yr Alban. Ym mis Ionawr 2018, cyflwynwyd llythyr gennym i'r BBC yn cadarnhau y byddem yn cynnal asesiad cystadleuaeth mewn perthynas â gwasanaeth arfaethedig BBC Scotland. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi cynnal gwaith ymchwil ymysg gwylwyr yn yr Alban ac wedi gofyn barn partïon y gallai cynlluniau'r BBC effeithio arnynt.

Rydym yn dymuno gweld cynulleidfaoedd yn yr Alban yn cael gwasanaeth da gan y BBC. Gwaith Ofcom yw ystyried a fyddai'r gwerth cyhoeddus sy'n cael ei gynnig gan sianel newydd y BBC yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Gwnaethom ymgynghori ar ein canfyddiadau dros dro ar gyfer BBC Scotland ym mis Ebrill 2018, a gobeithiwn gyhoeddi penderfyniad terfynol erbyn mis Gorffennaf 2018.

Yn y flwyddyn sydd ar ddod, byddwn yn ymgynghori ar ddiweddariadau i'n gofynion a'n canllawiau ynghylch gweithgareddau masnachol y BBC. Byddwn hefyd yn casglu tystiolaeth am weithgareddau BBC Studios, a bwriadwn gyhoeddi cais am fewnbwn yn gynnar yn 2019 ar gwmpas ein gwaith i'r dyfodol.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon bryd hynny hysbysiad ymyriad Ewropeaidd mewn perthynas â chynlluniau gan 21st Century Fox i brynu'r cyfranddaliadau yn Sky nad yw'n berchen arnynt yn barod. Roedd hyn yn gofyn bod Ofcom yn darparu adroddiad ar ddwy ystyriaeth yn ymwneud â lles y cyhoedd.

Rhoesom ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mehefin, gan ddyfarnu bod y trafodiad arfaethedig yn codi pryderon lles y cyhoedd mewn perthynas â lluosogrwydd y cyfryngau, ond nid ar sail ymrwymiad i safonau darlledu.


> Daw rheolau newydd ar newid darparwr gwasanaethau symudol i rym yn ystod haf 2019, gan arbed cyfanswm o tua £10 miliwn y flwyddyn i gwsmeriaid symudol y DU



Gwnaethom hefyd asesu a fyddai hyn yn golygu na fyddai Sky mwyach yn ddeiliad trwydded darlledu addas a phriodol. Nid oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn darparu sail resymol dros ddod i'r casgliad mai dyna fyddai'r achos.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr uno arfaethedig at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer cynnal ymchwiliad cam dau ar y ddwy sail.

Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd y CMA ei ganfyddiadau dros dro. Roedd yn cytuno â chyngor cam-un Ofcom y byddai'r uno'n codi pryderon dan luosogrwydd y cyfryngau, ond nid mewn perthynas â safonau darlledu. Bu'r CMA hefyd yn ymgynghori ar opsiynau i ddatrys y pryderon hyn. Darparodd adroddiad terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Mai 2018.



## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Rydym yn gweithio i ddiogelu cwsmeriaid gwasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys pobl fregus, rhag niwed neu arferion cyfrwys.

Rydym yn gweithredu pan mae busnesau yn ymddwyn yn niweidiol tuag atynt ac yn rhoi sylw i gynnwys tramgwyddus ar y teledu neu'r radio drwy ein rheolau darlledu.

### Ein hamcan


**Amddiffyn cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol mewn gwasanaethau teledu, radio ac ar- alwad**

Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl safonau uchel pan fyddant yn gwylio ac yn gwrando ar raglenni sy'n cael eu darlledu ar y teledu ac ar y radio.

Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddiogelu gwylwyr a gwrandawyr – yn enwedig y rheini sydd o dan 18 – rhag deunydd niweidiol neu amhriodol sy'n cael ei ddarlledu ar y teledu a'r radio.

Rydym yn parhau i ddal darlledwyr i gyfrif drwy orfodi'r rheolau yn ein Cod Darlledu. Mae'r Cod yn gosod y safonau y mae'n rhaid i ddarlledwyr eu dilyn. Mae gennym reolau ar gyfer gwasanaethau ar-alwad hefyd, fel chwaraewyr dal i fyny a rhai llwyfannau tanysgrifio.

Bob blwyddyn, rydym yn derbyn miloedd o gwynion oddi wrth y cyhoedd am raglenni teledu, radio ac ar-alwad. Rydym yn ystyried pob cwyn yn ofalus ac yn ei asesu yn ôl ein rheolau i benderfynu a oes angen i ni wneud rhagor o ymchwilio. Os bydd darlledwr yn torri'n rheolau, byddwn yn cymryd camau gorfodi clir. Rydym hefyd yn monitro gwasanaethau radio a theledu fel mater o drefn i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rheolau.



## Beth rydym wedi'i wneud

**Parhau i sicrhau bod cynnwys a ddarlledir yn bodloni safonau priodol**

Mae ein Cod Darlledu yn cynnwys rheolau sy'n gwahardd deunydd a ddarlledir sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu anhrefn. Mae hon yn ddyletswydd hynod bwysig ac rydym wedi cymryd camau gorfodi cadarn yn erbyn darlledwyr pan fydd ein rheolau'n ymwneud ag iaith sy'n ennyn casineb a deunydd sy'n debygol o gymell neu ysgogi troseddu neu anhrefn wedi'u torri'n ddifrifol.

Yn yr achos mwyaf difrifol, gwnaethom atal ac wedyn ddiddymu trwydded Imam FM yn dilyn achosion difrifol iawn o dorri'r Cod Darlledu, ar ôl i'r darlledwr ddarlledu deunydd a oedd yn debygol o annog neu gymell troseddu neu o arwain at anhrefn. Darlledodd yr orsaf radio cymunedol hon yn Sheffield ddarlithoedd gan glerigwr Mwslimaidd radical a oedd yn cynnwys deunydd a oedd yn debygol o gymell troseddu, ac anoddefgarwch cyfiawn tuag at bobl heb fod yn Fwslimiaid.

Yn dilyn ein hymchwiliad a sylwadau gan Imam FM, gwnaethom benderfynu bod yn rhaid diddymu'r drwydded er lles y cyhoedd, ac nad oedd deiliad y drwydded yn addas i ddal trwydded ddarlledu.

Rhoesom ddirwy o £200,000 i Ariana International, £17,500 i Kanshi Radio, a £2,000 i Radio Dawn am dorri'n rheolau'n sylweddol yn y maes hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith gorfodi ar gael yn nhudalennau 129-132.

**Gwreiddio ein dyletswyddau newydd mewn perthynas â'r BBC yn ein gwaith ar safonau cynnwys**

Dan Siarter a Chytundeb y BBC, Ofcom sy'n gyfrifol am reoleiddio'r holl feysydd sy'n gysylltiedig â chynnwys a ddarlledir a chynnwys ar-alwad y BBC – gan gynnwys, am y tro cyntaf, cywirdeb, didueddrwydd a chywirdeb a chyfeiriadau masnachol. Daeth y cyfrifoldebau newydd hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.[1]

Mae Siarter a Chytundeb y BBC gan y Llywodraeth yn rhoi rôl newydd i Ofcom – rhoi barn annibynnol ynghylch a yw'r BBC wedi dilyn ei ganllawiau golygyddol mewn deunydd gwasanaeth cyhoeddus ar-lein.

Rydym wedi nodi sut y bydd hyn yn gweithio gyda'r BBC.[2] Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwreiddio'r dyletswyddau newydd hyn ar gyfer delio â chwynion am y BBC yn ein gwaith parhaus ar safonau cynnwys. Cafodd cyfanswm o 2001 o gwynion am y BBC eu hasesu gennym rhwng 3 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Os nad oedd yr achwynydd wedi cwblhau proses y BBC cyn cwyno i Ofcom, (dull 'y BBC yn gyntaf'), roeddem yn esbonio'r broses ac yn eu hailgyfeirio at y BBC.

Rhoesom ofyniad newydd ar y BBC i gyhoeddi gwybodaeth glir bob bythefnos am y cwynion mae wedi'u derbyn. Mae hyn yn meithrin ac yn cynnal hyder y cyhoedd yng ngwaith y BBC dan y fframwaith newydd ac yn darparu tryloywder ar gyfer y cyhoedd.

Mae ein gwaith yn sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr y BBC yn cael eu diogelu'n briodol drwy broses gwyno dryloyw ac annibynnol. Golyga hyn y bydd y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am safonau ei gynnwys, drwy inni orfodi'n rheolau'n llym.

[1] Daeth ein dyletswyddau parthed rheoleiddio'r BBC ar gyfer cywirdeb a didueddrwydd i rym ar 22 Mawrth 2017.

[2] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/112099/Review-of-the-mandatory-daytime-protection-rules-in-the-Ofcom-Broadcasting-Code.pdf

**Gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar gyfer rhaglenni teledu**

Mae ein Cod Darlledu yn mynnu bod darlledwyr teledu yn cydymffurfio â dau ofyniad allweddol sydd wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn gwarchod plant rhag cynnwys a allai fod yn anaddas iddynt: gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd a'r trothwy 9pm. Mae gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn gadael i ffilmiau hyd at gategori '15' Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain gael eu darlledu yn ystod y dydd ar sianeli tanysgrifio premiwm, a hyd at gategori '18' ar sianeli ffilmiau talu wrth wylio, ar yr amod eu bod yn cael eu gwarchod gan god PIN na all gwylwyr ei ddileu na'i osgoi.

Rhaid i'n Cod Darlledu barhau'n briodol ac yn berthnasol. Wrth i'r ffordd mae pobl yn gwylio'r teledu ddatblygu, rydym yn parhau i sicrhau bod y broses reoleiddio yn cadw i fyny. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod cynulleidfaoedd yn dal i gael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol. Mae hyn yn bwysig iawn i gynulleidfaoedd ifanc ac mae'n un o brif flaenoriaethau Ofcom.

Ym Mis Mawrth 2018, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad[1] yn gofyn barn rhanddeiliaid am gynnig i ymestyn y rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn y Cod y tu hwnt i sianeli ffilmiau talu wrth wylio a'r rhai sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr. Bydd hyn yn golygu bod rhaglenni sydd ond yn gallu cael eu dangos ar ôl y trothwy 9pm ar hyn o bryd yn gallu cael eu dangos unrhyw adeg o'r dydd ar sianeli teledu sy'n cael eu hamserlennu, ond dim ond os oes system warchod ar waith sy'n defnyddio PIN gorfodol.

Fel sail i'r gwaith, gwnaethom gomisiynu ymchwil ar arferion gwylio teuluoedd ac ymwybyddiaeth ymysg cynulleidfaoedd, defnyddio systemau PIN ac agweddau at y rhain. Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil hwn ochr yn ochr â'r ymgynghoriad.[2]



Roedd yr ymgynghoriad yn nodi barn Ofcom y byddai'r cynnig i ymestyn y rheolau yn y maes hwn yn galluogi'r Cod i adlewyrchu arferion gwylio cynulleidfaoedd teledu wrth iddynt newid, ac y byddai'n rhoi mwy o ddewis i oedolion wrth wylio yn ystod y dydd. Yn bwysig iawn, ni fyddai ein cynnig yn effeithio ar y trothwy 9pm, sy'n fesur sylfaenol o reoleiddio darlledu sy'n parhau i sicrhau gwarchodaeth i blant, a mesur mae pobl yn ymddiried ynddo.

Rydym yn ystyried ymatebion rhanddeiliaid ar hyn o bryd a gobeithiwn gyhoeddi datganiad yn ystod haf 2018.

## Ein hamcan

**Sicrhau bod cwsmeriaid llinell dir yn unig yn cael gwerth am arian gan wasanaethau llais**

Yn ystod y degawd diwethaf, mae tirwedd telegyfathrebiadau'r DU wedi cael ei weddnewid. Mae cystadleuaeth wedi helpu i gyflwyno gwasanaethau newydd, mwy o ddewis ac ansawdd gwell.

Mae pum deg naw y cant o gwsmeriaid telegyfathrebiadau yn prynu bwndel erbyn hyn, sy'n cynnwys gwasanaeth ffôn llinell dir a gwasanaeth band eang. Mae pobl sy'n prynu gwasanaethau wedi'u bwndelu yn cael rhagor am eu harian nag erioed o'r blaen. Ond, nid yw cwsmeriaid nad ydynt yn cymryd gwasanaethau wedi'u bwndelu wedi elwa o gystadleuaeth yn yr un ffordd.

Rydym wedi bod yn bryderus am y bobl sy'n prynu llinell dir yn unig gan ddarparwr. Nid yw'r cwsmeriaid hyn wedi cael cymaint o ddewis o ddarparwr, ac nid ydynt wedi manteisio ar gystadleuaeth gref o ran prisiau a chynigion hyrwyddo. Yn aml, cwsmeriaid hŷn neu fregus yw'r rhain, sy'n dibynnu ar eu llinell dir ac yn llai tebygol o newid darparwr. Maent yn aml yn ffyddlon i'w cyflenwr ond yn cael eu cosbi gan brisiau sy'n codi drwy'r amser.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae pob un o'r prif ddarparwyr gwasanaeth llinell dir wedi codi pris rhent llinell yn sylweddol, rhwng 25% a 49% o godiad mewn termau real. A gwelwyd hyn er gwaethaf gostyngiad o ryw 25% yng nghost cyfanwerthol sylfaenol darparu gwasanaeth llinell dir.

Ein nod yw diogelu cwsmeriaid, yn arbennig y rhai bregus, pan nad yw'r farchnad yn gwneud hynny.

[1] Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/112099/Review-of-the-mandatory-daytime-protection-rules-in-the-Ofcom-Broadcasting-Code.pdf

[2] Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/tv-research/daytime-pin-research



## Beth rydym wedi'i wneud

Gwnaethom lansio adolygiad o sut mae'r farchnad yn gweithio i gwsmeriaid sy'n prynu gwasanaeth llinell dir yn unig. Gwelsom fod y cwsmeriaid hyn yn cael gwerth gwael am arian.

Mae dwy draean o'r 1.5 miliwn o gwsmeriaid llinell dir yn unig yn y DU yn gwsmeriaid i BT. Felly, ym mis Chwefror 2017, gwnaethom gynnig rheolau i leihau cost rhent llinell BT i gwsmeriaid â chontractau llinell dir yn unig, gostyngiad rhwng £5 a £7 y mis.

Amlinellwyd mesurau gennym hefyd i'w gwneud yn ofynnol i BT dreialu ffyrdd gwahanol o gyfathrebu â'i gwsmeriaid llinell-dir-yn-unig. Byddai hyn yn eu helpu i ystyried beth maent yn ei dalu, a sut y gall pecynnau eraill gan BT – neu gan ddarparwyr eraill hyd yn oed – gynnig gwerth gwell am arian.

I'n helpu i ddeall sut mae cwsmeriaid llinell dir yn unig yn delio â'r cwestiynau hyn, gwnaethom gomisiynu ymchwil marchnad ar eu hagweddau at newid darparwr neu dariff a beth fyddai'n eu hannog i newid.

Yn dilyn ymyrraeth gennym, cytunodd BT ym mis Hydref 2017 i'n cynnig yn ei gyfanrwydd. Gostyngodd y cwmni ei rent llinell misol £7 y mis o 1 Ebrill 2018 ar gyfer cwsmeriaid sydd â llinell dir yn unig. Mae hyn yn golygu bod dros 700,000 o gwsmeriaid llinell dir yn unig BT, y rhan fwyaf yn oedrannus a bregus, yn arbed £84 y flwyddyn ar eu bil ffôn.

Roedd cytundeb BT yn cynnwys ymrwymiadau pellach am dair blynedd o fis Ebrill 2018, gan gynnwys cap ar brisiau galwadau a rhent llinell yn ôl cyfradd chwyddiant bob blwyddyn, a gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gwsmeriaid llinell dir yn unig.

Hefyd, gallai 200,000 o gwsmeriaid ychwanegol ar becyn 'Home Phone Saver' BT fod yn gymwys. Gall y cwsmeriaid hyn ddewis aros ar eu pecyn cyfredol neu symud i'r cynnyrch safonol sydd wedi cael ei ostwng mewn pris, yn dibynnu ar ba un yw'r fargen orau iddynt.

Er nad yw'r gostyngiad hwn mewn prisiau'n berthnasol i bobl sy'n prynu gwasanaeth ffôn gan un darparwyr a band eang gan un arall, mae'r cytundeb yn mynnu bod BT yn helpu'r cwsmeriaid hyn i fanteisio ar y bargeinion sydd ar gael yn y farchnad, drwy egluro y byddai modd iddynt gael bargen well drwy brynu gwasanaethau fel rhan o fwndel.

Rydym hefyd yn edrych ar fesurau i helpu pobl i chwilio am y fargen orau gyda mwy o hyder, er mwyn iddynt allu manteisio'n llawn ar y dewis eang o wasanaethau cystadleuol sydd ar gael a dod o hyd i'r bargenion gorau ar gyfer eu hanghenion nhw. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ehangach i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid gael bargeinion gwell. Byddwn yn parhau i ymgynghori yn yr haf ynghylch a ddylai darparwyr fynd ati'n rhagweithiol i roi gwybod i gwsmeriaid pan fydd tymor sylfaenol eu contract ar fin dod i ben neu wedi dod i ben.

Yn dilyn yr hyn mae BT yn ei wneud, mae Swyddfa'r Post, sy'n gwasanaethu'r gyfran ail fwyaf o'r farchnad llinell dir yn unig ar ôl BT, wedi cadarnhau i Ofcom y bydd yn gostwng ei bris rhent o £16.99 i £11.50 o fis Mai ymlaen. Rydym yn awr yn disgwyl i ddarparwyr eraill wneud yr un peth.

Byddwn yn parhau i gadw llygad barcud ar brisiau llinellau tir, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu BT yn mynd i'r afael â'r problemau rydym wedi'u nodi. Os bydd gennym unrhyw bryderon, byddwn yn ystyried cymryd camau pellach.



## Ein hamcan

**Mynd i'r afael â galwadau niwsans**

Mae galwadau niwsans yn achosi anhwylustod a phryder i lawer o bobl.

Gan weithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant, mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhannu'r prif gyfrifoldeb dros fynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae gennym gyfrifoldeb penodol am fynd i'r afael â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael, tra mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rheoleiddio negeseuon a galwadau marchnata.

Rydym yn ceisio lleihau niwed i ddefnyddwyr drwy wneud y canlynol:

- atal galwadau niwsans rhag cael eu cysylltu yn y lle cyntaf;
- helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am y galwadau hyn, a beth i'w wneud pan maent yn eu derbyn; a
- cymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn cwmnïau sy'n gwneud y galwadau anghyfreithlon hyn.

## Beth rydym wedi'i wneud

Ers 2015, mae Ofcom wedi helpu i arwain gweithgor ar alwadau niwsans, sy'n cynnwys deg o ddarparwyr cyfathrebiadau mwyaf y DU. Mae'r grŵp wedi ymchwilio i fesurau technegol i flocio neu i hidlo galwadau niwsans ar lefel rhwydwaith. Rydym yn parhau i ddefnyddio ein harbenigedd a'n dylanwad i helpu darparwyr i ddatblygu mesurau technegol sy'n tarfu ar y galwadau niwsans. Rydym hefyd yn annog darparwyr sydd â chwsmeriaid busnes sy'n gwneud y galwadau hyn i weithredu.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i ymgysylltu â Thasglu Peirianneg y Rhyngrwyd (IETF), corff safonau rhyngrwyd byd-eang, ar safoni'r ffordd y mae rhif y galwr yn cael ei ddangos i'r sawl sy'n cael yr alwad. Gelwir hyn yn wasanaeth adnabod y galwr (CLI).

Rydym yn rhan o ymdrech fyd-eang, sy'n cynnwys rheoleiddwyr, y diwydiant ac eraill, i fynd i'r afael â 'ffugio rhif' (*number spoofing*), lle mae'r galwr yn fwriadol yn cyflwyno rhif ffug er mwyn camarwain y sawl sy'n derbyn yr alwad. Mae'r IETF yn bwriadu cyflwyno safon dechnegol newydd yn yr Unol Daleithiau eleni i gefnogi'r broses o ddilysu CLI ar alwadau sy'n deillio o rwydweithiau ar y rhyngrwyd. Mae Ofcom wedi cytuno ar gynllun cyswllt gyda'n cymheiriaid yn yr Unol Daleithiau i helpu i flaenoriaethu'r gwaith yn y DU o roi'r safon hon ar waith.

Ym mis Mehefin 2017, amlinellwyd cyfarwyddiadau blocio ffurfiol gennym, sy'n mynnu bod darparwyr cyfathrebiadau'n blocio galwadau pan mae Ofcom yn gofyn iddynt wneud hynny, ar sail twyll neu gamddefnyddio.


## Mae ein ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod tua 3.9 biliwn o alwadau diangen wedi eu gwneud i linellau tir y DU mewn blwyddyn, 20% yn llai mewn tair blynedd

Ym mis Medi 2017, gosodwyd gwaharddiad gennym ar godi am gyfleusterau dangos rhif y sawl sy'n galw, sy'n gallu helpu pobl i sgrinio galwadau niwsans. O dan y rheolau newydd, mae rhifau ffôn sy'n cael eu dangos i'r rheini sy'n derbyn galwadau yn gorfod bod yn rhai dilys, bod modd eu deialu ac mae'n rhaid iddynt ddangos yn union pwy sy'n ffonio. Mae'n rhaid i ddarparwyr hefyd nodi a blocio galwadau sydd â rhif annilys neu rif nad oes modd ei ddeialu fel nad ydynt yn cyrraedd defnyddwyr. Buom yn ymgynghori ar ganllawiau newydd i helpu darparwyr i gydymffurfio â'r gofynion newydd hyn ar wasanaeth adnabod y galwr, a ddaw yn weithredol ym mis Hydref eleni.

Hefyd, bydd Ofcom yn awr yn gallu adalw blociau o rifau ffôn a ddefnyddir yn systematig i achosi niwed neu bryder i bobl, fel gwneud galwadau niwsans. Gwnaethom y newid hwnnw dan adolygiad o'r rheolau sy'n berthnasol i gwmnïau telegyfathrebiadau, yr Amodau Cyffredinol, a gwblhawyd gennym ym mis Mawrth.

O fewn y diwydiant, mae sawl darparwr wedi bod yn llwyddiannus yn gweithredu ar ein galwad i flocio galwadau niwsans. Erbyn diwedd 2017, roedd BT wedi dargyfeirio 85 miliwn o alwadau, ac roedd Vodafone wedi blocio 373 miliwn o alwadau. Mae Sky wedi lansio Sky Talk Shield, gwasanaeth sgrinio galwadau sy'n ceisio cael gwared â galwadau niwsans a dieisiau drwy ganiatáu i ddefnyddwyr ddewis y galwadau maent yn eu hateb a blocio'r rheini nad ydynt am eu hateb cyn iddynt gael eu cysylltu hyd yn oed.


Ers mis Gorffennaf 2013, mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyflawni cynllun gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â galwadau niwsans. Rydym yn parhau i gydweithio â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan rannu gwybodaeth, a hefyd gyda chyrff eraill, yn y DU a thramor. Rydym hefyd wedi gwneud mwy i ddatblygu ein perthynas â Cyllid y DU, corff sy'n cynrychioli sector ariannol y Deyrnas Unedig, i roi sylw i alwadau niwsans sy'n cynnwys sgamiau ariannol.




Ar ôl i'r diwydiant a rheoleiddwyr weithredu, mae nifer y galwadau niwsans yn y DU yn gostwng erbyn hyn. Mae ein ffigurau diweddaraf yn awgrymu bod oddeutu 3.9 biliwn o alwadau dieisiau i linellau tir y DU yn cael eu gwneud y flwyddyn, 20% o ostyngiad mewn tair blynedd.

Er nad oes ateb syml i'r broblem o atal galwadau niwsans, mae ein cynlluniau'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr. Mae cyfanswm y cwynion a gafodd Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am alwadau niwsans wedi gostwng am yr ail flwyddyn yn olynol, ar ôl bron i ddegawd.

Ond, mae llawer i'w wneud o hyd. Mae helpu i fynd i'r afael â galwadau niwsans yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom, a byddwn yn defnyddio pob dull posib i ddiogelu defnyddwyr.



# Prif risgiau a materion sy'n achosi ansicrwydd

Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r prif faterion sy'n achosi ansicrwydd a'r prif risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn rheoli risgiau ar gael ar dudalen 71

| Prif Risgiau | Prif gamau lliniaru |
| --- | --- |
| **Brexit** | |
| Mae ansicrwydd ynghylch y telerau a'r amserlen ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd ond mae'n bosibl y bydd hynny'n cael effaith fawr ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio (ee buddsoddiad, cystadleuaeth, dewis i ddefnyddwyr), ar ein fframwaith rheoleiddio ac ar ein gallu i recriwtio a dal gafael ar dalent o ansawdd uchel. | ▪ Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth i ddarparu cyngor deddfwriaethol a thechnegol ar y fframwaith rheoleiddio domestig, a gyda rhanddeiliaid i ddeall eu pryderon nhw.<br>▪ Rydym yn dal yn cymryd rhan lawn yn yr holl waith sy'n gysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd, ac yn parhau i ddarparu ein harbenigedd technegol.<br>▪ Rydym wedi sefydlu rhwydwaith, gyda chefnogaeth ar lefel uwch, ar gyfer cydweithwyr Ofcom yn yr Undeb Ewropeaidd. |
| **Seiberddiogelwch a Diogelwch Ffisegol** | |
| Mae proffil cyhoeddus uwch Ofcom, ein cylch gwaith cynyddol Seiberddiogelwch a natur rhai o'n penderfyniadau wedi cynyddu'r risg y gallai Ofcom fod yn destun ymosodiad maleisus. | ▪ Mae gennym raglen waith barhaus sydd wedi'i dylunio i wella ein fframwaith seiberddiogelwch. Mae hyn wedi cynnwys ardystiad Cyber Essentials.<br>▪ Rydym yn parhau i wella ein prosesau diogelu gwybodaeth, yn unol â'r safon ryngwladol ISO 27001.<br>▪ Rydym wedi ymgysylltu ag ymgynghorwyr diogelwch i gynnal adolygiad diogelwch ffisegol yn ein holl swyddfeydd. Ochr yn ochr â hyn rydym yn cyflwyno rhaglen o ymwybyddiaeth o ddiogelwch i'n holl gydweithwyr. |
| **Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang** | |
| Mae'r Llywodraeth wedi deddfu ar gyfer rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a fydd yn cael ei weithredu gan Ofcom. Gallai methu â chyflawni hyn ar amser neu gyflawni rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol sydd ag effaith gyfyngedig danseilio'r manteision i ddefnyddwyr. | ▪ Byddwn yn dysgu gwersi o brofiadau o ddiwydiannau tebyg ac yn sicrhau ein bod yn meddu ar yr arbenigedd priodol lle mae ei angen. |

| Prif Risgiau | Prif gamau lliniaru |
| --- | --- |
| **Ymgyfreitha** | |
| Mae ymgyfreitha gan randdeiliaid yn gallu arafu ac o bosibl yn gallu tanseilio ein penderfyniadau er budd defnyddwyr a busnesau, a gall lesteirio buddsoddi ac arloesi. | ▪ Rydym yn ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd ragweithiol i osgoi ymgyfreitha pan fo'n bosibl.<br>▪ Rydym yn amddiffyn unrhyw ymgyfreitha yn gadarn er mwyn ceisio cynnal effeithiolrwydd ein penderfyniadau. |
| **Piblinell Sbectrwm** | |
| Mae rhyddhau sbectrwm er mwyn diwallu'r cynnydd yn y galw yn waith anodd. Gallai buddiannau masnachol rhanddeiliaid arwain at herio neu ymgyfreitha yn y dyfodol, a fyddai'n arafu rhyddhau sbectrwm. | ▪ Rydym yn ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd ragweithiol i osgoi ymgyfreitha pan fo'n bosibl.<br>▪ Rydym yn amddiffyn unrhyw ymgyfreitha yn gadarn er mwyn ceisio cynnal effeithiolrwydd ein penderfyniadau. |
| **Buddsoddi mewn rhwydweithiau ffeibr sy'n cystadlu** | |
| Mae angen i'r amgylchedd rheoleiddio annog buddsoddi mewn rhwydweithiau ffeibr sy'n cystadlu. Os na fydd yn gwneud hyn, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr aros yn hirach am wasanaethau cyflymach ac o ansawdd uwch, a gallai hyn lesteirio arloesi a gwahaniaethau rhwng gwasanaethau. | ▪ Sicrhau ein bod yn cyfleu pwysigrwydd cystadleuaeth er mwyn hybu buddsoddiad, a phwysleisio manteision cost cael mynediad i'r rhwydweithiau polion a phibellau presennol.<br>▪ Mae gennym raglen ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ac rydym yn ystyried cymhellion buddsoddi.<br>▪ Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth i ystyried y rhwystrau ymddangosiadol o ran buddsoddi. |
| **Canlyniadau defnyddwyr** | |
| Mae gennym raglen uchelgeisiol yn ei lle i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr. Os nad yw'r rhaglen hon mor effeithiol â'r disgwyl, yna mae'n bosibl y bydd yn tanseilio'r manteision i ddefnyddwyr. | ▪ Rydym wedi canolbwyntio ein blaenoriaethau ar feysydd lle rydym yn credu y gallwn ni gael yr effaith fwyaf o fewn amserlenni rhesymol.<br>▪ Rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr trwyadl, ac yn treialu atebion, er mwyn dod o hyd i'r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol i gynyddu ymgysylltiad defnyddwyr.<br>▪ Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys llywodraethau'r DU a'r gwledydd, ar bob agwedd o'n rhaglen defnyddwyr. |






# Gweithio yn y gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol

## Ein gwaith yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pobl ar draws y DU yn cael y gorau gan eu gwasanaethau cyfathrebu a'u bod yn cael eu diogelu rhag arferion busnes a allai achosi niwed iddynt, ar yr un pryd â galluogi cystadleuaeth ac arloesedd i ffynnu. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae'n rhaid i ni ystyried gwledydd, diwylliannau, dwyseddau poblogaeth a thirweddau gwahanol.

Er enghraifft, rydym yn cydnabod bod darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost sy'n diwallu anghenion pobl mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn dal yn sialens. Mae gan Gymru, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a rhai o ranbarthau Lloegr gyfran uchel o'r ardaloedd anghysbell hyn. Mewn rhan arall o waith Ofcom, mae angen i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus adlewyrchu diwylliannau gwahanol, ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae safbwyntiau, diddordebau ac anghenion pobl ledled y DU yn bwysig i ni. Mae ein swyddfeydd ym mhob un o wledydd y DU yn caniatáu i ni ymgysylltu'n uniongyrchol â llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid lleol. Mae gennym Bwyllgorau Cynghori statudol ar gyfer pob gwlad, a Phwyllgor y Gwledydd sy'n adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Ofcom. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob gwlad.

Er bod llawer o waith Ofcom yn effeithio ar bobl ar draws y DU, mae'r adran hon yn cyfeirio at waith penodol rydym wedi'i wneud ymhob un o wledydd y DU yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal â'r gweithgarwch a nodir yma, rydym wedi cyhoeddi adroddiadau ar y *Farchnad Gyfathrebu* ac adroddiadau *Cysylltu'r Gwledydd* ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar wahân.

### Lloegr

Roedd yr *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu a'r adroddiad Cysylltu'r Gwledydd* a gyhoeddwyd yn 2017 yn dangos, er bod Lloegr yn gyffredinol yn cael ei gwasanaethu'n gymharol dda gan wasanaethau cyfathrebu, mae ardaloedd (yn enwedig ardaloedd gwledig) yn dal i ddioddef darpariaeth wael.

Roeddem wedi parhau i flaenoriaethu gwaith mewn ardaloedd sy'n cael gwasanaeth gwael, er enghraifft drwy hybu buddsoddiad mewn rhwydweithiau newydd a chyhoeddi mapiau manwl i roi gwybod i ddefnyddwyr a thablau cynghrair ynghylch perfformiad darparwyr gwahanol. Rydym hefyd wedi darparu cyngor a thystiolaeth i Lywodraeth a Senedd y DU drwy gydol y flwyddyn.

## Gogledd Iwerddon

Roedd ein tîm yng Ngogledd Iwerddon wedi dod â llywodraeth, diwydiant a phartïon eraill oedd â diddordeb ynghyd ar gyfer trafodaethau ar gynyddu mantais cyflwyno band eang cyflym iawn yn y dyfodol, boed y rheini'n cael eu hariannu'n fasnachol neu drwy arian cyhoeddus.

Nid oedd diwygio Openreach (gweler tudalen 23-24) yn berthnasol yn uniongyrchol i Ogledd Iwerddon, lle roeddem wedi penderfynu y gallai BT Northern Ireland Networks (BTNIN) barhau i weithredu ar ran Openreach. Roeddem wedi cytuno ar newidiadau sylweddol i fodel Gogledd Iwerddon sy'n mynd i'r afael â phryderon y diwydiant ac sy'n golygu bod BTNIN yn destun i'r un broses fonitro a chydymffurfio ag Openreach ym Mhrydain Fawr.

Wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd, rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon er mwyn canfod gwasanaethau trawsffiniol y gallai hyn effeithio arnynt.

## Yr Alban

Roedd ein swyddfa yng Nghaeredin wedi parhau i ehangu, ac mae dros 30 o gydweithwyr Ofcom yno erbyn hyn. Mae hyn dros dair gwaith yn fwy na'n presenoldeb blaenorol yn yr Alban, ac mae'n gwella ein gallu i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn yr Alban. Mae presenoldeb cryfach yn yr Alban yn ein helpu i wella'n dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu holl wledydd y DU.

Bu cynnydd sylweddol mewn darpariaeth band eang sefydlog ar draws yr Alban dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ar draws yr Alban mae'r nifer sy'n defnyddio sawl gwasanaeth cyfathrebu yn dal yn is na chyfartaledd y DU. Mae nifer o ardaloedd o hyd lle mae cyflymder band eang yn annigonol a'r ddarpariaeth symudol yn wael. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ar y materion hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan rannu data a darparu arbenigedd technegol i gyfrannu at asesiad Llywodraeth yr Alban o'r rhaglen Digital Superfast Scotland Broadband a datblygu eu cynigion 'Reaching 100'. Roeddem wedi hwyluso uwchgynhadledd symudol, wedi'i chadeirio gan Ysgrifennydd Cabinet yr Alban dros yr Economi Wledig a Chysylltedd ac roedd amrywiaeth eang o gynrychiolwyr o'r diwydiant yn bresennol, ynghyd â Llywodraeth y DU a sefydliadau eraill sy'n gweithio yr heriau hyn fel rhan o Gynllun Gweithredu Symudol Llywodraeth yr Alban.

Rydym hefyd wedi cyflwyno newid mawr yn ein hymgysylltiad, yn unol â'r dyletswyddau statudol newydd fel sy'n cael eu hamlinellu yn ein *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban*. Roedd hyn yn cynnwys darparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gerbron Pwyllgor Economi Wledig a Chysylltedd Holyrood, a chyfrannu'n rhagweithiol at ymchwiliad Screen Sector yr Alban a oedd yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Chysylltiadau Allanol (rydym wedi darparu tystiolaeth ar ein cyfrifoldebau am y BBC, gan gynnwys mewn perthynas â'r sianel BBC Scotland newydd arfaethedig).

## Cymru

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y diwydiant ac ymgysylltu gwleidyddol wedi bod yn amlwg yn ystod y flwyddyn, ac rydym wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor a chefnogaeth ar argaeledd gwasanaethau symudol a band eang mewn ardaloedd gwledig. Roeddem wedi cyfrannu at adolygiad annibynnol Llywodraeth y DU o S4C ac wedi parhau i ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gyflwyno tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar ei ymchwiliad i radio yng Nghymru ac i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i seilwaith digidol yng Nghymru.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y ffordd orau yn ein cyfathrebiadau ac wrth gyflawni ein dyletswyddau o dan y Safonau Cymraeg. Rydym wedi canolbwyntio ar ffyrdd creadigol o gyfathrebu yn Gymraeg, drwy wella swyddogaethau Cymraeg ein gwefan a drwy gyfryngau cymdeithasol a fideos. Mae hyn yn dangos ymrwymiad Ofcom i ddarparu gwasanaeth ardderchog i unrhyw un sydd am gynnal ei fusnes yn Gymraeg gydag Ofcom.

## Datganoli

Yn yr Alban, penodwyd Bob Downes gan weinidogion yr Alban ar Fwrdd Ofcom, ac yng Nghymru, mae disgwyl y bydd penodiad yn nes ymlaen yn ystod 2018. Yng Ngogledd Iwerddon, ar ôl adfer datganoli, gall Gweinidog yr Economi, drwy ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol (DCMS), benodi aelod Gogledd Iwerddon ar Fwrdd Ofcom.

Daeth Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd Ofcom gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban i rym ym mis Ebrill 2017. Cafwyd cytundeb hefyd ynghylch Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru ac fe ddaw i rym yn ystod haf 2018.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd yn nodi'r trefniadau ffurfiol er mwyn i Ofcom ymgynghori â deddfwrfeydd a llywodraethau datganoledig ynghylch ein blaenoriaethau strategol ac

er mwyn darparu tystiolaeth i Bwyllgorau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ôl y galw.

## Ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol

Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n rhyngwladol er mwyn i gyfathrebiadau weithio i bawb yn y DU. Rydym bob amser wedi ceisio cyfrannu at ddadleuon rhyngwladol ar bolisi a deddfwriaeth, ac i gael deialog rheolaidd â'n cymheiriaid, yn ogystal ag â sefydliadau Ewropeaidd a rhyngwladol.

Rydym yn ceisio dysgu oddi wrth ein cymheiriaid dramor, yn rhannu profiadau rheoleiddio ac arferion da â nhw, ac yn monitro datblygiadau rhyngwladol i helpu i gyfrannu at ein gwaith polisi. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn mynychu cyfarfodydd rheoleiddio a rhynglywodraethol yn ogystal â digwyddiadau rhyngwladol. Rydym hefyd yn croesawu dirprwyaethau o bob rhan o'r byd er mwyn gallu cyfnewid barn am destunau fel gwerthu sbectrwm i reoleiddio cynnwys ar-lein, a hyrwyddo buddsoddiad mewn seilwaith telegyfathrebu.

Eleni, rydym wedi parhau â'n gwaith yn cefnogi'r Llywodraeth i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr a dinasyddion yn parhau wrth galon newidiadau deddfwriaethol, yn benodol yng nghyd-destun yr adolygiadau parhaus o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) a'r Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig (sydd wedi cael ei ailenwi yn Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd neu EECC).



Drwy gydol 2017/18 rydym wedi cefnogi'r amrywiol ddadleuon yn ymwneud â'r EECC, gan gynnwys ynghylch hybu cystadleuaeth a buddsoddiad, ymgorffori gwasanaethau teledu newydd ar y rhyngrwyd yn y fframwaith rheoleiddio, ac ynghylch y dull gweithredu ar gyfer cydlynu'r gwaith o reoli sbectrwm yn Ewropeaidd. Rydym yn disgwyl y bydd yr adolygiad o'r EECC yn parhau yn ystod 2018/19.

O ran y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) rydym wedi cefnogi dadleuon ar gyfer rheoleiddio cymesur ac ymarferol sy'n helpu i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys niweidiol ar yr un pryd â pharhau i hybu'r gwaith o gynhyrchu cynnwys arloesol o ansawdd uchel. Gobeithir y daw'r trafodaethau ar yr AVMSD i ben yn ystod 2018.

Y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd rydym wedi cyfrannu at ddatblygu argymhellion Cyngor Ewrop ar luosogrwydd y cyfryngau a thryloywder perchnogaeth yn y cyfryngau, ac rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o gynadleddau rhyngwladol ar bwysigrwydd rheoleiddio'r cyfryngau'n annibynnol.

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU ar nifer o bwyllgorau Ewropeaidd a rhyngwladol sy'n rhoi sylw i bolisi sbectrwm. Roedd Cyfarwyddwr Grŵp Sbectrwm Ofcom wedi bod yn gadeirydd y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio yn ystod 2016 a 2017, ac rydym yn parhau i ymgysylltu ar draws amrywiaeth o weithgorau'r Grŵp Polisi Sbectrwm Radio, gan gynnwys arwain ar y cyd waith y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio ar hwyluso rhannu ymarfer da ac adolygu cymheiriaid.

Drwy'r gwaith hwn mae'r Grŵp Polisi Sbectrwm Radio wedi sefydlu gweithdai aelod-wladwriaethau yn canolbwyntio ar ddyfarnu sbectrwm unigol, sy'n galluogi syniadau polisi a'r hyn sy'n cael ei ddysgu i gael eu rhannu rhwng gwledydd. Roeddem hefyd wedi trefnu ymweliad astudio cyntaf y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio â Hong Kong, Corea a Japan ym mis Rhagfyr 2017, a oedd yn canolbwyntio ar ddeall datblygiadau sbectrwm yn Asia, yn enwedig mewn perthynas â 5G.

Mae Ofcom yn cynrychioli'r DU yn y Pwyllgor Sbectrwm Radio, sydd wedi cynhyrchu amodau technegol i alluogi sbectrwm i gael ei ddefnyddio'n gyson ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni ar draws Ewrop, gan gynnwys ar gyfer band eang symudol a chynnyrch a dyfeisiau eraill defnyddwyr.

Mae Ofcom hefyd yn cynrychioli'r DU yn sectorau radiogyfathrebiadau a safoni telegyfathrebiadau'r Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU), sy'n gweithio i ddarparu fframwaith

byd-eang ar gyfer telegyfathrebiadau a defnyddio sbectrwm. Roedd Ofcom wedi arwain dirprwyaeth y DU i Gynhadledd Datblygu Telegyfathrebiadau'r Byd yn Buenos Aires ym mis Hydref ac mae'n aelod gweithgar o baratoadau'r DU ar gyfer Cynhadledd Plenipotenswyr yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol a gynhelir ym mis Hydref i fis Tachwedd 2018.

Mae Ofcom yn parhau i chwarae rôl flaenllaw yn BEREC (Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop) a gwnaethom unwaith eto gyfrannu'n helaeth at raglen waith BEREC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


Roedd Ofcom yn gyd-gadeirydd y Gweithgor o Arbenigwyr ar Niwtraliaeth y Rhyngrwyd a ddatblygodd y canllawiau ar niwtraliaeth y rhyngrwyd yn ystod 2015/16 i weithredu deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar niwtraliaeth y rhyngrwyd. Mae Ofcom hefyd wedi bod yn gyd-gadeirydd y Gweithgor o Arbenigwyr ar Atebion am nifer o flynyddoedd – yn fwyaf diweddar mae'r Gweithgor hwn o Arbenigwyr wedi bod yn gyfrifol am gynhyrchu a monitro'r arferion gorau ar farchnadoedd mynediad cyfanwerthol. Yn ystod 2017, roedd y Cyfarwyddwr Grŵp sy'n gyfrifol am Dimau Strategaeth, Rhyngwladol, Technegol a Phrif Economegwyr Ofcom yn Is-gadeirydd BEREC ac yn gyfrifol am drefnu'r Fforwm Rhanddeiliad BEREC blynyddol a thaith astudio i India.

Gwnaethom gyfrannu hefyd at gyrff post Ewropeaidd a rhyngwladol, a gweithio'n agos gyda chyd reoleiddwyr, yn benodol yn fwyaf diweddar ar faterion yn ymwneud â dosbarthu parseli ar draws ffiniau a chyfrifyddu costau. Rydym yn cydweithio â rheoleiddwyr clyweledol yn Ewrop, gan ddarparu cyngor arbenigol i'r Comisiwn drwy Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (ERGA), a chadeirio un o'i weithgorau ar hunanreoleiddio a rheoleiddio ar y cyd.




## Gadael yr Undeb Ewropeaidd

Wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd, byddwn yn ceisio sicrhau bod y sector cyfathrebiadau'n cael digon o flaenoriaeth, o gofio am ei bwysigrwydd mawr i economi'r DU, a byddwn yn parhau â'n gwaith yn ymgysylltu â sefydliadau Ewropeaidd a rhyngwladol.



# Sut rydym yn gweithio a chyda phwy rydym yn gweithio

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

### Defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall diddordebau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall tueddiadau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein hadroddiad blynyddol ar y *Farchnad Gyfathrebiadau* a'r adroddiadau ar *Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau*, yn benodol, yn dangos ac yn dadansoddi'r tueddiadau hyn.

Derbyniodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom oddeutu 99,000 o alwadau, ffurflenni gwe, negeseuon e-bost a llythyrau yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr yn 2017/18, ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisïau a'n gwaith gorfodi. Mae defnyddwyr hefyd yn cysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebu, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Ond, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Mae ein swyddfeydd ymhob gwlad yn y DU yn rhoi gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau penodol a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol rannau o'r wlad. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o wledydd y DU yn cynnig gwybodaeth a chyngor i Ofcom ar agweddau ar ei waith, a chyfathrebiadau yn gyffredinol, sydd o bwysigrwydd penodol i bob gwlad. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom. Mae'r Fforwm Defnyddwyr ar Gyfathrebiadau, sy'n cynnwys dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd bob chwarter ag Ofcom i drafod testunau polisi sy'n berthnasol i ddefnyddwyr. Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid a defnyddwyr, yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar destunau penodol.




### Diwydiant a'r Llywodraeth

Mae Ofcom yn ymwneud ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y DU a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU a Rhwydwaith Cystadleuaeth y DU, ac rydym mewn cysylltiad ag amryw o gyrff rheoleiddio a chyrff rhyngwladol.

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i sicrhau bod ei benderfyniadau'n ystyried safbwyntiau a buddiannau'r rheini sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU. Mae ein gweithrediadau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Llundain, Caeredin a Belfast. Maent yn gweithio i sicrhau bod barn, anghenion ac amgylchiadau arbennig y gwledydd yn cael sylw uniongyrchol gan Ofcom. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o'r gwledydd hefyd yn darparu cyngor am ddiddordebau a safbwyntiau'r gwledydd a'r rhanbarthau am yr holl faterion yn ymwneud â chyfathrebiadau.




## Cyd-reoleiddwyr a chyrff eraill

Mae gan Ofcom bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r ASA (Awdurdod Safonau Hysbysebu), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo ar-alwad. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r codau hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Pan fydd angen, mae'r ASA yn gallu cyfeirio trwyddedeion at Ofcom.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm, sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw. Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffon (y PSA) sy'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd ar ran Ofcom drwy ei waith yn gorfodi cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom.

Mae gan y CMA (yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) bwerau cydredol o dan ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr benodol ac o fewn fframwaith y gyfraith cystadleuaeth ar gyfer y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gweithio gyda'r CMA i sicrhau gweithredir yn gyson ac yn gydgysylltiedig mewn perthynas â'r materion lle mae gennym bwerau cydredol. Rydym yn trafod pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i arwain ymhob achos.

## Pryd byddwn yn rheoleiddio

Yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 mae'n rhaid inni roi ystyriaeth i egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ei dargedu at achosion lle mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebu'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys.



## Egwyddorion Rheoleiddio Ofcom

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Byddwn yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau.

Byddwn yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion penodedig.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.


Byddwn yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

## Lleihau rheoleiddio

Mae Ofcom yn canolbwyntio ar leihau rheoleiddio lle bo hynny'n briodol. Rydym yn credu bod 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheolau'n cael eu targedu'n briodol, ac nad ydynt yn gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig. Er bod ein ffocws yn y tymor hwy ar leihau rheoleiddio, eleni, er mwyn paratoi ar gyfer ein cyfrifoldebau rheoleiddio newydd dros y BBC, mae ein gwaith wedi arwain at reoleiddio yn y sector darlledu. Er mwyn diogelu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, roedd rhai o'n penderfyniadau eraill hefyd yn gofyn am reoleiddio ychwanegol neu reoleiddio cryfach, er enghraifft, cefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau band eang gwibgyswllt. Mae nifer y dogfennau a gyhoeddwyd gennym wedi aros yr un fath fwy neu lai. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2017/18.

**Ffigur 1:** Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2017/18




| | | |
|---|---|---|
| Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd | 4 | 9% |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 33 | 75% |
| Llai o reoleiddio | 6 | 14% |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 1 | 2% |

Mae golwg gyffredinol ar y datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ar gael yn yr Atodiad ar dudalennau 123 i 125.

## Ymgyngoriadau

Drwy ymgyngoriadau cyhoeddus, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion, ac ymateb iddynt, cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau terfynol.

Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- **Categori 1:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am ddeg wythnos.
- **Categori 2:** ymgyngoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am chwe wythnos.
- **Categori 3:** ymgyngoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod arferol ar gyfer ymgynghori yn fis:
  - materion technegol;
  - lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
  - lle mae'r mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;



  - lle na chaiff y cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
  - lle nad yw'r cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoliad sy'n bodoli eisoes.

Yn Ffigur 2 dangosir dadansoddiad o hyd ein hymgyngoriadau fesul sector.


**Ffigur 2:** Dadansoddiad o hyd ymgyngoriadau: 2017/18

| | Telegyfathrebiadau | Darlledu | Sbectrwm | Post | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | 5 | 1 | 3 | 0 | 1 | 10 (=22%) (Yn 2016/17 32%) |
| Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgyngoriadau categori 2 a chategori 3) | 21 | 6 | 7 | 1 | 1 | 36 (=78%) (Yn 2016/17 68%) |



Mae Ofcom yn casglu ystadegau ar nifer yr ymatebion i ymgyngoriadau, fel y gwelir yn Ffigur 3. Gwnaethom dderbyn dros 800 o ymatebion i'n hymgyngoriadau lle gwnaethom wedyn gyhoeddi datganiadau yn 2017/18.


**Ffigur 3:** Ymatebion i ymgyngoriadau: 2017/18




## Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 4). Yn 2017/18, cyhoeddwyd dros dri deg y cant o'n penderfyniadau cyn pen 20 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, y rhan fwyaf ohonynt cyn pen deg wythnos.

**Ffigur 4:** Dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i gyhoeddi penderfyniad Ofcom ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben: 2017/18



## Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal asesiad effaith pan rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, ac yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Rhaid i ni gyhoeddi rhestr o'r asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal gennym yn ystod y flwyddyn. Mae hon yn ymddangos yn yr Atodiad ar dudalennau 126-127.

Ym mis Gorffennaf 2005, gwnaethom gyhoeddi'r canllawiau: *Arferion gorau wrth lunio polisïau: dull Ofcom o asesu effaith*, a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisïau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau ffaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi.

Dengys Ffigur 5 fod 83% o ymgyngoriadau yn 2017/18 wedi cynnal asesiad effaith, a oedd wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd cynnal asesiad effaith yn ofynnol, neu efallai na fydd yn briodol, neu efallai ei fod yn ymhlyg yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

**Ffigur 5:** Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd

| | Telegyfathrebiadau | Darlledu | Darlledu | Post | Arall | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y dogfennau ymgynghori | 25 | 7 | 11 | 1 | 2 | 46 |
| Asesiad Effaith yn rhan o'r ddogfen a gyhoeddwyd | 21 | 5 | 10 | 1 | 1 | 38 **(=83%)** |

# Adolygiad Ariannol

Roeddem wedi pennu cyllideb o £121.7m yn 2017/18, sy'n parhau i adeiladu ar enw da Ofcom yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd. Mae hyn yn cynnwys ein cylch gwaith estynedig ar gyfer rheoleiddio'r BBC

## Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

Mae Ofcom bellach wedi sicrhau arbedion cyllidebol am 13 mlynedd yn olynol mewn termau real, ac rydym wedi cymryd camau pendant i leihau ein gorbenion gweinyddol a sefydlog. Bydd hyn yn parhau i fod yn nodwedd o gyllideb 2018/19 a'r tu hwnt.

Ar ôl aildrafod prydles ein Pencadlys, ynghyd â'n dull gweithredu newydd o ran gweithio'n hyblyg, rydym wedi sicrhau 25% arall o ostyngiad yn ein gofod swyddfa yn Llundain. Mae'r brydles newydd ar ein swyddfa yn Llundain yn gosod y costau am gyfnod y brydles tan 2030, sy'n lleihau anwadalrwydd ac yn lliniaru'r risg ariannol o ran rhent yn y dyfodol. Hefyd, fel rhan o'r trefniant hwn, mae'r landlord wedi ymrwymo i fuddsoddi'n sylweddol yn seilwaith yr adeilad.

Drwy bennu meysydd lle gallwn wneud pethau'n wahanol, yn ogystal ag ymateb i heriau newydd yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio, rydym wedi pennu cyllideb o £124.2m ar ein cyfer ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn ymgorffori ein dyletswyddau rheoleiddio newydd i weithredu rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang, a'r Gyfarwyddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth.

Rydym yn parhau i edrych ar sut rydym yn blaenoriaethu ein hadnoddau i wneud dewisiadau yn unol â'n nodau, gyda'r nod o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.



## Perfformiad ariannol 2017/18

Ym mis Ebrill 2017, roedd cyfrifoldebau newydd Ofcom am y BBC wedi dechrau. Roedd hyn yn dilyn ein gwaith y flwyddyn flaenorol yn paratoi ar gyfer y dyletswyddau newydd hyn. Cafodd ein cap gwario yn 2017/18 ei ymestyn i adlewyrchu'r cyfrifoldebau newydd hyn am y BBC fel y cytunwyd gyda'r Llywodraeth.

Mae Nodyn 2 y cyfrifon yn darparu cost rhedeg flynyddol Ofcom o £121.6m ar sail cyfrifo arian wedi'i addasu, yn erbyn cyllideb sydd wedi'i gosod o £121.7m.

Roedd Ofcom wedi anfonebu ac wedi casglu cyfanswm o £326.7m (2016/17: £381.3m) ar gyfer y pwrs cyhoeddus o'r ffioedd trwydded a gasglwyd o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol oddi wrth drwyddedigion darlledu a drwy roi dirwyon a chosbau ar randdeiliaid. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno mewn cyfrifon ar wahân sydd wedi cael eu paratoi o dan Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac nid yw'n cynnwys adneuon arwerthiant sbectrwm, a oedd yn cael eu dal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## Fframwaith ariannol

Dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom gydbwyso ei wariant â'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Atodlen 4 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol (y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw sector penodol) mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

## Ariannu Ofcom

Roedd Deddf Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol sy'n symleiddio model ariannu Ofcom. Yn dilyn cydsyniad gan Drysorlys EM a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y 'Datganiad Egwyddorion' ariannu newydd, ni fydd Ofcom yn derbyn cyllid cymorth grant ar gyfer ei gyfrifoldebau craidd mwyach.

Mae Ofcom yn cael cadw symiau a dderbynnir mewn cysylltiad â'i swyddogaethau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 (Derbyniadau WTA). Caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau cyffredinol yn rheoli sbectrwm, ac i dalu costau ymgymryd â'i swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall.

Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith ym mis Rhagfyr 2017 ac mae cyfrifoldebau craidd Ofcom nawr yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl drwy ffioedd a chostau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant. Mae hwn yn fodel mwy effeithlon ac mae'n helpu i danlinellu ein statws fel rheoleiddiwr sy'n annibynnol ar y Llywodraeth. Caiff Ofcom barhau i dderbyn cymorth grant i gyflawni prosiectau mawr penodol sy'n gysylltiedig â'r Llywodraeth. Ar hyn o bryd, rydym yn cael cymorth grant mewn perthynas â rhaglen clirio'r band 700 MHz.

Arhosodd y trefniadau cymorth grant ar gyfer ein cyfrifoldebau craidd yn weithredol yn ystod y flwyddyn ariannol tan ddiwedd mis Tachwedd 2017 pan ddechreuodd y newid yn y dull ariannu.

### Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

**Arian rhanddeiliaid sectorau**

Ffioedd trwyddedau darlledu ar gyfer:

- teledu
- radio

Taliadau gweinyddol am:

- wasanaethau a rhwydweithiau electronig a darparu cyfleusterau cysylltiedig
- rheoleiddio'r gwasanaethau post

**Cymorth grant**

- I dalu costau gweithredu Ofcom wrth reoli sbectrwm (tan fis Rhagfyr 2017).
- Ar gyfer swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer (tan fis Rhagfyr 2017).
- I dalu costau clirio a dyfarnu sbectrwm, gan gynnwys grantiau effeithlonrwydd sbectrwm

**Cadw derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 (O fis Rhagfyr 2017 ymlaen)**

- I dalu costau gweithredu Ofcom wrth reoli sbectrwm.
- Ar gyfer swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer.




Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o isosod ystafelloedd gwag mewn swyddfeydd, o log ar gyfrifon banc ac o incwm o wasanaethau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau statudol Ofcom.

## Canlyniadau gweithredol

Er gwaethaf wynebu lefel nas gwelwyd o'r blaen o ymgyfreitha, a gyda phrosiect ailwampio sylweddol yn parhau i hwyluso'r gwaith o newid i amgylchedd gweithio'n ystwyth, roeddem yn gallu cyflawni ar gyllideb yn 2017/18 gydag alldro gweithredol o £121.6m. Roeddem wedi llywio'r sefyllfa ariannol i'r gyllideb drwy ddefnyddio gwaith modelu senarios a drwy gynnal adolygiad cynhwysfawr o'n gwariant.

Mae Nodyn 2 yn y cyfrifon yn Adran C yn cysoni cyfanswm y gwariant gweithredol fel y cyflwynir yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr i alldro gweithredol gwirioneddol Ofcom sef £121.6m. Mae'r nodyn hefyd yn cysoni'r incwm ar yr un sail ac yn cyflwyno gwir alldro gweithredol ac incwm Ofcom fesul sector.

Mae Ofcom yn cynnwys llinellau ar wahân yn ein cyfrifon i wahaniaethu rhwng costau gwaith sy'n ymwneud â Chlirio a Dyfarnu Sbectrwm a chostau gweithredu craidd Ofcom er mwyn bod yn fwy tryloyw. Rydym wedi nodi yn yr adrannau canlynol yr elfennau ar wahân.

## Incwm Gweithredol

Roedd incwm gweithredol 2017/18 sy'n berthnasol i gyfrifoldebau craidd Ofcom (heb gynnwys Clirio a Dyfarnu Sbectrwm) yn £122.4m (2016/17: £115.8m).

Mae newidiadau sylweddol o incwm gweithredol y flwyddyn flaenorol yn cynnwys:

- cynnydd yn y ffioedd rheoleiddio darlledu ar gyfer blwyddyn lawn gyntaf ein dyletswyddau newydd parthed y BBC.
- cynnydd yn ffioedd gweinyddol Gwasanaethau a Rhwydwaith ar ôl rhoi canlyniadau'r Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol ar waith ac adolygiad parhaus o adolygiadau o'r farchnad sy'n ofynnol o dan fframwaith yr Undeb Ewropeaidd.
- cynnydd mewn cyllid i dalu am gostau rheoli sbectrwm y DU. Caiff hyn ei gydbwyso'n rhannol gan lai o weithgareddau ar achosion o dan y Ddeddf Cystadleuaeth.

## Gwariant gweithredol

Roedd gwariant gweithredol sy'n ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom yn 2017/18 wedi cynyddu £2.3m i £48.0m (2016/17 £45.7m), heb gynnwys costau staff. Priodolir y gwahaniaethau sylweddol yn y gwariant ers y flwyddyn flaenorol i'r canlynol:

- roedd costau eiddo wedi cynyddu £4.7m, wrth gymharu â 2016/17. Mae sawl agwedd i hyn. Roedd y flwyddyn flaenorol yn cynnwys credyd un-tro o £0.6m a oedd yn ymwneud ag apêl lwyddiannus o ran yr atebolrwydd trethi ar gyfer Riverside House. Yn 2017/18, fel rhan o'n prydles newydd ar gyfer Riverside House, fe gawsom gostau a oedd yn cynnwys treth stamp o £1.0m. Ar ben hynny yn 2016/17 roeddem yn gallu credydu costau eiddo mewn perthynas ag incwm rhent fel rhan o'r darpariaethau prydles beichus. Mae hyn bellach wedi dod i ben fel rhan o'r broses o ymrwymo i'r brydles newydd. Wrth i ni edrych ymlaen, bydd y gostyngiad yn ein gofod swyddfa yn Llundain yn lleihau ein risg ariannol ac anwadalrwydd ariannol.
- roedd costau gweinyddol a chostau swyddfa wedi cynyddu £1.1m, drwy brynu dodrefn heb fod yn gyfalaf fel rhan o symudiad tuag at amgylchedd gweithio hyblyg, a chynnydd mewn costau aelodaeth gorfforaethol oherwydd newidiadau o ran cyfnewid arian tramor ar aelodaeth Ewropeaidd.
- Roedd costau Diogelwch Gwybodaeth a TGCh wedi disgyn £0.7m oherwydd y gwariant ychwanegol a fu yn ystod y flwyddyn flaenorol er mwyn paratoi ar gyfer gweithio'n ystwyth.
- Roedd costau gwasanaethau a ddarperir yn allanol wedi disgyn £1.6m yn ystod 2017/18. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i drefniadau prydles Riverside House. Gyda'r gostyngiad yn nifer y lloriau i'w rheoli roeddem yn gallu lleihau ein costau gwasanaethau eiddo a ddarperir yn allanol yn sylweddol gan gynnwys diogelwch. Ar ben hynny, yn ystod y flwyddyn flaenorol roeddem wedi cyflwyno system TGCh newydd a oedd yn galw am lawer iawn o gefnogaeth gan ein darparwr gwasanaeth TGCh allanol.
- roeddem wedi gwario £0.4m yn llai ar wasanaethau proffesiynol gan fod llai o alw am gymorth ymgynghori allanol i gefnogi'r rhaglen waith. Roeddem hefyd wedi cael credyd net yn y flwyddyn ynghylch y costau cyfreithiol a ddyfarnwyd ar ôl i nifer o apeliadau ddod i ben yn llwyddiannus.
- roedd costau staff dros dro a recriwtio wedi disgyn £0.5m, gan ein bod wedi defnyddio staff tymor byr yn 2016/17 i gyflawni prosiectau gweithredu TGCh allweddol ac roeddem wedi lleihau ein dibyniaeth ar asiantaethau recriwtio ar gyfer recriwtio parhaol.

Er mwyn cefnogi ein cylch gwaith estynedig mewn perthynas â'r BBC, gwnaethom gynyddu ein lefelau staff yn 2017/18; roedd nifer y staff ar gyfartaledd yn 868 Cyfwerth ag Amser Llawn (2016/17 828 Cyfwerth ag Amser Llawn). O ganlyniad, roedd cyfanswm y costau staff wedi codi £3.6m i £72.0m. Roedd costau ailstrwythuro wedi cynyddu £0.4m oherwydd bod rhai timau wedi cael eu hadrefnu ar draws y sefydliad.

## Clirio a dyfarnu sbectrwm

Mae clirio'r band 700 MHz yn rhaglen waith fawr i addasu'r seilwaith trawsyrru teledu daearol digidol (DTT), sy'n flaenoriaeth bwysig i Ofcom. Mae'r Llywodraeth yn ariannu hyn ac mae gennym gynllun grantiau i ddosbarthu'r arian.

Mae'r cyllid cymorth grant ar gyfer clirio a dyfarnu sbectrwm yn cefnogi'r newidiadau gofynnol i'r seilwaith DTT sy'n angenrheidiol i glirio'r band sbectrwm, i alluogi darlledwyr i weithredu ar amleddau is.

Mae'r rhaglen yn ymestyn dros nifer o flynyddoedd ariannol, gyda'r bwriad o orffen y gwaith clirio yn 2020. Cafodd llawer o waith seilwaith ei wneud ar draws y DU yn 2017/18, ynghyd â digwyddiadau clirio rhanbarthol. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yng ngwerth y grantiau a gafodd eu talu.

Mae darparu gwerth am arian wrth galon ein gwaith ar y cynllun grant. I'r perwyl hwn, mae gennym fframwaith sicrwydd cadarn ar waith i wneud yn siŵr mai dim ond costau clirio cynyddrannol effeithlon sy'n cael arian cyhoeddus. Fel rhan o'r fframwaith sicrwydd hwn bydd arbenigwyr technegol a phanel cynghori anweithredol annibynnol yn craffu'n fanwl ar geisiadau am grant



Yn fwy cyffredinol, un rhan o'n gwaith y byddwn yn canolbwyntio arno yw sicrhau y byddwn yn cwblhau'r rhaglen ar gyfer clirio'r band 700MHz mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion mwyaf posib i economi'r DU yn ehangach.

Roedd y gwariant ar Glirio a Dyfarnu Sbectrwm yn £82.1m yn 2017/18 (2016/17: £24.7m), sy'n cynnwys £81.1m o grantiau a gafodd eu talu i ddeiliaid trwyddedau sbectrwm.


Cawsom gyfanswm o £85.4m o incwm (2016/17: £25.3m). Mae'r swm dros ben yn cael ei ddal ar y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol ar gyfer taliadau yn 2018/19.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae'r costau sy'n ymwneud â Chlirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi cael eu gwahanu oddi wrth gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol er mwyn bod yn dryloyw.

## Gwarged / diffyg am y flwyddyn ariannol

### Gwarged neu ddiffyg cyllido

Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a chyflawni ei raglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r dull gweithredu hwn yn pennu'r arian gwirioneddol



y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a sicrheir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn ddwy flynedd ariannol olynol.

Mae'r gwarged cyllido ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, sef £5.9m (y swm yn 2016/17 oedd diffyg o £0.6m).

### Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu

Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan mae dibrisiant, amorteiddiad a thrafodion anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf a'r cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Y gwarged cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth, a gofnodwyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £2.9m (2016/17: gwarged o £1.5m).

### Arian ychwanegol a gesglir ar ran Trysorlys EM

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn nodyn 23 i'r cyfrifon.

Ym mis Rhagfyr 2017, yn dilyn deddfu'r Bil Economi Ddigidol, mae Ofcom yn cadw symiau penodol o ffioedd trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 i dalu am ei waith rheoli sbectrwm a'r costau hynny na all eu hadennill fel arall drwy osod ffioedd a chostau. Mae'r Datganiad sy'n rhoi manylion yr egwyddorion ar gyfer cadw'r cronfeydd hyn ar gael drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/107702/statement-principles-wta.pdf

Roedd Ofcom wedi casglu £326.7m (2016/17: £381.3m) ar ran Trysorlys EM a chafodd £23.9m o hynny (2016/17 Dim) ei gadw yn unol â'r Datganiad cyllido newydd sy'n caniatáu i Ofcom gadw derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i dalu am rai o'i gyfrifoldebau craidd.

Mae'r balans o £309.3m (nad yw'n cynnwys adneuon arwerthiant sbectrwm) wedi cael ei drosglwyddo i gyfrifon y Llywodraeth. Cesglir y refeniw o bedair ffynhonnell:

- ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr;
- taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau teledu a radio;

- cosbau ariannol; a
- rhifau daearyddol

## Tariffau 2018/19

Ar 28 Mawrth 2018, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariff ar gyfer 2018/19, a oedd yn seiliedig ar alldro gwariant gweithredol wedi'i amcangyfrif yn 2017/18 o £121.7m, ynghyd â'r costau a gyllidebwyd ar gyfer 2018/19 a'r amrywiadau a nodir isod.

Bydd yr amrywiad gwirioneddol o £0.5m yn 2016/17, sef y gwahaniaeth rhwng alldro gweithredol gwirioneddol y flwyddyn flaenorol a'r amcangyfrif o'r alldro gweithredol, a ddefnyddiwyd i osod ffioedd a thaliadau ar gyfer 2017/18, yn cael ei roi yn ôl i randdeiliaid drwy dariffau ar gyfer 2018/19 yn unol â'n Datganiad Egwyddorion Codi Ffioedd.

Mae cyllideb Ofcom ar gyfer 2018/19 yn £124.2m, sy'n gynnydd o £2.4m ar gyllideb 2017/18. Mae'n adlewyrchiad pur o'r cynnydd a gymeradwywyd gan DCMS a Thrysorlys EM yn ein cap gwariant ar gyfer 2018/19 er mwyn i ni allu cyflawni ein rolau newydd neu estynedig mewn perthynas â'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar gyfer band eang a'r Gyfarwyddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth.


Er bod prif gyllideb Ofcom wedi cynyddu ers y llynedd, bydd y ffioedd a'r taliadau'n amrywio yn ôl sector gan eu bod yn adlewyrchu gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2018/19 a'r amrywiadau i gyllideb 2017/18.

Yn benodol, bydd taliadau a ffioedd sectorau ar gyfer 2018/19 yn newid fel a ganlyn:

- Cynnydd 4.6% ar gyfartaledd (cynnydd 2.5% mewn termau real) ar gyfer gweithredwyr gwasanaeth a rhwydwaith. Mae hyn yn adlewyrchu costau cynyddrannol y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar gyfer band eang a'r Gyfarwyddem Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth.
- Cynnydd o 12.2% (cynnydd termau real o 9.9%) ar gyfer y sector post. Er bod y gwariant sydd wedi cael ei gynllunio ar gyfer 2018/19 wedi disgyn ers 2017/18 mae'r ffi weinyddol yn ymgorffori'r addasiad blwyddyn blaenorol gofynnol sy'n gwrthbwyso'r arbediad yma.
- 10.4% o ostyngiad ar gyfartaledd (gostyngiad o 12.2% mewn termau real) ar gyfer y sector radio, yn sgil llai o wariant wedi'i drefnu yn 2018/19.
- Er bod y sector teledu cyffredinol, sy'n cynnwys y BBC, yn dangos gostyngiad cyfartalog o 1.8% (gostyngiad - termau real o 3.8%), mae'r ffioedd sylfaenol ar gyfer y sector, heb gynnwys y BBC, wedi cynyddu'n bennaf oherwydd llai o arbedion disgwyliedig yn 2017/18 (o'i gymharu â 2016/17).

Mae'r siart isod yn dangos cyllid Ofcom dros y naw mlynedd diwethaf.

**Ffigur 6:** Patrymau cyllido




* Mae hyn yn adlewyrchu costau dyletswyddau ychwanegol o ran rheoleiddio'r BBC

## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â'u buddion wedi'u diffinio. Mae'r ddau gynllun hwn ar gau i newydd-ddyfodiaid a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r amser hwn, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu ymuno â chynllun cyfranddeiliaid Ofcom. Mae nodiadau 1(k) a 19 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd diweddaraf ar gyfer y naill gynllun a'r llall, ar 31 Mawrth 2015, yn dangos gwarged o £1.3m yng nghyllid cyfun y ddau gynllun.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2017/18 yn dangos gwarged o £18.2m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu gostwng yn unol â'r enillion ar fondiau o ansawdd uchel sydd, dan amodau presennol y farchnad, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pennu cyfraniadau Ofcom.



Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol at Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac at gynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Cynhwysir taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredol, fel y'u cyfrifir dan IAS19, yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Oherwydd y gwaith lliniaru risg rhwng Ofcom, Ymddiriedolwyr ac Actiwarïaid y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi bellach gan flwydd-daliadau. Fel rhan o'r gweithgarwch parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

Cynhelir y gwerthusiadau cyllid bob-tair-blynedd ffurfiol nesaf ar 31 Mawrth 2018 a rhaid iddynt ddod i ben erbyn 30 Mehefin 2019.

# Cyfrifoldeb corfforaethol

## Ymrwymiad Ofcom i gyfrifoldeb corfforaethol

Trwy ein rhaglen cyfrifoldeb corfforaethol, rydym yn anelu at fod yn gyflogwr cyfrifol a chydnabod a rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd a'r gymuned ehangach drwy dri maes gweithgaredd allweddol:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, nid yn unig yn Ofcom ond yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio hefyd (gweler yr adran Ein Gweithwyr ar dudalen 74);
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol (gweler yr adran Cynaliadwyedd ar dudalen 53-56); ac
- ennyn diddordeb, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr, ar yr un pryd â chefnogi mentrau lleol (gweler yr adran Gwirfoddoli a chymuned isod)

Credwn fod agwedd ragweithiol at gyfrifoldeb corfforaethol yn cyfrannu at ein llwyddiant fel rheoleiddiwr.

Dyma rai o'r manteision:

- mae cydnabod a chroesawu amrywiaeth poblogaeth y DU rydym yn ei gwasanaethu yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr, er mwyn gwneud i gyfathrebiadau weithio i bawb;
- mae gwerthfawrogi, hybu ac annog amrywiaeth yn creu gweithlu sy'n fwy effeithlon ac sydd â fwy o ddiddordeb; ac
- mae bod yn gyfrifol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol yn lleihau ein costau gweithredol ac yn meithrin cysylltiadau agosach â'n cymuned leol.





## Gwirfoddoli a chymuned

Rydym yn annog cydweithwyr i wirfoddoli a chyfrannu at gynlluniau cymunedol. Credwn fod hyn yn ffordd effeithiol o ennill sgiliau newydd, aros yn iach yn feddyliol, rhoi hwb i'w hyder, a hyrwyddo ein hamcanion amrywiaeth. Yn 2017, aethom ati i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid lleol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

### Ysgolion

Gwnaethom barhau i redeg cynllun mentora darllen poblogaidd gydag ysgol gynradd leol yn Southwark, gan roi'r cyfle i gydweithwyr gefnogi plant ifanc i wella eu sgiliau llythrennedd.

Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi ymweld ag ysgolion ac wedi croesawu tripiau ysgol i Ofcom i ymgysylltu â phobl ifanc am ddewisiadau gyrfa i'r dyfodol. Y llynedd, gwnaethom adeiladu ar ein perthynas gydag Academi yn Peckham, gan helpu disgyblion ac athrawon i ddeall y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn ymgeiswyr am swyddi.

Yn ystod 2017, gwnaethom barhau i gefnogi cydweithwyr sy'n siarad mewn ysgolion drwy STEMNET, sy'n ceisio ysbrydoli pobl ifanc ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Bu ein cydweithwyr hefyd yn cefnogi Prosiect Access, sy'n paru myfyrwyr o ardaloedd difreintiedig â graddedigion sy'n helpu i wella graddau'r myfyrwyr a'u hyder drwy sesiynau tiwtorial wythnosol. Roedd cydweithwyr eraill wedi gwirfoddoli i fentora myfyrwyr drwy Career Ready, gan eu helpu i baratoi ar gyfer bywyd corfforaethol.

Mae cydweithwyr hefyd wedi sefydlu cyfleoedd gwirfoddoli eraill ar sail ad hoc, gan gefnogi achosion sy'n bwysig iddynt hwy.

### Prentisiaethau ac interniaethau

Rydym yn ceisio ehangu'r llwybrau i bobl ifanc ymuno â'r sefydliad. Rydym nawr yn talu'r Ardoll Prentisiaethau ac yn adolygu ein dull gweithredu o ran prentisiaethau, er mwyn cynnig lleoliadau gwaith gwerthfawr tymor hir am dâl sy'n seiliedig ar sgiliau.

Rydym hefyd yn cynnig interniaethau haf drwy Career Ready – yn ystod haf 2017 roeddem unwaith eto wedi cefnogi rhaglen Career Ready, gan groesawu naw intern o ysgolion ac academïau lleol.

### Elusen Ofcom

Yn ystod 2017, bu cydweithwyr yn cynnal nifer o weithgareddau codi arian i godi arian i elusen enwebedig Ofcom, Macmillan Cancer Support.

# Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol ar strategaeth cynaliadwyedd Ofcom a'n perfformiad yn y maes hwn. Mae'n cynnwys data cynaliadwyedd a chostau ariannol cysylltiedig, wedi'u cyflwyno mewn fformat sy'n cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer adrodd ar gynaliadwyedd a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar gyfer 2017/18.




## Strategaeth cynaliadwyedd Ofcom

### Cyflwyniad

Dros y blynyddoedd, mae Ofcom wedi gweithredu nifer o gynlluniau i leihau carbon. Mae hyn yn cynnwys: gweithio mewn ffordd newydd; prosiectau mawr i leihau faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio yn Riverside House; gweddnewid ein seilwaith TGCh; a symud o gyhoeddiadau sydd wedi cael eu hargraffu i gyhoeddiadau ar-lein. Rydym hefyd yn hybu ailgylchu, teithio cynaliadwy ac arferion da o ran ynni i'n cydweithwyr.

### Hanes y targedau lleihau

Comisiynodd Ofcom archwiliad carbon annibynnol yn 2007, ac wedyn ymrwymo i ostyngiad 25% y cant yn ei allyriadau carbon mewnol erbyn diwedd 2012/13 (o'i gymharu â gwaelodlin yn 2007). Cafodd prosiect Ôl Troed a Chynaliadwyedd Ofcom ei sefydlu i bennu camau gweithredu i sicrhau bod Ofcom yn cyflawni ei ymrwymiad i leihau ei ddefnydd o garbon a bod ei arferion gweithredu'n gynaliadwy'n amgylcheddol, a rhoi'r camau hynny ar waith.

Roedd targed lleihau cychwynnol Ofcom o 25% yn berthnasol ar draws saith maes: gwasanaethau gwybodaeth, cyfleustodau, gwastraff, teithiau busnes, deunyddiau caffael, cyfalaf caffael a chymudo.

Yn 2009, roedd Ofcom wedi comisiynu ein hail archwiliad carbon annibynnol a oedd yn cadarnhau bod gostyngiad o 15% mewn allyriadau carbon wedi cael ei gyflawni. Cafodd trydydd archwiliad carbon ei gynnal yn 2013 a gadarnhaodd fod Ofcom wedi sicrhau 30% o ostyngiad yn ei allyriadau carbon - a oedd yn rhagori ar y targed gwreiddiol o 25% o arbedion a osodwyd yn 2007.

Yn 2015, sicrhaodd Ofcom ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Carbon am yr eildro, gan sicrhau 10.5% yn rhagor o ostyngiad yn ein hôl-troed ers 2013. Mae Ofcom eto eleni wedi cael ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Carbon, gan sicrhau 1.5% yn rhagor o ostyngiad yn ein hôl-troed ers 2015. Mae'r adroddiad a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolaeth Carbon ochr yn ochr â'n hardystiad yn cynnwys nifer o argymhellion y byddwn yn ceisio eu rhoi ar waith er mwyn parhau i leihau allyriadau.

Mae rhagor o fanylion am berfformiad Ofcom o ran cynaliadwyedd ar gael ar ein gwefan.

https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/what-is-ofcom/corporate-responsibility/footprint-and-sustainability



## Perfformiad 2017/18

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Eleni rydym wedi dechrau gweithio'n ystwyth ac rydym wedi dechrau lleihau faint o ofod swyddfa sydd gennym yn ein pencadlys. Gwnaethom leihau'r gofod gweithio yn ein swyddfa wrth i ni symud i weithio'n hyblyg. O ganlyniad, gwnaethom leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr 17% o'i gymharu â 2016/17. Rydym wedi parhau i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn y pedair blynedd diwethaf.

Yn ogystal â'n ffordd newydd o weithio, cafodd yr holl staff eu hannog i leihau faint o bapur roeddent yn ei storio a dod o hyd i fentrau newydd i ddefnyddio llai o bapur, fel llofnodion electronig a chadw dogfennau pwysig yn electronig.

Roeddem wedi mabwysiadu technoleg TGCh gludadwy newydd sydd wedi'i gwneud hi'n haws i gydweithwyr weithio o unrhyw leoliad a chydweithio â chydweithwyr lle bynnag y bônt. Mae hyn yn caniatáu i gydweithwyr weithio'n fwy hyblyg, fel gweithio gartref, a ddylai gyfrannu at ostyngiadau pellach yn ein hôl troed carbon.

Rydym wedi buddsoddi yn ein cyfarpar cynadledda fideo yn ein holl swyddfeydd er mwyn lleihau'r angen am deithio ac i gefnogi gweithio mwy ystwyth. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i'n staff ddefnyddio Skype for Business a fideo-gynadledda. Er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau cywir yn eu lle i gydweithwyr allu gweithio mewn ffordd mwy ystwyth, roedd y timau Cyfleusterau a TGCh wedi ymweld â'n swyddfeydd yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau yn aml. Mae hyn yn un rheswm pam mae ein teithio busnes eleni wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd. Gobeithiwn weld manteision ein cyfarpar cynadleddau fideo dros y blynyddoedd nesaf.

Yn unol â'n polisi treuliau, mae'n rhaid i gydweithwyr ystyried yr effaith ar ôl-troed carbon Ofcom cyn gwneud trefniadau i deithio ac ystyried ffyrdd carbon is yn lle teithio fel e-bost, cynadleddau fideo neu lais. Rydym hefyd yn darparu cynlluniau beicio i'r gwaith i'r staff fel rhan o'u pecyn o fuddion, er mwyn annog staff i leihau eu hôl troed carbon.

Yn 2016, agorwyd dwy swyddfa newydd gennym yng Nghaeredin a Warrington fel rhan o'n prosiect gadael Llundain. Rydym wedi isosod ein swyddfeydd yn Glasgow ac yn defnyddio ein swyddfa yn Haydock i storio ers i'n staff adael yr adeilad.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae gan Ofcom bolisi 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi' ar draws ei bortffolio eiddo. Rydym yn ailgylchu papur, cardfwrdd, caniau, plastigau, batris, cetris peiriannau argraffu a CDs. Mae'r broses o gael gwared ag unrhyw offer TGCh yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gwastraff Offer Trydanol ac Electronig (WEEE).

Roedd cyflenwr trydydd parti yn ymwneud â chasglu a gwaredu tua 1,000 eitem o offer TGCh eleni a'u hailwerthu hefyd o bosib. Nid oedd gwastraff TGCh cywir mewn tunelli ar gael ar gyfer y gwaredu hyn. Bydd unrhyw gostau gwaredu a geir yn cael eu gwrthbwyso gan ail farchnata'r offer.

## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r defnydd o ddŵr yn dod yn bennaf o ystafelloedd ymolchi a dŵr yfed ymhob swyddfa, yn ogystal â'r cyfleusterau arlwyo yn ein swyddfa yn Llundain. Mae Ofcom yn monitro faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio'n fisol. Mae'r costau yn 2017/18 yn cynnwys nodiadau credyd gan gyflenwyr sy'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol.

Mae'n defnydd o bapur wedi lleihau 38% o'i gymharu â 2016/17 wrth inni ddechrau defnyddio llai o bapur a chadw dogfennau'n electronig.

## Cynllun gweithredu Bioamrywiaeth

Nid yw bioamrywiaeth yn ystyriaeth o bwys i Ofcom ac nid ydym yn casglu data yn y maes hwn.

## Caffael cynaliadwy

Mae ystyried cynaliadwyedd yn rhan greiddiol o'n prosesau caffael. Mae Ofcom yn cynnwys darpariaethau yn ei ddogfennau caffael sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddangos eu hagwedd at gynaliadwyedd ac at leihau allyriadau carbon. Wedyn, mae ymatebion y cynigwyr i'r darpariaethau hyn yn cael eu hystyried fel un rhan benodol o werthuso'r tendr. Rydym hefyd yn defnyddio cytundebau fframwaith sydd gan Wasanaeth Masnachol y Goron. Mae'r fframweithiau hyn yn cynnwys manylebion ac maent yn cynnig telerau contract safonol sy'n helpu sefydliadau sy'n prynu i fonitro/leihau eu heffaith amgylcheddol a chynnwys cynaliadwyedd yn eu contractau caffael.



## Cynlluniau at y dyfodol

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd Ofcom yn parhau i fonitro ei allyriadau carbon yn rheolaidd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio ynni a rheoli gwastraff. Byddwn hefyd yn parhau i hybu ymddygiad cynaliadwy ymysg ein cydweithwyr.

Wrth i ni barhau i symud i ddull mwy ystwyth o weithio, a mabwysiadu technoleg symudol, byddwn yn parhau i annog cydweithwyr i leihau eu dibyniaeth ar bapur a lleihau'r rheidrwydd i deithio. Ar ôl i ni addasu'n llawn i'r ffordd newydd o weithio, rydym yn bwriadu datblygu amcanion carbon a thargedau lleihau allyriadau newydd er mwyn rhoi rhagor o welliannau ar waith.

Mae crynodeb o allyriadau Ofcom dros y pum mlynedd diwethaf ar gael yn Ffigur 7. Ewch i'r Atodiad ar dudalennau 139-142 i gael rhagor o fanylion.

**Sharon White**
**Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu**

19 Mehefin 2018


**Ffigur 7:** Golwg gyffredinol ar berfformiad yng nghyswllt cynaliadwyedd

| | | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Scopes 1,2)[1, 2] | tCO2e | 1,498 | 1,649 | 1,569 | 1,456 | 1,209 |
| | Gwariant | £442,226 | £475,135 | £444,964 | £405,810 | £459,238 |
| Teithiau busnes (Cwmpas 3)[3] | tCO2e | 346 | 290 | 250 | 312 | 519 |
| | Gwariant | £628,340 | £596,116 | £569,099 | £663,705 | £705,602 |
| Gwastraff | tCO2e | 173 | 166 | 173 | 172 | 76 |
| | Gwariant | £60,796 | £45,500 | £32,023 | £37,984 | £7,004 |
| Defnydd o adnoddau cyfyngedig | Defnydd o ddŵr (m3) | 13,694 | 14,213 | 10,767 | 11,282 | 9,379 |
| | Gwariant | £20,107 | £24,931 | £16,784 | £22,248 | £6,929 |
| | Rimiau papur | 7,721 | 5,993 | 7,545 | 6,317 | 3,915 |

[1] Rydym wedi ailddatgan ein ffigurau defnydd o drydan ar gyfer 2015/16 yn dilyn esboniad o sut mae defnydd yn cael ei ddyrannu yn ein safleoedd anghysbell.

[2] Yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014/15, cafodd data allyriadau yn ymwneud â theithiau busnes (hedfan) ei ailddatgan ar gyfer 2013/14 ar ôl cael rhagor o ddata gan ein cwmni teithio.

[3] Rydym wedi ailddatgan y ffigur ar gyfer ein defnydd o bapur ar gyfer 2014/15 ar ôl cael esboniad gan ein cyflenwr.



# B

# Adroddiad Atebolrwydd

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Cofrestr buddiannau i'w datgelu

Ni chaiff aelodau'r Bwrdd, eu partneriaid na phlant dibynnol fod â buddiannau (gan gynnwys cyfranddaliadau, cyfarwyddiaethau a swyddi) mewn cwmnïau y gallai penderfyniadau Ofcom effeithio ar eu gweithgareddau busnes craidd (ac felly pris cyfranddaliadau).

Mae gan Ofcom gofrestr o fuddiannau i'w datgelu, sydd ar gael ar ein gwefan yn:

https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/register-disclosable-interests



## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau a'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau na chânt eu hariannu. Mae Nodyn 1 yn y Nodiadau i'r Cyfrifon yn cyfeirio at y polisi cyfrifyddu perthnasol, ac mae Nodyn 19 yn y Nodiadau i'r Cyfrifon yn rhoi manylion rhwymedigaethau buddion ymddeol Ofcom.

Mae manylion y lwfans pensiwn a dalwyd i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn ystod 2017/18 ar gael yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalen 79.

## Gwaith nad yw'n gysylltiedig ag archwilio'r cofnodion ariannol

Ni thalwyd dim ffioedd ar gyfer gwaith archwilio anstatudol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystod 2017/18 (ni thalwyd dim ffioedd ar gyfer gwaith archwilio anstatudol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystod 2016/17).

## Digwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir

Cyflwynodd Ofcom un adroddiad ar ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol a ddiogelir i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2017/18. Penderfynodd y Swyddfa nad oedd angen gweithredu ymhellach.

## Data absenoldeb salwch

Mae adroddiad ar ddata absenoldeb salwch ar gael yn adran Ein Gweithwyr yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 74.

## Datgeliadau'r Cyfarwyddwyr

Hyd y gŵyr y Cyfarwyddwyr, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr wedi cael gwybod amdani. Mae pob cam rhesymol wedi cael ei gymryd gan y Cyfarwyddwyr i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth hon.

Sharon White
**Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu**

19 Mehefin 2018

# Bwrdd Ofcom


1


2


3


4


5


6


7


8


9


10


11


12

## 1 Yr Arglwydd Burns, GCB

Penodwyd yr Arglwydd Burns yn Gadeirydd Bwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2018. Mae'n Gynghorydd Arbennig i Banco Santander SA, yn Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Artistiaid Clasurol Ifanc ac yn Is-gadeirydd Gŵyl Llenyddiaeth a Chelfyddydau'r Gelli Cyf. Roedd yn arfer bod yn Brif Gynghorydd Economaidd ac Ysgrifennydd Parhaol i Drysorlys EM, yn Gadeirydd Santander UK plc, Channel Four Television, Marks and Spencer plc a Dŵr Cymru, a Chynghorydd Annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr Adolygiad o Siarter y BBC. Mae hefyd yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Canolbarth Cymru ac yn Is-lywydd yr Academi Gerddoriaeth Frenhinol. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Enwebiadau Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgor Taliadau Ofcom.

## 2 Y Fonesig Patricia Hodgson, DBE

Penodwyd y Fonesig Patricia Hodgson, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Gorffennaf 2011, daeth yn Ddirprwy Gadeirydd ar 1 Ionawr 2012 ac yn Gadeirydd ar 1 Ebrill 2014. Bu i Patricia ymddeol o fod yn Gadeirydd Bwrdd Ofcom ddiwedd 2017.

## 3 Sharon White

Daeth Sharon White yn Brif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom ym mis Mawrth 2015. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Sharon wedi cael gyrfa hir yn y gwasanaeth sifil. Roedd yn Ail Ysgrifennydd Parhaol yn Nhrysorlys EM gyda chyfrifoldeb am oruchwylio cyllid cyhoeddus. Cyn hynny roedd ganddi swyddi ar lefel bwrdd yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol ac mae wedi gweithio yn Uned Polisi'r Prif Weinidog ac yn Washington DC fel uwch economegydd ym Manc y Byd.

## 4 Y Farwnes Noakes, DBE

Penodwyd y Farwnes Noakes i Fwrdd Ofcom ar 1 Mehefin 2014, fel Dirprwy Gadeirydd. Mae Sheila yn gyfrifydd siartredig ac wedi treulio 30 mlynedd yn KPMG. Mae wedi bod yn Llywydd Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. Fe'i penodwyd i Dŷ'r Arglwyddi yn 2000 fel arglwydd am oes. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol gyda Royal Bank of Scotland Group Plc ac yn cadeirio Pwyllgor Risg ei Fwrdd. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Archwilio a Risg a Phwyllgor Taliadau Ofcom, ac yn Aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau.

## 5 Graham Mather, CBE

Penodwyd Graham Mather yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Mehefin 2014, a chafodd ei ailbenodi am bedair blynedd arall o fis Mehefin 2018 tan fis Mai 2022. Bu'n aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom rhwng 2004 a 2008. Bu'n aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau, a rhwng 2000 a 2012, roedd hefyd yn aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, y corff sy'n delio ag apeliadau gan reoleiddwyr y DU. Mae Graham ar hyn o bryd yn Llywydd y Fforwm Polisi Ewropeaidd ac yn Gadeirydd ei Grŵp Arferion Gorau Rheoleiddio. Mae'n aelod o Fwrdd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Mae Graham yn Aelod o Bwyllgor Gwledydd Ofcom, y Pwyllgor Taliadau, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Cafodd Graham CBE yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2017 am wasanaethau i reoleiddio economaidd, cystadleuaeth a datblygu seilwaith.

## 6 Ben Verwaayen

Penodwyd Ben Verwaayen yn aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2016. Mae ganddo 30 mlynedd o brofiad yn rheoli cwmnïau telegyfathrebu, technoleg a chyfryngau mawr mewn rolau gweithredol ac anweithredol. Mae'n gyn Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent, ac mae wedi bod yn Gadeirydd Endemol. Ar hyn o bryd mae'n Bartner Cyffredinol gyda Keen Venture Partners ac mae'n aelod o sawl Bwrdd, gan gynnwys yn Akamai yn yr Unol Daleithiau a'r cwmni gwasanaethau symudol Bharti Airtel yn India. Mae'n Aelod o Bwyllgor Taliadau a Phwyllgor Enwebiadau Ofcom.

## 7 Jonathan Oxley

Ymunodd Jonathan Oxley ag Ofcom fel Cyfarwyddwr y Grŵp Cystadleuaeth ym mis Tachwedd 2014 ac fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Ionawr 2015. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn Bartner ym mhractis Strategaeth ac Economeg PwC, yn arbenigo mewn telegyfathrebiadau, y cyfryngau a thechnoleg, ar ôl ymuno â PwC yn 1995.

## 8 Dr Steve Unger

Steve Unger yw Cyfarwyddwr y Grŵp Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr, ac fe'i penodwyd i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2015 ar ôl bod yn Brif Weithredwr dros dro ers mis Ionawr 2015 nes i Sharon White gychwyn yn y swydd ym mis Mawrth 2015. Mae wedi bod gydag Ofcom o'r cychwyn ac mae wedi dal sawl uwch rôl, gan gynnwys Prif Swyddog Technoleg Ofcom.

## 9 Nick Pollard

Penodwyd Nick Pollard yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Tachwedd 2016. Cafodd ei benodi ar Fwrdd Cynnwys Ofcom ym mis Ebrill 2016. Mae Nick Pollard wedi cael gyrfa hir fel newyddiadurwr ac uwch swyddog gweithredol yn y maes darlledu. Roedd yn Gynhyrchydd Gweithredol gyda News at Ten yn ITN (1987-92), Pennaeth Sky News (1996-2006), a Phrif Weithredwr SSVC, y sefydliad sy'n rhedeg Gwasanaeth Darlledu Lluoedd Arfog Prydain (2009-2015). Mae'n gyn gadeirydd Gwobrau Newyddiaduraeth y Gymdeithas Teledu Frenhinol ac mae wedi ennill Gwobr Cyflawniad Oes y gymdeithas honno am Newyddiaduraeth ar y Teledu. Mae Nick yn Gadeirydd y Bwrdd Cynnwys ac yn Aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Taliadau.

## 10 Tim Suter

Penodwyd Tim Suter yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Hydref 2017. Roedd yn gynhyrchydd, yn olygydd ac yn uwch reolwr gyda'r BBC am 15 mlynedd ac yn Bennaeth Polisi Darlledu yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2002, yn gyfrifol am Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a chreu Ofcom. Ymunodd ag Ofcom ar y dechrau a gadawodd i sefydlu Perspective Associates, i gynghori ar bolisi a rheoleiddio'r cyfryngau. Mae wedi bod yn gynghorydd arbennig i Bwyllgor Cyfathrebiadau Tŷ'r Arglwyddi, ac yn gadeirydd panel o arbenigwyr a oedd yn cynghori Cyngor Ewrop. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Cynnwys Ofcom, yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwledydd ac yn Aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Taliadau.

## 11 Bob Downes

Penodwyd Bob Downes yn aelod Anweithredol cyntaf Bwrdd Ofcom ar gyfer yr Alban ym mis Chwefror 2018. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a CENSIS, canolfan arloesi ar gyfer systemau delweddau a synwyryddion. Mae Bob yn un o ymddiriedolwyr y Mackintosh Campus Renewal Appeal ar gyfer Ysgol Gelf Glasgow, ac yn gynghorydd i nifer o fusnesau technoleg bach. Roedd yn arfer bod yn uwch swyddog gweithredol gyda BT Group.

## 12 Y Fonesig Lynne Brindley, DBE

Penodwyd y Fonesig Lynne Brindley, DBE yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ar 1 Medi 2011. Ymddeolodd Lynne o fod yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Awst 2017.

# Datganiad Llywodraethu

## Y strwythur llywodraethu

**Bwrdd Ofcom sy'n arwain y sefydliad, ac mae ei weithgareddau craidd yn cynnwys:**

- gosod y strategaeth gyffredinol ar gyfer Ofcom;
- gweithredu fel yr awdurdod sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol;
- cael sicrwydd bod risgiau sylweddol i Ofcom yn cael eu pennu a bod systemau priodol ar gyfer rheoli risg yn bodoli er mwyn lliniaru risgiau o'r fath;
- diffinio archwaeth Ofcom am risg; a
- cynllunio olyniaeth y Bwrdd a rheolwyr gweithredol.

**Ffigur 8:** Bwrdd a Phwyllgorau Ofcom

**Bwrdd Ofcom**

**Pwyllgorau'r Bwrdd**

- Bwrdd Cynnwys
- Panel y Gronfa Radio Cymunedol
- Pwyllgor Etholiadau
- Pwyllgor Enwebiadau
- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Taliadau
- Pwyllgor Taliadau Anweithredol


**Pwyllgorau Gwaith**

- Y Bwrdd Rheoli a Pholisi
  - Grwpiau Llywio Polisi
    - e.e. Telegyfathrebiadau
    - e.e. Defnyddwyr
- Y Bwrdd Gweithrediadau
  - Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
  - Diogelwch
  - Pwyllgor Pensiynau Cyfraniadau wedi'u Diffinio
  - Iechyd a Diogelwch

**Pwyllgorau Cynghori heblaw rhai'r Bwrdd**

- Pwyllgor Gwledydd
- Pwyllgor Cynghori'r Alban
- Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon
- Pwyllgor Cynghori Lloegr
- Pwyllgor Cynghori Cymru
- Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm
- Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/Y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

## Bwrdd Ofcom



**Caiff Bwrdd Ofcom ei arwain gan y Cadeirydd, sy'n rheoli'r Bwrdd i sicrhau:**

- bod gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- bod strwythur ar waith i alluogi pob Aelod i gyfrannu'n effeithiol;
- bod y Prif Weithredwr a swyddogion gweithredol eraill yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu sefydlu a'u gweithredu'n iawn, a'u bod yn cynnwys yr aelodau iawn;
- bod gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am berfformiad yn erbyn yr amcanion; a
- bod Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol

Mae Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd. Caiff Aelod yr Alban ei benodi gan Weinidogion yr Alban, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol, ac mae penodiad y Prif Weithredwr yn galw am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u rhestru yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, a chedwir Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau. Mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan Ofcom.

Er nad yw Ofcom yn rhwym wrth God Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol, rydym yn mabwysiadu'r egwyddorion lle mae hynny'n briodol. At ddibenion mabwysiadu prif egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU:

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau bod annibyniaeth yn cael ei gynnal;
- mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- Aelodau Anweithredol yw mwyafrif aelodau'r Bwrdd. Ystyrir mai'r Dirprwy Gadeirydd yw'r uwch Aelod Anweithredol at ddibenion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU; a
- bydd y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2017/18 cyfarfu'r Bwrdd 12 gwaith. Swyddogaeth y rheolwyr gweithredol yw gweithredu polisïau'r Bwrdd. Mae nifer o gyrff cynghori yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith.

Mae cofnodion a nodiadau cyfarfodydd Bwrdd Ofcom ar gael ar y wefan yn

https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/ofcom-board#accordion__target-87222



## Pwyllgorau'r Bwrdd

Wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi'i ddiffinio'n glir (gweler Ffigur 9).

Disgrifir gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau hyn isod. Mae gan Ofcom nifer o bwyllgorau eraill sydd â swyddogaeth lywodraethu neu swyddogaeth gynghori i'r Bwrdd. Fe'u disgrifir yn yr Atodiad ar dudalennau 120-122.

## Y Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad Bwrdd Ofcom, yn ogystal â goruchwylio'r cynllun olyniaeth ar gyfer holl aelodau gweithredol y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'r Cadeirydd yn gweithio gyda'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) (a phan fo'n briodol y Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig) ar y broses o ddewis Aelodau Anweithredol ar gyfer Bwrdd Ofcom (a, lle bo'n briodol, eu hailethol). Mae'n sicrhau bod safbwyntiau'r Pwyllgor yn cael eu clywed gan DCMS, sy'n gwneud y penodiadau.

Mae'r gwaith o benodi Aelodau Gweithredol i'r Bwrdd yn cael ei wneud gan holl Aelodau Anweithredol y Bwrdd ar argymhelliad y Pwyllgor.

## Y Pwyllgor Taliadau

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli, yn ogystal ag ynghylch eu telerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori Ofcom ar delerau ac amodau aelodau rhan-amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, y pedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ac Aelodau Anweithredol eraill o gyrff eraill yn strwythur llywodraethu Ofcom.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom.

Mae taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes dim un Aelod Bwrdd yn rhan o'r broses o bennu ei dâl ei hun.

**Ffigur 9:** Bwrdd Ofcom a Phwyllgorau'r Bwrdd

| | Bwrdd Ofcom | Pwyllgor Taliadau | Pwyllgor Archwilio a Risg | Pwyllgor Enwebiadau | Bwrdd Cynnwys | Pwyllgor Gwledydd | Pwyllgor Etholiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd | **12** | **6** | **5** | **3** | **8** | **4** | **0** |
| **Presenoldeb** | | | | | | | |
| Yr Arglwydd Burns GCB[1] | 3 | 2 | Amh | Amh | Amh | Amh | |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE[2] | 9 | 4 | 4 | 3 | Amh | Amh | |
| Sharon White | 12 | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | |
| Y Farwnes Noakes DBE | 12 | 6 | 5 | 3 | Amh | Amh | |
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE[3] | 4 | 3 | Amh | 2 | 2 | 1 | |
| Graham Mather CBE | 11 | 5 | 5 | 2 | Amh | 4 | |
| Jonathan Oxley | 11 | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | |
| Dr Stephen Unger | 12 | Amh | Amh | Amh | Amh | Amh | |
| Ben Verwaayen | 8 | 3 | Amh | 1 | Amh | Amh | |
| Nick Pollard [4] | 10 | 6 | Amh | 3 | 8 | Amh | |
| Tim Suter[5] | 5 | 3 | Amh | Amh | 3 | 3 | |
| Bob Downes[6] | 2 | 1 | Amh | Amh | Amh | Amh | |

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Grŵp – Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolwr Risg ac Yswiriant Cyllid, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu am briodoldeb ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg Ofcom a'r fframwaith rheolaeth fewnol, a rhoi cyngor ynghylch polisïau cyfrifyddu a'r broses ar gyfer adolygu'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ariannol blynyddol drafft a'u cynnwys. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o benodi'r archwilwyr mewnol a'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol blynyddol. Caiff swyddogaethau'r Pwyllgor eu disgrifio'n llawn yn ei gylch gorchwyl, sydd ar gael ar wefan Ofcom.

Mae Ofcom yn rhoi'r swyddogaeth archwilio mewnol i'r cwmni allanol KPMG. Nid yw darparu gwasanaethau eraill gan KPMG i Ofcom yn cael ei ganiatáu os bydd yn bygwth annibyniaeth y broses archwilio mewnol, a gwneir penderfyniadau fesul achos. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

[1] Penodwyd yr Arglwydd Burns yn Gadeirydd Ofcom ar 1 Ionawr 2018

[2] Gadawodd y Fonesig Patricia Hodgson DBE fel Cadeirydd Ofcom ar 31 Rhagfyr 2017

[3] Gadawodd y Fonesig Lynne Brindley DBE fel Aelod Anweithredol o'r Bwrdd ar 31 Awst 2017

[4] Cafodd Nick Pollard beidio â bod mewn un Cyfarfod Bwrdd

[5] Penodwyd Tim Suter yn Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, yn weithredol o 2 Hydref 2017

[6] Penodwyd Bob Downes yn Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, yn weithredol o 1 Chwefror 2018

**Ffigur 10:** Yr Uwch Dîm Rheoli

| Enw | Swyddogaeth |
|---|---|
| Sharon White | Prif Weithredwr |
| Philip Marnick | Cyfarwyddwr Grŵp, Sbectrwm |
| Jonathan Oxley | Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth |
| Lindsey Fussell | Cyfarwyddwr Grŵp, Defnyddwyr |
| Dr Steve Unger | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth, Rhyngwladol, Technoleg ac Economegwyr |
| Kevin Bakhurst | Cyfarwyddwr Grŵp, Polisi Cyfryngau a Chynnwys |
| Alison Crosland | Cyfarwyddwr Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol |
| Polly Weitzman | Cwnsler Cyffredinol |

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae'r Bwrdd Cynnwys yn un o bwyllgorau prif Fwrdd Ofcom, gyda chyfrifoldeb cynghori a dirprwyedig dros amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud â chynnwys, gan ddelio'n bennaf â darlledu. Mae wedi'i sefydlu o dan statud, yn benodol adran 12(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Gall Bwrdd Ofcom ofyn am gyngor ac argymhellion gan y Bwrdd Cynnwys ar unrhyw agweddau ar benderfyniadau sy'n ymwneud â chynnwys y mae wedi'u cadw iddo ef ei hun.


Y Bwrdd Cynnwys yw prif fforwm Ofcom ar gyfer rheoleiddio ansawdd a safonau teledu a radio. Mae'n gyfrifol am ddeall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion.

## Y Bwrdd Gweithrediadau a'r Bwrdd Rheoli a Pholisi

Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli a Pholisi yn cynnwys yr Uwch Dîm Rheoli a'r Prif Economegydd, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol. Mae uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad. Mae'r Bwrdd yn darparu fforwm mewnol lle gall uwch swyddogion gweithredol oruchwylio a chraffu ar ddatblygiad mewnol agenda Ofcom, yn ogystal â goruchwylio rheolwyr Ofcom.

Y Bwrdd Gweithrediadau sy'n gyfrifol am oruchwylio cynlluniau gweithredol mewnol Ofcom i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni cylch gwaith Ofcom yn effeithiol. Cadeirir y Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Grŵp, Gwasanaethau Corfforaethol, ac mae'r aelodau'n cynnwys uwch swyddogion gweithredol o bob rhan o'r sefydliad.





## Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd. Mae'n cael diweddariadau strategol rheolaidd, papurau gwybodaeth am y marchnadoedd y mae Ofcom yn eu rheoleiddio, gweithgareddau rhanddeiliaid allweddol, ac adroddiadau am weithgareddau gweithredol a pholisi Ofcom. Ar ben hynny, mae pob Aelod yn gallu mynd at Ysgrifennydd y Gorfforaeth i gael help gyda darparu gwybodaeth a llunio trefniadau ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol gyda swyddogion gweithredol yn Ofcom i gael gwell dealltwriaeth o faterion penodol.

Mae effeithiolrwydd y Bwrdd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Yn 2017, cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Ysgrifennydd y Gorfforaeth, gydag arweiniad gan y Dirprwy Gadeirydd. Cynhelir gwerthusiad a hwylusir yn allanol bob hyn a hyn.

Caiff perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd ei asesu gan y Cadeirydd yn flynyddol.

## Atebolrwydd

Anfonir Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ofcom at DCMS, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, a'i berthynas â DCMS yn y cyswllt hwn, yn cael ei disgrifio yn y Ddogfen Fframwaith.

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Nid yw Ofcom yn rhwym wrth God Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol.

Fodd bynnag, mae egwyddorion y Cod yn rhoi meincnod defnyddiol i'r holl gyrff sy'n dymuno gwneud datganiad am eu perfformiad o ran llywodraethu corfforaethol. I'r diben hwn, bydd Ofcom yn parhau i fabwysiadu egwyddorion y Cod lle mae'n briodol gwneud hynny. I'r perwyl hwn mae Ofcom wedi cydymffurfio ag egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.



## Tryloywder

Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ei wefan. Lle bo modd, rydym yn darparu'r data rydym yn ei greu a'i gasglu i'r cyhoedd gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae ein data agored ar gael ar un porth cyhoeddus ar ein gwefan ac ar y porth data.gov.uk, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau llywodraeth ganol a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2017/18, cafodd Ofcom 297 o geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, gwnaethom ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 63% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Cafodd Ofcom ddeuddeg cais am wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 hefyd, a phan oedd gennym wybodaeth berthnasol, darparwyd y wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn naw o'r achosion.

## Ymgysylltu

Bydd gweithredoedd Ofcom yn effeithio ar bobl ac ar sefydliadau ledled y DU. O'r herwydd, mae'n bwysig iawn ei fod yn gwneud penderfyniadau ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn. Rhaid i'r penderfyniadau hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth, ac wrth wneud y penderfyniadau hyn, mae angen i Ofcom ystyried safbwyntiau'r rheini sydd â diddordeb yn y canlyniad.

Mae ymgynghori'n chwarae rhan bwysig er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth hon. Mae'n rhoi cyfle i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt, neu sy'n pryderu am fater penodol, gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn y byddwn yn penderfynu ar y cyfeiriad y byddwn yn ei gymryd.


O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ddull ymgynghori Ofcom a'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ar gael ar dudalen 127.

Bwriad aelodaeth y cyrff sy'n ffurfio'r strwythur llywodraethu yw cynnig lefelau penodol o arbenigedd er mwyn gallu profi a herio polisïau a phrosiectau Ofcom yn gadarn cyn gwneud penderfyniadau.

Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cynnwys wyth arbenigwr annibynnol, sy'n gweithio i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a busnesau bach yn y sector cyfathrebiadau. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel yn ystod y camau datblygu cynnar, sy'n ei alluogi i ddarparu cyngor cadarn ac annibynnol ar bolisïau i sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau o'r cychwyn. Hefyd, mae Ofcom yn ymgysylltu â nifer o gyrff eraill sy'n ymgynghori â defnyddwyr, gan gynnwys y Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau mae'n ei gynnal, ac mae'n gwahodd cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o gyrff sy'n eiriol ar ran defnyddwyr.

Mae'r ymgysylltu hwn yn fwyfwy pwysig yng ngwledydd datganoledig y DU, lle mae swyddogaeth aelodau gwledydd y DU ar y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol yn eithriadol o werthfawr wrth helpu Ofcom i ystyried materion penodol wrth iddo lunio ei bolisïau a'u rhoi ar waith. Mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU), sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang er mwyn sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y DU.

**Ffigur 11:** Fframwaith rheolaeth Ofcom




## Y fframwaith risg a rheolaeth

Mae fframwaith risg a rheolaeth Ofcom yn sail i'r strwythur llywodraethu a'i fwriad yw helpu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'i amcanion gan ddiogelu arian cyhoeddus ar yr un pryd.

Mae'r fframwaith rheolaeth yn canolbwyntio ar dair o elfennau cyfrifoldeb:

- rheoli a rheolaeth fewnol;
- rheoli risg; a
- sicrwydd annibynnol.

Mae pob un o'r meysydd cyfrifoldeb hyn wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad a, gyda'i gilydd, maent yn rhoi i'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Rheoli y sicrwydd gofynnol i allu rheoli'r busnes yn effeithiol (gweler Ffigur 11).



## Rheoli a rheolaeth fewnol

Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom i unigolion a phwyllgorau penodol. Disgrifir y cynllun dirprwyo hwn yn y Fframwaith Dirprwyaeth a'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol, a chafodd y ddau eu diweddaru yn 2017 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â strwythur y sefydliad ac yn adlewyrchu'n briodol ei archwaeth am risg. Gofynnir i Gyfarwyddwyr Grŵp ddarparu sicrwydd bod y system o reolaeth fewnol yn gweithio'n effeithiol yn eu maes cyfrifoldeb, drwy gwblhau datganiad sicrhau rheolaeth fewnol blynyddol. Ar ben hynny, ceir sicrwydd drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan dimau arbenigol ar draws y sefydliad, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Parhad Busnes.

Drwy gynnal asesiadau effaith (fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau) sy'n gwerthuso effaith unrhyw benderfyniad rheoleiddio posibl ar draws yr ystod o randdeiliaid, mae ystyried risg wrth galon ein gweithgareddau.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi darlun cryno o rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i wella rhagor ar y fframwaith rheolaeth.

## Rheoliad Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd ar Diogelu Data (GDPR)

Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi sefydlu rhaglen waith a oedd wedi cael ei dylunio i sicrhau bod Ofcom yn barod ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data pan fyddai'n dod i rym ym mis Mai 2018. Fel rhan o'r rhaglen hon roedd Deloitte LLP wedi cwblhau asesiad parodrwydd ar gyfer GDPR a chynhyrchu map wedi'i dargedu at fynd i'r afael â chanfyddiadau thematig yr asesiad parodrwydd.

Sefydlwyd Grŵp Llywio, sy'n cynnwys arbenigwyr a chynrychiolwyr o bob rhan o'r sefydliad, er mwyn goruchwylio'r rhaglen waith. Mae'r Grŵp Llywio yn adrodd yn rheolaidd i Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom ac i'r Pwyllgor Risg ac Archwilio ac i'r Bwrdd yn ôl yr angen.

## Trefniadau diogelwch ffisegol a phersonol

Mewn cyd-destun o lefel uwch o fygythiad yn y DU a phroffil cyhoeddus uwch Ofcom oherwydd ein cyfrifoldebau newydd i reoleiddio'r BBC, rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n trefniadau diogelwch ffisegol a phersonol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys cyfres o drafodaethau gyda sefydliadau yn y DU sydd â phroffil risg tebyg i Ofcom, ac roeddem wedi ymgysylltu ag arbenigwyr diogelwch. Roeddem wedi cynnal adolygiadau diogelwch yn ein pencadlys yn Riverside House yn ogystal ag ym mhob un o'n swyddfeydd yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau. Mae'r gwelliannau i'n rhaglen ddiogelwch wedi gwella ein mesurau diogelwch presennol ond ar ben hynny maen nhw'n caniatáu i ni ymateb yn fwy effeithlon ac effeithiol i unrhyw gynnydd yn y bygythiad.

## Cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr/adfer ar ôl argyfwng/parhad busnes

Yn ystod 2017/18 roeddem wedi cynnal dau ymarfer digwyddiad mawr gydag Uwch Dîm Rheoli Ofcom. Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r ddau ymarfer, mae ein cynlluniau rheoli digwyddiadau mawr wedi cael eu diweddaru. Fel rhan o ymarfer ehangach gyda'r Uwch Dîm Rheoli ym mis Mai 2018, cynhaliwyd gweithdai digwyddiadau mawr gyda TGCh a'r Tîm Cyfathrebu,

Mae symud i weithio'n ystwyth a'r buddsoddiad yn ein seilwaith TGCh wedi cyflwyno diwylliant o gynllunio adfer ar ôl argyfwng a pharhad busnes 'drwy ddyluniad'. Mae'r rhaglen i wneud ein hystad gweinydd yn rhithiol a symud gwasanaethau i'r cwmwl wedi caniatáu i ni brofi ein gallu i adfer ar ôl argyfwng ar sail fesul gwasanaeth ac roeddem wedi diweddaru ein cynlluniau parhad busnes yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu'r newidiadau i'n hystad eiddo a'r symud i weithio'n ystwyth.








## Diogelwch gwybodaeth

Roedd gwaith wedi parhau yn ystod y flwyddyn i ffurfioli ein system rheoli diogelwch gwybodaeth a chryfhau ein hamddiffynfeydd yn erbyn ymosodiadau seiber. Rydym wedi mabwysiadu'r fframwaith polisi ar gyfer seiberddiogelwch sydd wedi cael ei sefydlu gan lywodraeth y DU ac sy'n cael ei oruchwylio gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol. Mae'r fframwaith yn cynnwys dwy elfen:

- '10 Cam at Seiberddiogelwch' sy'n amlinellu set sylfaenol o fesurau ar gyfer amddiffyniad rhag ymosodiadau seiber; a
- 'Hanfodion Seiberddiogelwch' sy'n caniatáu i sefydliadau ddangos eu bod yn cyrraedd safon o barodrwydd seiber sydd wedi cael ei chymeradwyo gan y llywodraeth.

Roedd Ofcom wedi cael ardystiad Cyber Essentials ym mis Hydref 2017. Ochr yn ochr â'r gwaith yma rydym wedi datblygu strategaeth diogelwch TGCh a map i sicrhau ein bod yn rhoi rheolaethau diogelwch priodol ar waith. Roedd asesiad aeddfedrwydd yn ôl ISO27001 wedi cyfrannu at y strategaeth a'r map. Yn ystod y flwyddyn roeddem wedi penodi rheolwr diogelwch gwybodaeth penodol i arwain y rhaglen waith i wella ein system rheoli diogelwch gwybodaeth.

## Polisi chwythu'r chwiban a llinell gymorth

Roeddem wedi gwneud rhai mân newidiadau i'n polisi chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn, yn benodol i'w gwneud hi'n haws i gydweithwyr ddatgelu o dan y polisi.

Ar ben hynny, rydym yn cyflwyno llinell gymorth sy'n cael ei chynnal a'i gweinyddu'n allanol sy'n caniatáu i gydweithwyr ddatgelu'n ddienw.



**Ffigur 12:** Hierarchaeth risg Ofcom






## Rheoli risg

Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Wrth roi cymorth i'r Bwrdd, mae'r Bwrdd Rheoli a Pholisi a'r Bwrdd Gweithrediadau yn gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n codi yn sgil datblygiadau rheoleiddio a gweithredol penodol.

I sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn gydnaws â gofynion y sefydliad, mae adolygiad o'n fframwaith rheoli risg yn cael ei gynnal bob hyn a hyn fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol. Mae'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad yn ffurfio rhan o raglen barhaus i wella ein fframwaith rheoli risg.

Mae polisi a gweithdrefnau rheoli risg Ofcom yn diffinio'n glir ei ddull o reoli risg, yn ogystal â phennu'r swyddogaethau, yr atebolrwyddau a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad.

Mae cofrestr risgiau strategol Ofcom yn cael ei hadolygu'n fisol gan y Bwrdd Rheoli a Pholisi, a bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Bob chwarter, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r prif Fwrdd ar ganlyniad adolygiad y Pwyllgor o'r gofrestr risgiau strategol. Ar ben hynny, ym mis Ionawr 2018 roedd y prif Fwrdd wedi cynnal adolygiad mwy ffurfiol o'r gofrestr risgiau strategol. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd y gofrestr risg strategol i esblygu, i sicrhau ei bod yn gadael i'r Bwrdd Rheoli a Pholisi ganolbwyntio ar y prif risgiau a allai danseilio gallu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion.

Caiff risgiau ar lefel grŵp eu hadolygu gan y Cyfarwyddwyr Grŵp, eu timau o uwch reolwyr a'r Rheolwr Risg ac Yswiriant fesul mis, a'u cynnwys ar y gofrestr risgiau strategol pan fo'n briodol. Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ganfod, i asesu ac i reoli risg yn unol â pholisi Ofcom i wreiddio a chefnogi diwylliant o reoli risg yn dda. Wrth gefnogi rôl uwch reolwyr yn hyrwyddo'r broses risg, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant, ynghyd â'r Partneriaid Busnes Cyllid a Dadansoddwyr, yn gweithio ar draws pob adran yn y sefydliad i hyrwyddo ac integreiddio'r broses rheoli risg, ac i gefnogi cydweithwyr a rhoi gwybodaeth iddynt.

Mae gan Ofcom ddatganiad am ei archwaeth at risg, a gymeradwyir gan y Bwrdd. Fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Ionawr 2018. Mae'r gwaith wedi parhau i wreiddio'r broses o ystyried archwaeth risg ym mhrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r sefydliad.

Mae'r tabl ar dudalen 33 yn dangos rhai o'r prif risgiau sy'n cael eu rheoli gan y sefydliad.



## Sicrwydd annibynnol dros reolaethau mewnol

Mae Ofcom yn rhoi ei swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol i KPMG. Mae KPMG yn cyflawni ei waith yn unol â'r Cynllun Mewnol Archwilio Mewnol Blynyddol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn flynyddol. Yn cyfrannu at y cynllun mae cyfweliadau gyda rhanddeiliaid, asesiad cyfnodol o drefniadau rheoli risg, gwerthusiad o ganlyniadau archwiliadau mewnol y flwyddyn flaenorol, ac ystyriaeth barhaus o'r amgylchedd mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Yn ystod 2017/18 cafodd archwiliadau mewnol eu cynnal, gan gynnwys rheolaethau ariannol, model cyllido newydd Ofcom, dyrannu costau a gosod tariffau, adolygiad o barodrwydd arwerthiant sbectrwm symudol, prosiect clirio'r band 700MHz, trwyddedu sbectrwm gan gynnwys PMSE, Rheolaethau Cyffredinol TG, Cynllunio Parhad Busnes, Adfer ar ôl Argyfwng a Rheoli Digwyddiadau Mawr, Diogelwch Gwybodaeth, Risg Twyll a gwerthusiad lefel uchel o'r Datganiad Llywodraethu.

## Datgelu er lles y cyhoedd

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond yn y sector cyfathrebiadau, gysylltu ag Ofcom os oes ganddynt bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2017/18, ni chafodd Ofcom unrhyw ddatgeliadau o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 neu fel arall.

## Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Y Cyfarwyddwyr Grwpiau sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Y fframwaith hwn yw sail gwaith y drefn archwilio mewnol a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu a goruchwylio mewn modd strategol y trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan gyfarwyddwyr ar eu meysydd cyfrifoldeb, a thrwy adroddiadau penodol i'w trafod gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried:

- adroddiadau archwilio mewnol unigol, ymatebion rheolwyr a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yng nghyswllt unrhyw gamau a nodwyd;
- adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol a'i farn ar ddigonolrwydd ein system rheolaeth fewnol;
- adroddiadau ac argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau strategol Ofcom, gan gynnwys pennu'r risgiau i system rheolaeth fewnol y sefydliad a gwybodaeth am y rheolaethau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau hyn; ac
- unrhyw adroddiadau ychwanegol am sicrwydd y mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi gofyn amdanynt.

Hyd y gwn i, ac ar sail y cyngor yr wyf wedi'i dderbyn gan y rheolwyr hynny sydd â chyfrifoldebau dynodedig dros reoli risgiau a'r system rheoli risgiau, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ganfyddiadau o bwys yng nghyswllt rheolaeth fewnol ar gyfer 2017/18.

**Sharon White**
**Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu**

19 Mehefin 2018



# Datganiad cyfrifoldebau

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Datganiad Cyfrifon hwn yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

## Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd, sy'n dirprwyo iddi'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol, dros yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Ddogfen Fframwaith. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw, a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

# Ein gweithwyr

Mae ein gwerthoedd yn ganolog i'n ffordd o weithredu, yn llywio ein gwaith ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'n ffordd o gydweithio er mwyn cyflawni'n blaenoriaethau.

### Gwerthoedd Ofcom

Mae gennym bedwar gwerth craidd sy'n adlewyrchu ein dymuniad i weithio mewn ffordd agored, effeithiol sy'n canolbwyntio ar bobl.

**Y rhain yw:**

- **Rhagoriaeth**
- **Cydweithio**
- **Ystwythder**
- **Grymuso**

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Fel cyflogwr, rydym yn ymrwymedig i drin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg. Rydym yn benderfynol o hyrwyddo cyfle cyfartal i bob cydweithiwr, ni waeth beth yw ei hil, ei anabledd, ei rywedd, ailbennu rhywedd, ei oed, ei grefydd neu gred na'i gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r ymrwymiad hwn wrth galon ein polisïau cyflogaeth a'n hagwedd at recriwtio a datblygu gyrfa.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn disgrifio sut y byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu. Mae'n amlinellu ein cynllun gweithredu, gan gynnwys adroddiad manwl o'n hamcanion a'n rhaglen waith. Rydym yn darparu adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Ofcom a'r Bwrdd Rheoli a Pholisi ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'n cynlluniau amrywiol o dan y Cynllun Cydraddoldeb Sengl. Ym mis Mawrth 2018 roeddem wedi cyhoeddi ein Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd.



Mae Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Ofcom yn egluro sut mae amrywiaeth a chydraddoldeb yn hanfodol i'r ffordd rydym ni'n gweithredu, fel cyflogwr ac fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU.

Mae'n adolygu'r cynnydd rydym wedi'i wneud ers sefydlu ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn 2014, ac yn amlinellu ein camau gweithredu a'n hamcanion ar gyfer 2018-2022.



Sef:

- creu gweithlu amrywiol a chynhwysol er mwyn sicrhau bod y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn y DU yn cael ei hadlewyrchu'n well;
- sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan ganolog o'n diwylliant a'n harferion gwaith er mwyn gwneud yn siŵr pawb yn deall amrywiaeth, yn cefnogi ac yn atebol am hynny; a
- sicrhau bod anghenion a buddiannau gwahanol pob unigolyn yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein gwaith rheoleiddio.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae hwn yn nodi sut byddwn yn hybu cyfle cyfartal a chysylltiadau da ar draws grwpiau o bobl wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon.

Er mwyn ein helpu i benderfynu ar yr amcanion a'r blaenoriaethau strategol yn ein cynlluniau cydraddoldeb, rydym yn cynnal adroddiad blynyddol ar broffil cydweithwyr a phrosesau Ofcom. Rydym yn monitro ein polisïau a'n harferion yn helaeth drwy arolygon ymysg cydweithwyr, ymgynghori â rhwydweithiau cydweithwyr, gan feincnodi a chynnal archwiliad cyflog cyfartal bob dwy flynedd.

Yn 2017/18 roeddem wedi ymestyn ein harchwiliad cyflog arferol i gynnwys ethnigrwydd yn ogystal â rhywedd, ac roeddem wedi cyhoeddi'r canlyniadau ym mis Mawrth 2018. Roedd y dadansoddiad o'r bwlch cyflog yn dangos ein bod wedi parhau i leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond bod angen gwneud mwy. Bydd hyn yn cynnwys parhau i symud ymlaen at ein targedau i gynyddu cyfran y menywod a chydweithwyr o leiafrifoedd ethnig sydd mewn uwch swyddi. Canfu ein harchwiliad hefyd lefel uchel o gysondeb mewn cyflog ar draws categorïau proffesiynol gwahanol, gan ddangos bod penderfyniadau ynghylch tâl yn cael eu gwneud yn ofalus, gan ystyried materion cymharol yn fewnol, a bod y bylchau cyflog a ganfuwyd mewn archwiliadau blaenorol wedi lleihau'n sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi:

- cynnal hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod i bob rheolwr;
- lansio ein proses i gyflwyno dulliau gweithio'n ystwyth, er mwyn cynnig yr amgylchedd a'r arferion gwaith sydd eu hangen arnom i gefnogi ein gwerthoedd a'n diwylliant. Bydd y newidiadau a ddaw yn sgil dulliau gweithio'n ystwyth yn gweddnewid y sefyllfa, ac rydym yn ceisio bodloni anghenion pob cydweithiwr a siapio'r ffordd rydym yn cydweithio mewn tair elfen allweddol: pobl, lle a thechnoleg;
- parhau i gefnogi a gweithio gyda'n Grŵp Anabledd a Lles;
- parhau i gefnogi a gweithio gyda'n rhwydweithiau amrywiaeth: Rhwydwaith Menywod Ofcom; y Rhwydwaith Rhieni a Gofalwyr; y Rhwydwaith Affinity sy'n cefnogi cydweithwyr a chynghreiriaid sy'n lesbaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol ac yn drawsrywiol (LGBT); a'r rhwydwaith RACE;
- lansio Rhwydwaith Gwrando, gyda gwirfoddolwyr yn cynnig cefnogaeth anffurfiol i gymheiriaid;
- cryfhau ein cefnogaeth i gydweithwyr ymhellach drwy gyflwyno gweithdai cydnerthedd. Mae'r rhain yn orfodol i'r holl reolwyr pobl, ac yn agored i bob cydweithiwr;
- cadw ein statws cyflogwr band aur ym mynegeion cydraddoldeb hiliol a rhywedd Busnes yn y Gymuned;
- gwella'n sylweddol ein sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall, sy'n edrych ar ein hagwedd at staff lesbiaidd, hoyw a deurywiol;
- comisiynu adolygiad cynhwysfawr o anabledd ac ymgysylltiad, a gynhaliwyd gan y Fforwm Anabledd Busnes a byddwn yn mynd ar drywydd argymhellion y Fforwm Anabledd Busnes.
- noddi gwobr Peirianwraig Ifanc y Flwyddyn y Sefydliad Peirianneg Trydanol, am y chweched flwyddyn yn olynol.

**Ffigur 13:** Yn 2015, gwnaethom osod y targedau canlynol ar gyfer cynyddu nifer y menywod ar draws Ofcom yn gyffredinol, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch. Yn ystod 2017, braf oedd cael dweud inni wneud cynnydd cadarnhaol gyda'r holl dargedau.

## Rhywedd

Ofcom

| | Cyfansoddiad Ofcom ar hyn o bryd | Economaidd weithgar[1] | Targedau: Erbyn 2020 |
|---|---|---|---|
| Ofcom | 46% 54% | 47% 53% | 50% 50% |
| Arbenigwyr/Uwch Reolwyr ac Arbenigwyr | 40% 60% | N/A | 40% 60% |

## Ethnigrwydd

Ofcom

| | Cyfansoddiad Ofcom ar hyn o bryd | Economaidd weithgar | Targedau: Erbyn 2020 |
|---|---|---|---|
| Ofcom | 19% Lleiafrif ethnig; 75% Gwyn; 6% Ddim yn gwybod | 13% Lleiafrif ethnig | Dim targed |
| Arbenigwyr/Uwch Reolwyr ac Arbenigwyr | 11% Lleiafrif ethnig; 83% Gwyn; 6% Ddim yn gwybod | Amh | 13% o gydweithwyr i ddod o gefndir lleiafrif ethnig |

Er ein bod yn cychwyn gyda thargedau rhywedd ac ethnigrwydd, rydym yn benderfynol o sicrhau cyfle cyfartal a darparu diwylliant cynhwysol i bob grŵp na chynrychiolir mohono'n ddigonol.

[1] (Cyfrifiad 2011)

## Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Anogir cydweithwyr i helpu i sicrhau bod Ofcom yn cael safbwyntiau amrywiol yn ei waith.

Mae ein dulliau ffurfiol arferol o hysbysu ac ymgynghori â chydweithwyr yn cynnwys:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cydweithwyr ar draws Ofcom sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys dau aelod o'r undeb);
- ein rhwydweithiau amrywiaeth cydweithwyr;
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd, i siarad â chydweithwyr, ac i glywed ganddynt;
- cyfarfodydd grŵp rhyngweithiol gyda'r Prif Weithredwr, sy'n fforwm i gydweithwyr ofyn cwestiynau iddi'n uniongyrchol;
- arolygon cydweithwyr, a hynny'n ddienw sy'n gwahodd cydweithwyr i rannu eu safbwyntiau ar amrywiaeth eang o bynciau. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen i'n gwaith yn datblygu ein sefydliad.







## Datblygiad proffesiynol

Mae ansawdd ac ymrwymiad ein pobl yn ganolog i'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau. Ganol 2017 roeddem wedi lansio menter ar draws y sefydliad: Prosiect Datblygu Cydweithwyr. Cafodd y prosiect ei lansio gyda'r nod o ddarparu nifer o lwybrau i gydweithwyr allu symud ymlaen yn y sefydliad.

Roedd y rhain yn cynnwys cyfleoedd secondiad, datblygu arweinyddiaeth a rheoli pobl, a chyfleoedd hyfforddi a mentora. Ar ben hynny, mae cydweithwyr yn cael cyfle i gysgodi'r Prif Weithredwr ac uwch gydweithwyr eraill er mwyn cael golwg ar feysydd gwaith sydd y tu allan i'w grwpiau eu hunain.

## Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Rydym yn adolygu ein polisïau a phrosesau staff yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.

Yn ystod 2017 roeddem wedi cyflwyno ein polisi gweithio'n ystwyth, a dechrau drafftio polisïau newydd gan gynnwys polisïau trawsnewid a secondiad. Ar ben hynny roeddem wedi lansio adolygiad o'n polisi a'n pecyn cymorth recriwtio cyfredol, gyda'r nod o sicrhau bod pob dull yn deg ac yn dryloyw, a bod amrywiaeth yn cael ei hystyried bob amser. Roeddem wedi symud oddi wrth yr hyn a oedd yn arfer cael ei alw yn y cynllun 'Dau Dic', i'r cynllun Hyderus o ran Anabledd newydd; rydym bellach yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Roedd hyn yn mynnu ein bod yn cynnal adolygiad o'n gweithdrefnau presennol ac yn ymrwymo i sicrhau bod anabledd ar flaen ein gwaith bob amser.

## Absenoldeb

Rydym yn hybu diwylliant lle mae presenoldeb da yn ddisgwyliedig ac yn cael ei werthfawrogi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad oes modd osgoi absenoldeb am resymau meddygol o bryd i'w gilydd.

Ein nod yw trin staff sy'n sâl yn deg ac â chydymdeimlad gan roi cefnogaeth iddynt, lle bo modd, eu cefnogi i'w galluogi i wella ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn 2017/18, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 4.9 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2016/17: 4.2 diwrnod) Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus, sef 8.5 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr yn 2017 sydd heb newid ers 2016.

# Adroddiad taliadau

Wrth baratoi'r adroddiad taliadau a sefydlu ei bolisi taliadau, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, ac yn cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol

Nid oes raid i Ofcom gydymffurfio ag Atodlen 8 i Reoliadau Grwpiau a Chwmnïau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, fel y'u diwygiwyd ym mis Awst 2013, ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn i gydymffurfio i'r graddau y mae hynny'n briodol ac yn ymarferol.



## Cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau i'w weld ar dudalen 63-64.

### Cynghorwyr

Pan fo angen, mae'r Pwyllgor Taliadau'n cael cyngor a/neu wasanaethau gan sefydliadau allanol arbenigol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Ofcom. Gan amlaf, mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwahodd y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi cyffredinol

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, o fewn y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â bod yn gorff cyhoeddus, gynnig gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Ni ddisgwylir newid yng nghyfeiriad y polisi cyffredinol dros y flwyddyn i ddod.



## Elfennau taliadau

Dyma brif elfennau taliadau'r Aelodau Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Grŵp:

### Cyflog a buddion hyblyg

Pennir cyflog sylfaenol Aelodau Gweithredol a Chyfarwyddwyr Grŵp drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau'r farchnad. Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp, sy'n caniatáu i'r unigolyn dan sylw brynu buddion penodol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol a daw unrhyw newidiadau i rym ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn.

### Buddion safonol

Mae pob un o'r Aelodau Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Grŵp yn derbyn rhai buddion safonol: yn benodol yswiriant meddygol preifat, yswiriant bywyd, amddiffyniad incwm grŵp a'r cyfle i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol yn ei ddatgelu yn y tablau taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn ei drin fel enillion trethadwy.

### Taliadau sy'n ymwneud â pherfformiad

Mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cymryd rhan mewn cynllun bonws perfformiad blynyddol, a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20% o'r cyflog, yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Mae hyn yn galluogi Ofcom i gydnabod cyfraniad y rheini sy'n perfformio'n arbennig o dda yn ystod unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol. Nid oes dim un elfen o'r bonws perfformiad yn bensiynadwy. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cymeradwyo'r bonysau perfformiad a nodir ar gyfer unigolion yn ystod y cyfnod adolygu rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, ac maent wedi cronni ond heb gael eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd bonysau blynyddol sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2017/18 yn cael eu talu ym mis Gorffennaf 2018. Nid yw Ofcom yn darparu cynllun bonws perfformiad hirdymor ar gyfer ei weithwyr.

### Datgeliad cyflog teg


Rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad. Caiff data'r datgeliad cyflog teg ei ddangos isod:

Nid ydy'r tâl canolrif yn cynnwys y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf ac mae'n seiliedig ar dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn aelodau o staff fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd tâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Ofcom yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18 yn y band £380-£385,000 (£360-365,000 yn 2016/17). Roedd hyn 6.78 gwaith (6.44 gwaith yn 2016/17) tâl canolrif gweithlu Ofcom a oedd yn £56,704 yn 2017/18 (£56,173 yn 2016/17).

Yn 2017/18, roedd taliadau'n amrywio o £17,812 i'r band uchaf £385,000 (yr ystod yn 2016/17 oedd £16,673 i £365,000). Er mwyn gallu cymharu, mae'r tâl yn cynnwys cyflog sylfaenol, tâl perfformiad, buddion hyblyg a buddion o fath arall. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, unrhyw gyfraniadau pensiwn cyflogwr na gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Ni dderbyniodd yr un gweithiwr dâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf.

| Datgeliad cyflog teg | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl yr aelod o'r Bwrdd sy'n cael y tâl uchaf (£000) | 380-385 | 360-365 |
| Tâl canolrif (£) | 56,704 | 56,173 |
| Cymhareb tâl | 6.78 | 6.44 |



## Trefniadau pensiwn

Dan drefniadau pensiwn Ofcom, mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gael fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Roedd Patricia Hodgson wedi ymddeol fel Cadeirydd Bwrdd Ofcom ar 31 Rhagfyr 2017; yn ystod ei thymor roedd hi'n derbyn pensiwn o Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt). Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol arall fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Arweiniad i'r tablau taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Uwch Dîm Rheoli, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau canlynol.

Mae'r tablau'n adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys neu'n aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli. Roedd yr unigolion hynny sydd â '+' wrth eu henw yn eu rolau am ran yn unig o flwyddyn ariannol 2016/17 neu 2017/18.

Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 83 a 85) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y tablau taliadau.

Mae'r holl Aelodau Gweithredol yn cael eu rhestru o dan yr Uwch Dîm Rheoli yn Nhabl 3.

Mae'r cyfeirnodau yn y nodiadau canllaw a ddangosir wrth ymyl enwau unigolion yn cyfeirio at y nodiadau ar y tablau taliadau ar dudalennau 83 a 85.

Mae nodyn o'r gost gyfatebol flynyddol yn cael ei ddangos o dan bob tabl er mwyn gallu cymharu'n glir â chyfanswm y costau ac er mwyn amlygu newidiadau mewn polisi tâl rhwng blynyddoedd ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu cyfanswm y costau blynyddol ar gyfer yr aelodau hynny a oedd mewn lle ar 31 Mawrth diwedd y flwyddyn ac mae dileu unrhyw amrywiadau o newidiadau mewn aelodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'r tablau canlynol yn cael eu harchwilio.

**Tabl 1:** Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom: 2017/18

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 17/18 £ | Ffioedd 16/17 £ |
|---|---|---|---|
| Y Fonesig Lynne Brindley DBE + | 1,2 | 17,716 | 42,519 |
| Yr Arglwydd Burns GCB + | 1,2 | 30,000 | - |
| Bob Downes + | 1,2 | 7,087 | - |
| Bill Emmott + | 1 | - | 25,447 |
| Y Fonesig Patricia Hodgson DBE + | 1,2 | 106,875 | 142,500 |
| Graham Mather CBE | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Baroness Noakes DBE | 1 | 70,000 | 70,000 |
| Nick Pollard + | 1 | 42,519 | 29,603 |
| Tim Suter + | 1,2 | 21,260 | - |
| Ben Verwaayen | 1 | 42,519 | 42,519 |
| | | **380,494** | **395,107** |

*Cost gyfatebol flynyddol: 2017/18 £402,595; 2016/17 £382,576*

**Tabl 2:** Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom: 2017/18

| Enw | Cyfeirnod y nodyn canllaw | Ffioedd 17/18 £ | Ffioedd 16/17 £ |
|---|---|---|---|
| Jonathan Baker + | 1,3 | 8,400 | - |
| Andrew Chitty + | 1,3 | 4,500 | 10,800 |
| Juan Andrew Colman + | 1,3 | 4,500 | 10,800 |
| Aled Eirug | 1 | 12,300 | 10,800 |
| Robin Foster | 1 | 12,300 | 10,800 |
| Zahera Harb | 1 | 12,300 | 10,800 |
| David Levy + | 1,3 | 900 | 10,800 |
| Lesley Mackenzie + | 1,3 | - | 5,400 |
| Philip Schlesinger | 1 | 12,800 | 10,800 |
| Monisha Shah + | 1,3 | 8,400 | - |
| Mary Ann Sieghart + | 1,3 | 4,500 | 10,800 |
| Janey Walker | 1 | 17,963 | 15,900 |
| | | **98,863** | **107,700** |

*Cost gyfatebol flynyddol: 2017/18 £124,950; 2016/17 £102,300*

**Tabl 3:** Taliadau Uwch Dîm Rheoli ac Aelodau Gweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom: 2017/18

| Enw | Cyfeirnod y Nodyn Canllaw | Cyflog 17/18 £ | Hawl/lwfans pensiwn 17/18 £ | Buddion hyblyg Lwfans 17/18 £ | Buddion o fath arall 17/18 £ | Bonws Perfformiad 17/18 £ | Cyfanswm taliadau 17/18 £ | Cyfanswm taliadau 16/17 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Kevin Bakhurst + | 4,5,6 | 230,000 | 34,500 | 15,000 | 2,848 | 20,000 | 302,348 | 118,763 |
| Tony Close | 4,5 | 157,210 | 23,581 | 15,000 | 2,848 | 12,000 | 210,639 | 205,544 |
| Alison Crosland | 4,5 | 197,250 | 29,588 | 15,000 | 1,139 | - | 242,977 | 250,650 |
| Lindsey Fussell + | 4,5,6 | 193,500 | 29,025 | 15,000 | 2,848 | 20,000 | 260,373 | 229,887 |
| Philip Marnick | 4,5 | 215,695 | 32,354 | 15,000 | 2,848 | - | 265,898 | 271,881 |
| Jonathan Oxley | 4,5 | 263,025 | 39,454 | 15,000 | 2,848 | 15,000 | 335,327 | 330,458 |
| James Thickett + | 3 | - | - | - | - | - | - | 49,867 |
| Steve Unger | 4,5 | 263,025 | 39,454 | 15,000 | 2,848 | 15,000 | 335,327 | 340,458 |
| Polly Weitzman | 4,5,8 | 242,534 | 36,380 | 15,000 | 2,848 | 20,000 | 316,762 | 311,887 |
| Sharon White | 4,5,7 | 333,750 | 66,750 | 15,000 | 2,848 | 33,500 | 451,848 | 430,309 |
| | | 2,095,989 | 331,086 | 135,000 | 23,925 | 135,500 | 2,721,500 | 2,539,704 |

*Cost gyfatebol flynyddol: 2017/18 £2,721,500; 2016/17 £2,663,304*

## Nodiadau i'r tablau taliadau

1. Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r flwyddyn lawn sy'n cael ei hadolygu. Mae'r ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi bod yn £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008. Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys.

   £16,800 y flwyddyn yw'r ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys (ac eithrio'r ffi a delir i Janey Walker sef £24,150 y flwyddyn i adlewyrchu ei gwaith a'i chyfrifoldebau ychwanegol am waith safonau). Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm a dalwyd dros y flwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, ran o'r flwyddyn, os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â Bwrdd Ofcom neu'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohonynt neu ysgwyddo rhagor o gyfrifoldebau, yn ystod y cyfnod dan sylw.

   Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol ar ben eu ffioedd heblaw am yr hawl i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig, gael offer TGCh ar gyfer gweithio gartref. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom fanteisio ar yr hawl hwn yn ystod y cyfnod dan sylw.



2. Penodwyd Tim Suter ar Fwrdd Ofcom ar 2 Hydref 2017, penodwyd yr Arglwydd Burns yn Gadeirydd Bwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2018, a phenodwyd Bob Downes ar Fwrdd Ofcom ar 1 Chwefror 2018. Roedd y Fonesig Lynne Brindley DBE wedi ymddeol o Fwrdd Ofcom ar 31 Awst 2017 ac roedd y Fonesig Patricia Hodgson DBE wedi ymddeol o Fwrdd Ofcom ar 31 Rhagfyr 2017. Mae'r gwerthoedd sy'n cael eu dangos yn Nhabl 1 yn adlewyrchu faint a dalwyd yn 2017/18; mae'r costau blynyddol yn cael eu dangos o dan y tabl er mwyn dileu'r amrywiadau oherwydd newidiadau mewn aelodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Dyma'r ffioedd cyfatebol blynyddol:**

Y Fonesig Patricia Hodgson
£142,500

Yr Arglwydd Burns
£120,000

Y Farwnes Noakes
£70,000


Aelodau Anweithredol y Bwrdd
£42,519

3. **Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys:** Penodwyd Monisha Shah a Jonathan Baker ar y Bwrdd Cynnwys ar 1 Hydref 2017; gadawodd Lesley Mackenzie y Bwrdd Cynnwys ar 17 Medi 2016; roedd Juan Andrew Colman, Mary Ann Sieghart ac Andrew Chitty wedi ymddeol o'r Bwrdd Cynnwys ar 31 Awst 2017; roedd David Levy wedi ymddeol o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Ebrill 2017.

   **Aelodau Gweithredol y Bwrdd Cynnwys:** Gadawodd James Thickett y Bwrdd Cynnwys ar 28 Mehefin 2016. Swm cyfwerth â blwyddyn lawn ei gyflog oedd £158,000.

4. Mae cyfanswm y taliadau blynyddol a ddangosir ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom, y maent, neu yr oeddent, yn aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli, yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad a ddyfernir ar gyfer y flwyddyn ariannol, lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn. Nid ydy hyn yn cynnwys Tony Close, a oedd yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r golofn 'buddion o fath arall' yn adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat i bob swyddog gweithredol.

5. Mae Sharon White, Alison Crosland, Philip Marnick, Jonathan Oxley, Steve Unger, Kevin Bakhurst, Lindsey Fussell a Polly Weitzman wedi bod yn aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli drwy gydol y cyfnod; mae Tony Close wedi bod yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd Cynnwys drwy gydol y cyfnod. Roedd Steve Unger wedi ymddeol ym mis Mawrth 2017 a bydd yn camu i lawr fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli a Bwrdd Ofcom ar 30 Mehefin 2018. Mae'r ffigurau a ddangosir ar gyfer 2017/18 yn adlewyrchu blwyddyn lawn o'i gyflog.



6. Ymunodd Lindsey Fussell ag Ofcom fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar 18 Ebrill 2016. Swm cyfwerth â blwyddyn lawn ei cyflog ar gyfer 2016/17 oedd £180,000. Ymunodd Kevin Bakhurst ag Ofcom fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar 31 Hydref 2016. Swm cyfwerth â blwyddyn lawn ei gyflog (2016/17) oedd £230,000.

## Contract cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr a Jonathan Oxley, Cyfarwyddwr y Grŵp Cystadleuaeth, gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am yr Arglwydd Burns a neilltuodd hyd at dri diwrnod yr wythnos a'r Farwnes Noakes a neilltuodd hyd at ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos).

Ni chafodd dim taliadau dileu swydd yn ymwneud ag aelod o'r Uwch Dîm Rheoli eu cynnwys yn y cyfrifon am y flwyddyn ar gyfer colli swydd yn ystod 2017/18.

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwr Grŵp perthnasol. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau. Bydd unrhyw ffioedd a delir i Aelod Gweithredol am benodiad o'r fath yn cael eu cadw dim ond yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Taliadau.

Mae Sharon White yn gyfarwyddwr Sadler's Wells Trust Ltd (elusen gofrestredig), ers mis Tachwedd 2017. Ni thalwyd ffi i Sharon White mewn perthynas â'r penodiad yma. Mae Sharon White hefyd yn cael £58,000 y flwyddyn fel cyfarwyddwr anweithredol Barratt Developments Plc, o fis Ionawr 2018 ymlaen; telir y ffioedd hyn yn syth i Ofcom ac nid yw Sharon White yn derbyn dim ohonynt.

Nid oes, neu nid oedd, neb ar y Bwrdd Gweithredol yn dal unrhyw gyfarwyddiaethau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

Ar ben hynny, mae Polly Weitzman, sy'n aelod o'r uwch dîm rheoli, yn cael £12,120 y flwyddyn fel cyfarwyddwr anweithredol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Prifysgol Homerton; telir y ffioedd hyn yn syth i Ofcom ac nid yw Polly Weitzman yn derbyn dim ohonynt.

Ar ran Ofcom,

**Sharon White**
**Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau**

19 Mehefin 2018

**Ben Verwaayen**
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Taliadau**

19 Mehefin 2018

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol; y Datganiad am y Llifoedd Arian; y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi dan y polisïau cyfrifyddu sydd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg cywir a theg o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2018 a'r gwarged ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail y farn**

Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (ISAa) (DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Moesegol Diwygiedig y Cyngor Adroddiadau Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar y Swyddfa Gyfathrebiadau yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

**Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn y Datganiad Cyfrifoldebau, y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny trwy gamgymeriad neu dwyll. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu wallau ac ystyrir eu bod yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (DU), rwyf yn defnyddio barn broffesiynol ac yn defnyddio amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- canfod ac yn asesu risgiau o gamddatgan sylweddol o'r datganiadau ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, yn dylunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad sylweddol sy'n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer un sy'n deillio o wall, gan fod twyll yn gallu golygu cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, anwiredd, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- dod i ddeall y rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol yn yr amgylchiadau, ond nid er mwyn mynegi barn ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y Swyddfa Gyfathrebiadau.
- gwerthuso pa mor briodol ydy'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi cael eu defnyddio a pha mor rhesymol ydy'r amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wneir gan reolwyr.
- llunio casgliad ynghylch pa mor briodol ydy defnydd rheolwyr o'r sail busnes byw cyfrifyddu ac, ar sail y dystiolaeth archwilio a gasglwyd, a oes ansicrwydd sylweddol yn bodoli sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw. Os byddaf yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd materol yn bodoli, mae'n rhaid i mi dynnu sylw yn fy adroddiad archwilio at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os ydy datgeliadau o'r fath yn annigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau'n seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gasglwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilio. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu y bydd yr endid yn rhoi'r gorau i barhau fel busnes byw.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol yn gyffredinol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a ydy'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn ffordd sy'n rhoi cyflwyniad teg.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a'r trafodion ariannol i gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Gwybodaeth Arall**

Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hynny sydd wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol ac fy adroddiad archwilio ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu sydd yn ymddangos fel camddatganiad sylweddol fel arall. Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, os byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;
- yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Swyddfa Gyfathrebiadau a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt i chi os, yn fy marn i:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**3 Gorffennaf 2018**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol,
157-197 Buckingham Palace Road,
Victoria, Llundain SW1W 9SP



C

# Datganiad Ariannol

# Datganiad o incwm cynhwysfawr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodiadau | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | **122,410** | 115,781 |
| Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | 3 | **82,077** | 24,685 |
| **Cyfanswm incwm** | | **204,487** | **140,466** |
| **Gwariant gweithredol** | | | |
| Costau staff | 4 | **(72,011)** | (68,459) |
| Costau gweithredol eraill | 6 | **(48,022)** | (45,721) |
| Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | 4,6 | **(82,078)** | (24,694) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **(202,111)** | **(138,874)** |
| **Gwarged gweithredol** | | **2,376** | **1,592** |
| Incwm/(cost) eiddo gwag | 15 | **76** | (551) |
| Incwm cyllid | | **74** | 58 |
| Costau cyllid | 15 | **(8)** | (22) |
| Incwm llog pensiwn | 19 | **390** | 475 |
| **Gwarged ar weithgareddau arferol am y flwyddyn ariannol cyn treth** | | **2,908** | **1,552** |
| Trethiant | 7 | - | - |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth** | | **2,908** | **1,552** |
| **Incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | 1,318 | 615 |
| **Cyfanswm Incwm/(gwariant) cynhwysfawr** | | **4,226** | **2,167** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 92 i 118 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad am y sefyllfa ariannol

Ar 31 Mawrth 2018

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Ar 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredolw** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | **9,524** | 6,429 |
| Asedau anniriaethol | 9 | **1,217** | 2,177 |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11 | **902** | 687 |
| Asedau buddion ymddeol | 19 | **18,169** | 17,030 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **29,812** | **26,323** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10 | **9,575** | 14,870 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 12 | **25,233** | 10,097 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **34,808** | **24,967** |
| **Cyfanswm asedau** | | **64,620** | **51,290** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13 | **33,857** | 25,348 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **30** | 84 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **33,887** | **25,432** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill - symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 14 | **1,064** | 299 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | **183** | 227 |
| Rhwymedigaethau buddion ymddeol | 19 | **1,142** | 1,214 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **2,389** | **1,740** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **36,276** | **27,172** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **28,344** | **24,118** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | **28,344** | 24,118 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **28,344** | **24,118** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 92 i 118 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 19 Mehefin 2018.

**Arglwydd Burns**
Cadeirydd

**Sharon White**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

# Datganiad am newidiadau mewn ecwiti

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2016** | | **21,951** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2016/17** | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | 615 |
| Gwarged am y flwyddyn | | 1,552 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am 2016/17** | | **2,167** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **24,118** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2017/18** | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | 1,318 |
| Gwarged am y flwyddyn | | 2,908 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am 2017/18** | | **4,226** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **28,344** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 92 i 118 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad am y llifoedd arian

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodiadau | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged gweithredol | | **2,376** | 1,592 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | | | |
| Amorteiddiad | 9 | **1,023** | 1,244 |
| Dibrisiant | 8 | **1,963** | 2,180 |
| Colled/(Elw) ar waredu asedau anghyfredol | 6 | **64** | (7) |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 10,11 | **5,080** | (5,899) |
| Cynnydd mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | 13,14 | **9,274** | 3,034 |
| Lleihad mewn darpariaethau | 15 | **(30)** | (604) |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn pensiwn ymddeol | 19 | **497** | (504) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | | **20,247** | **1,036** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a gafwyd | | **74** | 58 |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | **(5,159)** | (2,503) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | **(63)** | (131) |
| Enillion o werthu asedau anghyfredol | | **37** | 67 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(5,111)** | **(2,509)** |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| **All-lif arian net o weithgareddau cyllido** | | – | – |
| **Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **15,136** | **(1,473)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 12 | **10,097** | 11,570 |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn | | **15,136** | (1,473) |
| **Cronfeydd net terfynol** | 12 | **25,233** | **10,097** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 92 i 118 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

## 1 Y sail dros gyflwyno a'r prif bolisïau cyfrifyddu

Mae'r **Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom)** yn gorfforaeth statudol sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol Ofcom ar gyfer 31 Mawrth 2018 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy brisio rhai asedau anghyfredol, ar sail busnes byw, yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Paratoir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n llunio adroddiadau o dan IFRS ac Erthygl 4 o Reoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan fydd Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 yn eu dirymu.

Paratoir y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae Ofcom yn delio ag ef.

### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r holl safonau isod yn berthnasol i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol.

- IAS 7 Offerynnau Ariannol: Datgelu (Diwygio) sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2017 neu ar ôl hynny
- Gwelliannau blynyddol i gylch 2014-2016 yr IFRS (Mae mân newidiadau i'r safon canlynol yn berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2017 neu ar ôl hynny). Y safon hon ydy IFRS 12 Datgelu Buddiannau mewn Endidau Eraill

Mae safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau eraill i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom ac mae'r rhain yn berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

- IFRS 9 Datganiadau Ariannol Ar Wahân (Diwygio) sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2018 neu ar ôl hynny

  Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes. Nid oes gan fabwysiadu IFRS 9 unrhyw effaith sylweddol i ganlyniadau Ofcom.

- IFRS15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2018 neu ar ôl hynny

  Mae'r rheolwyr wedi ystyried Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl. Nid oes unrhyw newid yn natur, swm, amseru nac ansicrwydd y refeniw a'r llif arian yn deillio o gontractau gyda chwsmeriaid, yn dilyn mabwysiadu IFRS 15.

Mae safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau eraill i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi, a fydd yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom ac mae'r rhain yn berthnasol i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei asesu'n llawn pan fydd canllawiau ymgorffori wedi'u cyhoeddi a'r asesiad pellach wedi'i gwblhau.

- IAS 16 Prydlesi (Diwygio) sy'n berthnasol i gyfnodau blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2019 neu ar ôl hynny

### b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y taliadau sydd wedi'u derbyn neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgarwch arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau.

Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd yr incwm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn llifo i'r endid yn y dyfodol.

#### Cymorth grant

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu a chlirio sbectrwm, gorfodi cyfraith cystadleuaeth, profion budd y cyhoedd, asesiadau cyfryngau lleol, rhwystro gwefannau, cyd-fentrau, galwadau niwsans ac amddiffyn defnyddwyr. Caiff cymorth grant a geir gan yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei ddyrannu a'i gyfateb i'r costau yn y flwyddyn sy'n berthnasol iddo. Arhosodd y trefniadau cymorth grant ar gyfer ein cyfrifoldebau craidd yn weithredol yn ystod y flwyddyn ariannol tan ddiwedd mis Tachwedd 2017 pan ddechreuodd y newid yn y dull ariannu.

Mae'r rhaglen glirio 700MHz yn goruchwylio'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posibl). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EM. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu drwy gymorth grant.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom unwaith y bydd amodau'r grant wedi cael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

#### Cadw Derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr

Roedd Deddf Economi Ddigidol 2017 yn cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol sy'n symleiddio model ariannu Ofcom. Yn dilyn cydsyniad gan Drysorlys EM a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y 'Datganiad Egwyddorion' ariannu newydd, nid yw Ofcom yn derbyn cyllid cymorth grant ar gyfer ei gyfrifoldebau craidd mwyach.

Mae Ofcom yn cael cadw symiau a dderbynnir mewn cysylltiad â'i swyddogaethau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr. Caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall.

Rhoddwyd y newidiadau hyn ar waith ym mis Rhagfyr 2017. Caiff Ofcom barhau i dderbyn cymorth grant i gyflawni prosiectau mawr penodol sy'n gysylltiedig â'r Llywodraeth. Ar hyn o bryd, rydym yn cael cymorth grant mewn perthynas â rhaglen clirio'r band 700MHz.

#### Ffioedd gweinyddu gwasanaethau, rhwydweithiau a gwasanaethau post

Rhoddir cyfrif am incwm sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian gwasanaethau a rhwydweithiau a gwasanaethau post ei nodi fel incwm gohiriedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm taladwy. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel incwm cronedig a'u cyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

#### Ffioedd trwyddedau darlledu

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i'r rheini sy'n dal trwyddedau, a rhoddir cyfrif amdano ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian darlledu ei drin fel incwm gohiriedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm taladwy. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel incwm cronedig a'u cyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

#### Ffioedd ymgeisio

Ni ellir ad-dalu ffioedd ymgeisio ar gyfer darlledu a rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, ac felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

#### Incwm arall

Rhoddir cyfrif am incwm arall ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb â'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

### c) Derbyniadau a gasglwyd gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, bydd Taliadau Ychwanegol dan y Ddeddf Darlledu, derbyniadau Rhifau Daearyddol a Chosbau Ariannol y mae Ofcom yn eu codi yn cael eu had-dalu i'r Gronfa Gyfunol. Hefyd, caiff ffioedd trwyddedau y mae Ofcom yn eu codi, sy'n deillio o gyhoeddi neu adnewyddu trwyddedau dan y Deddfau Telegraffiaeth Ddi-wifr WTA, eu had-dalu i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, onid yw'r taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Mae Ofcom yn paratoi set o gyfrifon ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

### d) Prydlesi

Bydd prydlesi lle bydd y prydleswr yn agored i gyfran sylweddol o'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth berchnogaeth yn cael eu trin fel prydlesi gweithredol. Caiff taliadau a wnaed ac a gafwyd dan brydlesi gweithredol eu cydnabod fel Incwm neu Wariant ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydlesi eu cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y brydles, dros gyfnod y brydles pan na ellir ei chanslo.

### e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Mae trothwyon cyfalafu'n cael eu cymhwyso ar gyfer eitemau unigol yn hytrach na grwpiau o eitemau tebyg, oni bai y byddai effaith gwneud hynny'n cael gwared ar gyfran sylweddol o gyfanswm yr asedau cyfalaf. Mae arweiniad gan y Trysorlys ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio costau hanesyddol dibrisiedig i gynrychioli gwerth presennol asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fer neu werth isel. Mae holl asedau Ofcom yn perthyn i'r categori hwn.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff gwerth llyfr y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Prydles | Cyfnod y les |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei gyfrifo o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith

Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli'r costau a wynebwyd yn datblygu asedau diriaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u dibrisio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a waredir yn cael eu cydnabod o dan 'Colled(Elw) wrth waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Costau gweithredol eraill' yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### f) Asedau anniriaethol

Ar ôl ei gydnabod i gychwyn, mae ased anniriaethol yn cael ei gario ar ei union gost llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad sydd wedi cronni yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd a'r gwaith o'u datblygu ynghyd â ffioedd trwyddedau cysylltiedig. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500. Caiff trothwyon cyfalafu eu defnyddio gydag eitemau unigol yn hytrach na gyda grwpiau o eitemau tebyg,

oni bai y byddai effeithiau gwneud hynny'n golygu cael gwared â chyfran sylweddol o'r holl asedau cyfalaf.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os caiff ased ei greu y gellir ei ddynodi. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Caiff amorteiddiad ar gostau datblygu a gyfalafwyd ei godi ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o 3-5 mlynedd.

Mae technoleg gwybodaeth yn ymwneud â datblygu ein systemau craidd, tra mae systemau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu meddalwedd, a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Nid yw amorteiddiad yn effeithio ar yr asedau hyn wrth iddynt gael eu datblygu.

### g) Amhariad ar asedau

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth llyfr asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth llyfr yr asedau, yn unol ag IAS 36 Amhariad ar Asedau.

Caiff gwerth llyfr ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adferadwy os yw gwerth llyfr yr ased yn fwy na'i swm adferadwy amcangyfrifiedig.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

### h) Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

Symiau masnach derbyniadwy yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod i gychwyn yn ôl eu gwerth teg llai darpariaeth ar gyfer amhariad.

Mae rhagdaliadau'n daliadau sydd wedi cael eu gwneud, ond y buddion ohonynt heb gael eu defnyddio.

Incwm cronedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm

### i) Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol.

### j) Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill

Ystyr symiau masnach taladwy yw dyletswyddau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Mae symiau taladwy eraill yn cynrychioli arian sy'n ddyledus i drydydd partïon ar y dyddiad adrodd.

### k) Buddion gweithwyr

#### Cynlluniau Pensiwn

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

#### Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod dan costau staff fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr fel y'u hwynebwyd.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

#### Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddynt yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi'i ennill tra oeddent yn aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau

Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod mewn incwm cynhwysfawr arall yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn llawn yn y cyfnod y byddant yn codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, yn cael eu cydnabod mewn incwm cynhwysfawr yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o reoleiddiwr blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae hwn yn gynllun ar gyfer sawl cyflogwr, a'r cyflogwyr sy'n cyfrannu yw Ofcom, ASA ac S4C. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged ar y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

**Cynlluniau heb eu cyllido**

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio, dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau a dau gyn-Gadeirydd Postcomm. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 Buddion Gweithwyr drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

### Buddion eraill gweithwyr

**Costau ymddeol yn gynnar**

Mae'r taliad iawndal blynyddol yn rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil. O'r dyddiad ymddeol yn gynnar hyd at yr oed ymddeol, bydd y cydweithiwr yn derbyn tâl iawndal blynyddol sydd yr un faint â'r pensiwn a gedwir.

Caiff hwn ei dalu bob mis mewn ôl-daliadau, yn yr un modd â phensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

**Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr**

Dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted ag y cyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos. Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflogau, ei gynnwys fel rhan o groniadau. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

### l) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar, darpariaethau cyfreithiol ac eiddo dros ben eu cydnabod: pan fo gan Ofcom rwymedigaeth adeiladol neu gyfreithiol gyfredol yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol; pan fo'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; a phan gafwyd amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lle dros ben yn yr adeiladau y mae'n eu rhentu, llai cyfraddau disgownt priodol y farchnad. Mae'r darpariaethau'n cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Mae'r broses o ddad-ddirwyn y disgownt yn cael ei chynnwys o dan gostau cyllid yn y datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried categori'r rhwymedigaethau. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif yng nghyswllt unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

### m) Setlo hawliadau

Gwneir darpariaeth ar gyfer iawndal ac amcan gostau cyfreithiol trydydd parti o ran herio penderfyniadau rheoleiddiol Ofcom os bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

### n) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n bunnoedd yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn.

### o) Offerynnau ariannol a risg credyd

#### Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

#### Symiau masnach derbyniadwy

Ni cheir llog ar symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg. Gwneir darpariaeth os oes tystiolaeth na fydd y balansau'n cael eu hadfer yn llawn.

#### Symiau masnach taladwy

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

### p) Y dreth gyfredol

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir ganddo fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Mae modd asesu Treth Gorfforaeth ar y llog sy'n cael ei dderbyn, ac o ran incwm rhent.

### q) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgarwch mewn segment daearyddol na segment busnes, gan y cynhelir holl weithgarwch Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

### r) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r refeniw a'r treuliau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r maes y rhoddir barn arno sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Darpariaethau cyfreithiol – polisi cyfrifyddu (l)
- Cydnabod refeniw ac asesu refeniw heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)
- Rhwymedigaethau wrth gefn – efallai y bydd Ofcom yn wynebu apeliadau yng nghyswllt penderfyniadau a wneir wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau fel rheoleiddiwr. Mae nodyn 24 y cyfrifon yn nodi'r rhwymedigaeth wrth gefn ar y dyddiad adrodd. Nid yw Ofcom yn credu bod angen darpariaeth yn y cyfrifon yng nghyswllt y mater hwn yn seiliedig ar yr wybodaeth orau ar y dyddiad adrodd.

Dyma'r ffynonellau lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i werth llyfr asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (k)

## 2 Dadansoddiad Sectoraidd

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt.

Paratoir hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt Adroddiad Segmentaidd IFRS 8, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (q).

| | Rheoli sbectrwm<br>£'000 | Clirio sbectrwm<br>£'000 | Rhwydweithiau a gwasanaethau<br>£'000 | Darlledu<br>£'000 | Rheoleiddio post<br>£'000 | Gweithgareddau rheoleiddio eraill<br>£'000 | 2017/18 Cyfanswm<br>£'000 | 2016/17 Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedau a gweinyddu | - | - | 41,465 | 25,973 | 3,713 | - | **71,151** | 64,058 |
| Ffioedd ymgeisio | - | - | 100 | 510 | - | - | **610** | 668 |
| Cymorth grant | 32,099 | 85,379 | - | - | - | 1,314 | **118,792** | 74,716 |
| Cadw derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr | 18,537 | - | - | - | - | 544 | **19,081** | - |
| Incwm arall | - | - | - | - | - | - | **-** | 174 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | (21) | (3,302) | 439 | (2,750) | (391) | 67 | **(5,958)** | 619 |
| **Cyfanswm refeniw** | **50,615** | **82,077** | **42,004** | **23,733** | **3,322** | **1,925** | **203,676** | **140,235** |
| Rhent ac Incwm arall | 338 | - | 280 | 158 | 22 | 13 | **811** | 231 |
| **Incwm Gweithredol** | **50,953** | **82,077** | **42,284** | **23,891** | **3,344** | **1,938** | **204,487** | **140,466** |
| Llog sydd i'w dderbyn | 31 | - | 26 | 14 | 2 | 1 | **74** | 58 |
| **Cyfanswm incwm** | **50,984** | **82,077** | **42,310** | **23,905** | **3,346** | **1,939** | **204,561** | **140,524** |
| Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig | 87 | - | 72 | 41 | 6 | 3 | **209** | 2,857 |
| **Incwm ariannol** | **51,071** | **82,077** | **42,382** | **23,946** | **3,352** | **1,942** | **204,770** | **143,381** |
| **Cyfanswm costau** | **(51,071)** | **(82,077)** | **(42,382)** | **(23,946)** | **(3,352)** | **(1,942)** | **(204,770)** | **(143,381)** |
| **Gwarged ar sail costau ariannol** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018** | **(51,071)** | **(82,077)** | **(42,382)** | **(23,946)** | **(3,352)** | **(1,942)** | **(204,770)** | **-** |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 | (49,540) | (24,685) | (43,138) | (20,384) | (3,944) | (1,690) | **(143,381)** | |

**Mae gweithgareddau rheoleiddio eraill yn cynnwys:**

- cymorth grant yn ymwneud â gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch profion lles y cyhoedd, galwadau niwsans a diogelu defnyddwyr; ac o fis Rhagfyr 2017 ymlaen, derbyniadau WTA i dalu am y categorïau cost hyn yn unol â'n model cyllido newydd;
- incwm dyfarnwyr;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant parthed sbectrwm; ac
- incwm rhent o is-osod gofod eiddo dros ben mewn adeiladau.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, dyrennir cymorth grant a derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr sy'n cael eu cadw a'u cyfateb â chostau yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi.

Caiff y tabl uchod ei baratoi ar sail arian wedi'i addasu (adjusted cash basis), sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad.

Mae ffioedd gweinyddol a thrwyddedau Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian yn unol â'i Ddatganiad Egwyddorion Codi Tâl. Pan geir mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol ac yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Pan geir mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, caiff y diffyg ei gasglu oddi wrth y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

Mae darlledu yn cynnwys y ffi i'r BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau newydd ar reoleiddio'r BBC o 3 Ebrill 2017 ymlaen.

**Cysoni'r gwariant gweithredol â'r alldro costau gweithredol terfynol**

| | Notes | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol - Datganiad o'r Incwm Cynhwysfawr** | | **202,111** | 138,874 |
| Addasiadau o ran atebolrwydd ac asedau pensiwn | | **(581)** | 421 |
| Costau eiddo dros ben | 15 | **-** | 576 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant ac amorteiddiad | 8,9 | **2,235** | (790) |
| Taliadau rhent gwirioneddol llai gwariant | | **910** | 2,255 |
| Addasiadau eraill | | **95** | 2,045 |
| **Gwariant gweithredol - arian** | | **204,770** | **143,381** |
| Clirio sbectrwm | | **(82,077)** | (24,685) |
| Incwm Anweithredol | | **(1,094)** | (3,320) |
| **Alldro costau gweithredol terfynol** | | **121,599** | **115,376** |

## 3 Incwm

| | Ofcom<br>£'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm<br>£'000 | Cyfanswm 2017/18<br>£'000 | Ofcom<br>£'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm<br>£'000 | Cyfanswm 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant DCMS** | | | | | | |
| Rheoli sbectrwm | 32,099 | - | **32,099** | 48,226 | - | 48,226 |
| Clirio sbectrwm | - | 82,077 | **82,077** | - | 24,685 | 24,685 |
| Gorfodi'r gyfraith cystadleuaeth | 296 | - | **296** | 678 | - | 678 |
| Prawf lles y cyhoedd | 781 | - | **781** | 154 | - | 154 |
| Galwadau niwsans | 215 | - | **215** | 613 | - | 613 |
| Diogelu defnyddwyr | 21 | - | **21** | 30 | - | 30 |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **33,412** | **82,077** | **115,489** | **49,701** | **24,685** | **74,386** |
| **Cadw Derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA)** | | | | | | |
| Rheoli sbectrwm | 18,516 | - | **18,516** | - | - | - |
| Gorfodi'r gyfraith cystadleuaeth | 511 | - | **511** | - | - | - |
| Galwadau niwsans | 90 | - | **90** | - | - | - |
| Diogelu defnyddwyr | 10 | - | **10** | - | - | - |
| **Cyfanswm derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw** | **19,127** | - | **19,127** | - | - | - |
| **Incwm rhanddeiliaid** | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | 42,004 | - | **42,004** | 41,993 | - | 41,993 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 23,732 | - | **23,732** | 19,843 | - | 19,843 |
| Rheoleiddio gwasanaethau post | 3,323 | - | **3,323** | 3,839 | - | 3,839 |
| Incwm arall | 812 | - | **812** | 405 | - | 405 |
| **Cyfanswm incwm rhanddeiliaid** | **69,871** | **-** | **69,871** | **66,080** | **-** | **66,080** |
| **Cyfanswm incwm** | **122,410** | **82,077** | **204,487** | **115,781** | **24,685** | **140,466** |

Mae darlledu yn cynnwys y ffi i'r BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau newydd ar reoleiddio'r BBC o 3 Ebrill 2017 ymlaen.

Mae incwm Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'i gyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

Mae cadw derbyniadau Deddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA) yn ganlyniad i Ddeddf Economi Ddigidol 2017, a oedd yn cyflwyno gwelliannau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a dderbyniwyd yng nghyswllt ei swyddogaethau o dan WTA. O fis Rhagfyr 2017 ymlaen, caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu costau cyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer.

## 4 Costau staff

| | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2017/18 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr oedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:** | | | | | | |
| Cyflogau a buddion | 57,587 | 442 | **58,029** | 55,498 | 379 | 55,877 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 6,987 | 42 | **7,029** | 6,325 | 41 | 6,366 |
| Costau pensiwn | 5,984 | 39 | **6,023** | 5,590 | 30 | 5,620 |
| Costau ailstrwythuro | 1,453 | - | **1,453** | 1,046 | - | 1,046 |
| **Cyfanswm costau staff** | **72,011** | **523** | **72,534** | **68,459** | **450** | **68,909** |

Mae'r costau ailstrwythuro yn 2017/18 yn ymwneud â gweithgareddau ailstrwythuro a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, ac yn cynnwys croniad ar gyfer y costau hynny nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn yn ymwneud â phump (2016/17: 19) o weithwyr.

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion gweithredol ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 79 to 85.

Yn ystod y flwyddyn cafod un ar bymtheg (2016/17: 11) gweithiwr eu secondio i sefydliadau eraill, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Mae'r costau Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

## 5 Nifer y gweithwyr

| | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| **Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn)** | **868** | **828** |

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan Ofcom 893 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) (2016/17: 864).

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

## 6 Costau gweithredol eraill

| | Ofcom | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | Cyfanswm 2017/18 | Ofcom | Clirio a Dyfarnu Sbectrwm | Cyfanswm 2016/17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 76 | - | **76** | 76 | - | 76 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 13 | - | **13** | 13 | - | 13 |
| Ffioedd proffesiynol | 4,404 | 424 | **4,828** | 4,824 | 368 | 5,192 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 7,739 | - | **7,739** | 9,317 | - | 9,317 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 5,416 | - | **5,416** | 5,196 | 19 | 5,215 |
| Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 327 | - | **327** | 611 | - | 611 |
| Cynllun clirio sbectrwm | - | 81,065 | **81,065** | - | 23,614 | 23,614 |
| Staff dros dro a recriwtio | 3,051 | 46 | **3,097** | 3,577 | 172 | 3,749 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,218 | 9 | **1,227** | 1,207 | 22 | 1,229 |
| Costau eiddo | 10,310 | - | **10,310** | 5,632 | - | 5,632 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 6,952 | 6 | **6,958** | 5,891 | 38 | 5,929 |
| Colledion/(Elw) ar waredu heblaw cyfalaf | - | - | **-** | (88) | - | (88) |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 5,024 | 4 | **5,028** | 5,742 | 2 | 5,744 |
| Cerbydau | 271 | - | **271** | 254 | - | 254 |
| Dyledion gwael ac amheus | 173 | - | **173** | 61 | - | 61 |
| Amorteiddiad | 1,023 | - | **1,023** | 1,244 | - | 1,244 |
| Dibrisiant | 1,961 | 1 | **1,962** | 2,171 | 9 | 2,180 |
| Colled/(Elw) ar waredu asedau anghyfredol | 64 | - | **64** | (7) | - | (7) |
| **Cyfanswm costau gweithredol eraill** | **48,022** | **81,555** | **129,577** | **45,721** | **24,244** | **69,965** |
| **Mae'r costau uchod yn cynnwys:** | | | | | | |
| Prydlesi gweithredol – tir ac adeiladau | 6,401 | - | **6,401** | 5,638 | - | 5,638 |
| Prydlesi gweithredol – cerbydau | 127 | - | **127** | 121 | - | 121 |
| Prydlesi gweithredol – eraill | 107 | - | **107** | 100 | - | 100 |

Mae'r costau Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau gweithredu craidd Ofcom er mwyn helpu i fod yn dryloyw a rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

# 7 Trethiant

| | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **(Tâl)/credyd treth am y flwyddyn** | | |
| Tâl treth ohiriedig | - | - |
| **Trethiant** | **-** | **-** |

| **Cysoni'r tâl treth** | **2017/18 £'000** | **2016/17 £'000** |
|---|---|---|
| Gwarged cyn treth | **2,908** | 1,552 |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 20% (2016/17: 20%) | **582** | 310 |
| **Effaith treth:** | | |
| Incwm na thelir treth arno | **(40,774)** | (28,085) |
| Costau na thelir treth arnynt | **40,346** | 27,684 |
| (Lleihad)/ Cynnydd yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | **(154)** | 91 |
| **Costau treth** | **-** | **-** |

Ar y dyddiad adrodd, roedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol o £11,788k (2016/17: £12,556k). Nid oes unrhyw asedau treth gohiriedig cydnabyddedig yng nghyswllt y colledion hyn, gan nad yw'n debygol y bydd digon o incwm trethadwy'n codi y gellir defnyddio'r colledion yn eu herbyn.

## 8 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau lesddaliad £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Cyfarpar swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadurol £'000 | Cerbydau modura £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **14,146** | **1,006** | **14,126** | **7,347** | **557** | **-** | **37,182** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 298 | 66 | 1,002 | 497 | 44 | 596 | 2,503 |
| Gwarediadau | (202) | - | (2,115) | (3,821) | (59) | - | (6,197) |
| Trosglwyddiadau | - | - | (19) | - | 19 | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **14,242** | **1,072** | **12,994** | **4,023** | **561** | **596** | **33,488** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,510 | 217 | 547 | 42 | 175 | 2,668 | 5,159 |
| Gwarediadau | (397) | (124) | (432) | (123) | (84) | - | (1,160) |
| Trosglwyddiadau | - | 46 | 4 | 408 | 99 | (557) | - |
| **Cost ar 31 Mawrth 2018** | **15,355** | **1,211** | **13,113** | **4,350** | **751** | **2,707** | **37,487** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **12,210** | **628** | **11,088** | **6,840** | **250** | **-** | **31,016** |
| Tâl am y flwyddyn | 692 | 84 | 994 | 314 | 96 | - | 2,180 |
| Gwarediadau | (182) | - | (2,097) | (3,821) | (37) | - | (6,137) |
| Trosglwyddiadau | - | - | (8) | - | 8 | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **12,720** | **712** | **9,977** | **3,333** | **317** | **-** | **27,059** |
| Tâl am y flwyddyn | 591 | 80 | 722 | 480 | 90 | - | 1,963 |
| Gwarediadau | (354) | (108) | (414) | (123) | (60) | - | (1,059) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - | - |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2018** | **12,957** | **684** | **10,285** | **3,690** | **347** | **-** | **27,963** |
| **Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2018** | **2,398** | **527** | **2,828** | **660** | **404** | **2,707** | **9,524** |
| Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2017 | 1,522 | 360 | 3,017 | 690 | 244 | 596 | 6,429 |

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen clirio a dyfarnu sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri asedau Ofcom o dan Cyfarpar Maes.

# 9 Asedau anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Systemau sy'n cael eu datblygu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **7,162** | **24,290** | **1,132** | **32,584** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | - | 131 | 131 |
| Gwarediadau | (936) | (5,026) | - | (5,962) |
| Trosglwyddiadau | - | 524 | (524) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **6,226** | **19,788** | **739** | **26,753** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | - | 63 | 63 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau | 56 | 291 | (347) | - |
| **Cost ar 31 Mawrth 2018** | **6,282** | **20,079** | **455** | **26,816** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **5,362** | **23,932** | **-** | **29,294** |
| Tâl am y flwyddyn | 782 | 462 | - | 1,244 |
| Gwarediadau | (936) | (5,026) | - | (5,962) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **5,208** | **19,368** | **-** | **24,576** |
| Tâl am y flwyddyn | 713 | 310 | - | 1,023 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau | 56 | (56) | - | - |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2018** | **5,977** | **19,622** | **-** | **25,599** |
| **Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2018** | **305** | **457** | **455** | **1,217** |
| Gwerth net ar bapur 31 Mawrth 2017 | 1,018 | 420 | 739 | 2,177 |

## 10 Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Ar 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | **2,397** | 1,188 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **395** | 57 |
| Treth ar Werth sy'n dderbyniadwy | **163** | - |
| Rhagdaliadau | **5,628** | 6,258 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | **230** | 215 |
| Incwm cronedig | **694** | 6,419 |
| Incwm cronedig (Cymorth Grant DCMS) | **-** | 733 |
| Incwm cronedig (derbyniadau WTA) | **68** | - |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol** | **9,575** | **14,870** |

Mae benthyciadau staff yn ymwneud â 139 (2016/17:151) o fenthyciadau tocyn tymor i gydweithwyr i'w talu'n ôl dros 12 mis.

## 11 Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Ar 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm cronedig | 902 | 687 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol** | **902** | **687** |

## 12 Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Ar 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 25,233 | 10,097 |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | **25,233** | **10,097** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau arian sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedau ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400.

Mae'r balans arian parod ar 31 Mawrth 2018 yn adlewyrchu'r cyllid ychwanegol sy'n ymwneud â chlirio'r sbectrwm 700MHz.

## 13 Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Ar 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | **7,566** | 2,035 |
| Symiau taladwy eraill | **4,187** | 5,942 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | **-** | 61 |
| Cymorth Grant DCMS | **3,311** | 1,072 |
| Croniadau | **15,930** | 9,814 |
| Croniad cymhellion prydles | **25** | 910 |
| Incwm gohiriedig | **2,816** | 5,514 |
| Incwm gohiriedig (derbyniadau WTA) | **22** | - |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol** | **33,857** | **25,348** |

Targed y Llywodraeth ar gyfer talu i gyflenwyr yw pum diwrnod ar gyfer 80 y cant o anfonebau diamheuol. Yn ogystal â chyflenwyr bach a chanolig, mae Ofcom hefyd yn cynnwys cyflenwyr mawr yn y cynllun hwn er mwyn eu hannog i dalu'r busnesau bach sy'n eu cyflenwi nhw o fewn cyfnod llai.

O ran perfformiad Ofcom yng nghyswllt y targedau hyn yn 2017/18, llwyddwyd i gyrraedd 95.75 y cant ar gyfartaledd (2016/17: 95.46 y cant).

Mae symiau taladwy eraill yn cynnwys arian a dderbyniwyd gan y landlord parthed adnewyddu eiddo a chyfarpar y landlord.

## 14 Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol

| | Ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Ar 31 Mawrth 2017 £'000 |
|---|---|---|
| Croniad cymhellion prydles | **79** | 104 |
| Incwm gohiriedig | **985** | 195 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol** | **1,064** | **299** |

## 15 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Eiddo dros ben £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **241** | **101** | **-** | **342** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd | 22 | - | - | 22 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (28) | (576) | - | (604) |
| Darpariaeth wedi'i chynyddu | - | 551 | - | 551 |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **235** | **76** | **-** | **311** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd | 8 | - | - | 8 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (30) | - | - | (30) |
| Darpariaeth wedi'i lleihau | - | (76) | - | (76) |
| **Cyfanswm darpariaethau ar 31 Mawrth 2018** | **213** | **-** | **-** | **213** |

Cyfrifir y darpariaethau yn unol â gofynion IAS 37. Bydd disgownt o 0.10 y cant ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar (2016/17 0.24 y cant)y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 0 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr o 0.54 y cant (2016/17: 0.29 y cant) ac ar gyfer darpariaethau â therfyn amser o 5 i 10 mlynedd, y gyfradd tymor canolig o 1.13 y cant (2016/17: 1.12 y cant).

Nid oes darpariaeth ar gael ar gyfer eiddo dros ben (2016/17: dau) yn y flwyddyn ariannol hon, gan ein bod ni bellach wedi ildio'r gofod dros ben ym mhrif swyddfa Ofcom.

| Dadansoddiad o pryd y disgwylir y llifoedd arian | Ymddeol yn gynnar £'000 | Eiddo dros ben £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfredol** | | | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 30 | - | - | 30 |
| **Cyfanswm cyfredol** | **30** | **-** | **-** | **30** |
| **Anghyfredol** | | | | |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 66 | - | - | 66 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 117 | - | - | 117 |
| **Cyfanswm anghyfredol** | **183** | **-** | **-** | **183** |
| **Cyfanswm darpariaethau ar 31 Mawrth 2018** | **213** | **-** | **-** | **213** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £213k (2016/17: £235k) ar gyfer Taliadau Iawndal Blynyddol (ACP). Mae'r taliadau iawndal blynyddol yn rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

## 16 Ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol

| | | | | Ar 31 Mawrth 2018 | | | | Ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Total £'000 | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Dyma gyfanswm y taliadau prydlesi lleiaf dan brydlesi gweithredol yn y dyfodol:** | | | | | | | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 6,175 | 50 | 71 | **6,296** | 6,810 | 37 | 93 | **6,940** |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 22,618 | - | - | **22,618** | 22,707 | - | 65 | **22,772** |
| Hwyrach na phum mlynedd | 45,522 | - | - | **45,522** | 51,446 | - | - | **51,446** |
| **Cyfanswm ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol** | **74,315** | **50** | **71** | **74,436** | **80,963** | **37** | **158** | **81,158** |

Llofnodwyd cytundeb prydles newydd ar gyfer prif swyddfa Ofcom ym mis Mai 2016 a newidiodd dyddiad dod i ben y brydles o fis Medi 2018 i fis Medi 2030 dan delerau newydd. Yn ogystal, cytunodd Ofcom ar brydlesi ym mis Ebrill 2016 ar gyfer swyddfa newydd yn Warrington gyda'r brydles yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2026, ac ym mis Mehefin 2016 ar gyfer swyddfa newydd yng Nghaeredin gyda'r brydles yn dod i ben ym mis Mai 2021.

## 17 Symiau derbyniadwy dan lesoedd gweithredol

| | Ar 31 Mawrth 2018 Adeiladau £'000 | Ar 31 Mawrth 2017 Adeiladau £'000 |
|---|---|---|
| **Dyma'r taliadau prydles lleiaf sy'n dderbyniadwy dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo yn y dyfodol:** | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 67 | 872 |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 8 | 193 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy dan lesoedd gweithredol** | **75** | **1,065** |

Mae Ofcom wedi llofnodi contractau is-osod mewn perthynas â lle dros ben mewn sawl un o'i swyddfeydd ac wedi lleihau ei ofod swyddfa yn ei brif swyddfa ers mis Mehefin 2017. Mae gan y lesoedd gweithredol sydd ar ôl opsiwn i aildrafod neu les sy'n dod i ben yn 2018/19.

## 18 MG Alba

Yn unol ag Adran 210 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 o Ddeddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £13,500k (2016/17: £12,865K) i Ofcom. Nid yw'r symiau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y cyfrifon hyn ond fe'u talwyd gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi cyfrifon ac adroddiadau ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

## 19 Rhwymedigaethau buddion ymddeol

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

**a) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio - cynllun pensiwn cyfranddeiliaid**

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £5,426k yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 (2016/ 17: £5,025k). Mae adran cyfraniadau wedi'u diffinio hefyd yng Nghynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom.

Ond, mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

**b) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio**

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 oedd £6k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2016/17: £9k). Trosglwyddwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £360k o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 (2016/17: £360k); a
- Chynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC yn flaenorol) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 oedd £10k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2016/17: £9k). Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £180k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 (2016/17: £180k).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian Ofcom i'r ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiadau ariannu o dan y Ddeddf Pensiynau, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2015 – eu cwblhau ar gyfer y ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio ac, yn wahanol i IFRS, roedd yn dangos gwarged cyfun o £1,345k. Dyddiad dod i rym y gwerthusiadau cyllid nesaf fydd 31 Mawrth 2018.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun oherwydd y prisiadau hyn. Dan yr amserlenni presennol, byddai Ofcom yn disgwyl cyfrannu £540k i'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau.

Mae'r cyfraniadau hyn i'w talu o'r Ymddiriedolaeth Bwydo. Mae Ofcom hefyd wedi cytuno i dalu ardollau eraill yn uniongyrchol. Talwyd £555k yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2018 (gan gynnwys y cyfraniad a dalwyd o'r Ymddiriedolaeth Bwydo).

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall.

Nid yw Ofcom wedi gwneud unrhyw gyfraniad yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 i'r Ymddiriedolaeth Bwydo (2016/17: £1,000k). Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2018 oedd £8,313k (2016/17: £8,842k).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol, yr Awdurdod Radio a Postcomm, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

**Crynodeb o rwymedigaethau pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio Ofcom**

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir | Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu | Cyfanswm buddion ymddeol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2018 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2017 £'000 |
| Statws ariannu, diwedd y flwyddyn | | | | | | |
| – rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiriedig | (90,596) | - | **(90,596)** | (92,044) | - | **(92,044)** |
| – rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr | (174,962) | (1,142) | **(176,104)** | (182,833) | (1,214) | **(184,047)** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau buddion** | **(265,558)** | **(1,142)** | **(266,700)** | **(274,877)** | **(1,214)** | **(276,091)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 283,727 | - | **283,727** | 291,907 | - | **291,907** |
| **Statws ariannu** | **18,169** | **(1,142)** | **17,027** | **17,030** | **(1,214)** | **15,816** |

Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd ar gael i Ofcom yn sgil hynny. Priodolir yr holl warged i'r Cynllun Buddion wedi'u Diffinio a'r Cyfrif Bwydo y mae iddo werth economaidd, gan fod modd i Ofcom ei adfer.

Newidiadau yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2018

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Cynllun pensiwn a ariennir £'000 | Pensiynau na chânt eu hariannu £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2017 | (274,877) | 291,907 | 17,030 | (1,214) | 15,816 |
| Costau gweinyddu | - | (597) | (597) | - | (597) |
| Incwm/(cost) llog | (6,730) | 7,149 | 419 | (29) | 390 |
| Cyfraniadau cyflogwyr | - | 16 | 16 | - | 16 |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 11,430 | (11,430) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 84 | 84 |
| Cyfanswm y buddion a dalwyd | 11,430 | (11,430) | - | 84 | 84 |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | 4,619 | (3,318) | 1,301 | 17 | 1,318 |
| Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2018 | (265,558) | 283,727 | 18,169 | (1,142) | 17,027 |

Newidiadau yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth 2017

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Cynllun pensiwn a ariennir £'000 | Pensiynau na chânt eu hariannu £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2016 | (242,617) | 257,987 | 15,370 | (1,148) | 14,222 |
| Costau gweinyddu | - | (597) | (597) | - | (597) |
| Incwm/(cost) llog | (8,042) | 8,555 | 513 | (38) | 475 |
| Cyfraniadau cyflogwyr | - | 1,018 | 1,018 | - | 1,018 |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 12,278 | (12,278) | - | - | - |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | - | - | - | 83 | 83 |
| Cyfanswm y buddion a dalwyd | 12,278 | (12,278) | - | 83 | 83 |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | (36,496) | 37,222 | 726 | (111) | 615 |
| Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2017 | (274,877) | 291,907 | 17,030 | (1,214) | 15,816 |

| 31 Mawrth 2018 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr:** | | | |
| **Cost gwasanaeth** | **-** | **-** | **-** |
| Incwm/(cost) llog | 419 | (29) | 390 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr** | **419** | **(29)** | **390** |
| Costau gweinyddu | (597) | - | (597) |
| **Incwm net/(cost) a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr** | **(178)** | **(29)** | **(207)** |

| 31 Mawrth 2018 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 5,832 | 17 | 5,849 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | - | - | - |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (1,213) | - | (1,213) |
| **Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **4,619** | **17** | **4,636** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (3,318) | - | (3,318) |
| **Enillion/(colledion) net** | **1,301** | **17** | **1,318** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

| 31 Mawrth 2017 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr:** | | | |
| **Cost gwasanaeth** | **-** | **-** | **-** |
| Incwm/(cost) llog | 513 | (38) | 475 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr** | **513** | **(38)** | **475** |
| Costau gweinyddu | (597) | - | (597) |
| **Incwm net/(cost) a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr** | **(84)** | **(38)** | **(122)** |

| 31 Mawrth 2017 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nad yw'n cael ei ariannu £'000 | Cyfanswm pensiynau £'000 |
|---|---|---|---|
| **Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:** | | | |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (38,088) | (111) | (38,199) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (220) | - | (220) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | 1,812 | - | 1,812 |
| **Cyfanswm enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **(36,496)** | **(111)** | **(36,607)** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | 37,222 | - | 37,222 |
| **Enillion/(colledion) net** | **726** | **(111)** | **615** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

**Dyma brif gategorïau asedau'r cynlluniau fel canran o gyfanswm asedau'r cynlluniau:**

| | 31 Mawrth 2018 (%) Cyfanswm | 31 Mawrth 2017 (%) Cyfanswm |
|---|---|---|
| Ecwitïau byd-eang (ddim yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 4 | 4 |
| Ecwitïau byd-eang (yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 4 | 4 |
| Bondiau corfforaethol | 3 | 3 |
| Bondiau'r llywodraeth sy'n gysylltiedig â'r Fynegai | 4 | 4 |
| Portffolio buddsoddiadau a ysgogir gan rwymedigaethau | 6 | 6 |
| Blwydd-daliadau | 76 | 76 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg buddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisïau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau ac mae gan Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giltiau a bondiau, pan ellir fforddio gwneud hynny.

**Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:**

| | 31 Mawrth 2018 (%) Cyfanswm | 31 Mawrth 2017 (%) Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 2.55 | 2.50 |
| Chwyddiant Prisiau Manwerthu | 3.10 | 3.20 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI) | 3.10 | 3.20 |
| - Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%) | 1.90 | 1.95 |

**Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân ac mae'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn:**

| | y Cynllun | y Cynllun | y Cynllun ITC | y Cynllun ITC |
|---|---|---|---|---|
| Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n . . . | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** | **40 oed ar hyn o bryd** | **60 oed ar hyn o bryd** |
| - Gwryw | 29 | 28 | 31 | 29 |
| - Benyw | 32 | 30 | 33 | 31 |

**Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd:**

| Newid mewn rhagdybiaethau | Effaith ar | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | y Cynllun | | | y Cynllun ITC | | |
| | Rhwymedigaethau o ran y buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Gwarged statws ariannu £'000 | Rhwymedigaethau o ran y buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Gwarged statws ariannu £'000 |
| **Cyfradd ddisgownt** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | gostyngiad o £6,854 | gostyngiad o £6,458 | codiad o £396 | gostyngiad o £12,191 | gostyngiad o £12,185 | codiad o £6 |
| Yn gostwng 0.50% | codiad o £7,680 | codiad o £7,210 | gostyngiad o £470 | codiad o £13,052 | codiad o £13,046 | gostyngiad o £6 |
| **Chwyddiant Prisiau Manwerthu** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | codiad o £7,442 | codiad o £6,672 | gostyngiad o £770 | codiad o £10,571 | codiad o £10,566 | gostyngiad o £5 |
| Yn gostwng 0.50% | gostyngiad o £6,725 | gostyngiad o £6,035 | codiad o £690 | gostyngiad o £10,085 | gostyngiad o £10,080 | codiad o £5 |
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed** | | | | | | |
| Yn codi - blwyddyn | codiad o £2,375 | codiad o £503 | gostyngiad o £1,872 | codiad o £6,863 | codiad o £6,859 | gostyngiad o £4 |
| Yn gostwng - blwyddyn | gostyngiad o £2,350 | gostyngiad o £708 | codiad o £1,642 | gostyngiad o £6,795 | gostyngiad o £6,791 | codiad o £4 |

**Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio**


Mae'r siartiau isod yn dangos y buddion y disgwylir eu talu dan y Cynlluniau perthnasol adeg y prisiad actiwaraidd mwyaf diweddar (Mawrth 2015) dros yr 80 mlynedd nesaf.

Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr.

Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian wrth ymddeol.


**Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom**

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 21 mlynedd




**Cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt)**

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 13 mlynedd




## 20 Offerynnau ariannol

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32, Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg o'i gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi gwargedion o gronfeydd. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth llyfr y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, caiff symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 21 Partïon cysylltiedig

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth reoleiddio a

thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Related Party Disclosures.

Nid yw Aelodau'r Bwrdd wedi datgan bod ganddynt fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaethau fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodion rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Darperir manylion yr holl incwm grant gan yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nodyn 2, 3, 10 ac 13 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 19 am ddatgeliad pellach.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd y symiau taladwy canlynol yn cael eu dal yng nghyswllt cymorth grant a ddarparwyd gan yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Clirio a dyfarnu sbectrwm – £3,302k (2016/17: £833k);
- Sectorau eraill (gan gynnwys swyddogaethau nad oes modd eu cyllido drwy ffioedd a thaliadau a bennir o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003) – Dim (2016/17: £126k)

Ar 31 Mawrth 2018, roedd y symiau derbyniadwy canlynol yn cael eu dal yng nghyswllt cymorth grant a oedd yn ddyledus gan yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon:

- Rheoli Sbectrwm – Dim (2016/17: £629k);

Ni chafwyd dim trafodion partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 22 Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2018, roedd ymrwymiadau cyfalaf o £4,718k, yn bennaf oherwydd gwaith adnewyddu ym mhrif swyddfa Ofcom (2016/17: Dim).

Mae £2,269k o'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i ymrwymiad cyfalaf y landlord ar gyfer y gwaith adnewyddu ar gyfer ei eiddo ei hun.'

## 23 Derbyniadau a drosglwyddwyd i'r/o'r Gronfa Gyfunol

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £57,032k (2016/17: £9,370k) o Daliadau ychwanegol, Rhifau Daearyddol a Dirwyon yn ymwneud â'r Ddeddf Darlledu i'r Gronfa Gyfunol.

Yn unol ag Adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, o fis Rhagfyr 2017, cadwodd Ofcom £19,081k (2016/17: Dim) o dderbyniadau WTA i dalu am ei wariant perthnasol sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm.

Roedd balans o £252,253k (2016/17: £367,329k) o ffioedd trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr wedi cael eu hanfon i'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol.

## 24 Rhwymedigaethau wrth gefn


Efallai y bydd Ofcom yn wynebu apeliadau yng nghyswllt penderfyniadau a wneir wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau fel rheoleiddiwr y sector cyfathrebiadau. Gallai apeliadau yn erbyn penderfyniadau Ofcom arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn y datganiadau ariannol am gostau i'r graddau eu bod yn debygol ac yn fesuradwy.

Fodd bynnag, ceir rhwymedigaeth wrth gefn yng nghyswllt yr hawliad gan y gweithredwyr symudol i gael iawndal am ffioedd trwyddedu blynyddol a dalwyd ganddynt ar sail penderfyniad Ofcom ym mis Medi 2015, a gafodd ei ddileu gan y Llys Apêl ym mis Tachwedd 2017. Roedd i hyn y grym cyfreithiol nad oedd rheoliadau 2015 erioed mewn grym, a bod y ffioedd trwyddedau a oedd yn bodoli eisoes, fel y nodir yn y rheoliadau a wnaed ddiwethaf yn 2011, wedi parhau i fod mewn grym trwy gydol yr amser, a'u bod yn dal i fod mewn grym heddiw. Mae'r gweithredwyr symudol wedi cychwyn achos i geisio ad-daliad am y gwahaniaeth rhwng y symiau a dalwyd o dan reoliadau 2015 a'r symiau a fyddai wedi bod yn daladwy o dan reoliadau 2011, yn ogystal â llog. Bydd yr achos cyfreithiol yn penderfynu ar y sail y dylai unrhyw iawndal (ad-daliad) gael ei gyfrifo ac, yn dibynnu ar y canlyniad, efallai y bydd angen dadansoddiad pellach i gyfrifo cwantwm, os o gwbl, iawndal o'r fath. Nes y bydd y llysoedd wedi penderfynu ar y canlyniad, a bod unrhyw ddadansoddiad angenrheidiol pellach ar y cwantwm wedi'i wneud, nid yw'n bosibl amcangyfrif yr effaith ariannol na'r tebygolrwydd o unrhyw ad-daliad a fyddai, mewn unrhyw achos, yn gorfod cael ei ariannu gan y Llywodraeth drwy gymorth grant a fyddai'n cael ei drosglwyddo drwy Ofcom.

## 25 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd dim digwyddiadau y dylid adrodd amdanynt rhwng y dyddiad adrodd a'r dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hardystio. Nid yw'r datganiadau ariannol yn dangos digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.



# Atodiad

# Byrddau, Paneli a Phwyllgorau Ofcom

## Y Bwrdd Cynnwys

Mae rhagor o fanylion am y Bwrdd Cynnwys ar gael ar dudalen 65.

| Aelodau |
| --- |
| Nick Pollard (Cadeirydd) |
| Yr Athro Philip Schlesinger |
| Dr. Aled Eirug |
| Tony Close[1] |
| Zahera Harb |
| Janey Walker |
| Robin Foster |
| Kevin Bakhurst[1] |
| Tim Suter[2] |
| Jonathan Baker[2] |
| Monisha Shah[2] |
| Dr David Levy[3] |
| Andrew Chitty[4] |
| Andrew Colman[4] |
| Mary-Ann Sieghart[4] |
| Dame Lynne Brindley DBE |

[1] Mae Tony Close a Kevin Bakhurst yn Aelodau Gweithredol i'r Bwrdd Cynnwys

[2] Penodwyd Tim Suter, Jonathan Baker a Monisha Shah i'r Bwrdd Cynnwys ar 2 Hydref 2017

[3] Roedd Dr David Levy wedi ymddeol o'r Bwrdd Cynnwys ar 30 Ebrill 2017

[4] Roedd Andrew Chitty, Andrew Colman, Mary-Ann Sieghart a Lynne Brindley wedi ymddeol o'r Bwrdd Cynnwys ar 31 Awst 2017

## Panel y Gronfa Radio Cymunedol

Mae Adran 359 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn caniatáu i gronfa gael ei sefydlu ar gyfer gweithredwyr radio cymunedol, a bod Ofcom yn gweinyddu'r gronfa honno gan "roi grantiau y mae'n eu hystyried sy'n briodol" i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol.

Mae'r Panel yn cwrdd yn ôl y gofyn i drin a thrafod ceisiadau ac i roi cyfraniadau o'r Gronfa.

Mae'n annibynnol ar y Pwyllgor Trwyddedu Darlledu, sy'n dyfarnu trwyddedau radio cymunedol.

| Aelodau |
| --- |
| Wendy Pilmer (Cadeirydd) |
| Richard Hilton |
| Fiona Lennox |




## Pwyllgor Etholiadau

Mae Adran 333 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau gwleidyddol etholiadau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys yng ngwasanaethau rhanbarthol ITV, Channel 4, Five, Classic FM, talkSPORT a Virgin 1215.

Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amseriad darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd yn ôl y galw ac mae'n cynnwys aelodau o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys a Phwyllgor Gwaith Ofcom.

## Aelodau Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Cadeirydd | John Varney | Laura Alexander[2] | Glyn Mathias | Maureen Edmondson OBE |
| Aelodau | Barnie Choudhury[2] | Peter Peacock CBE[2] | Nerys Evans[2] | Fiona Boyle[2] |
| | Graham Creelman OBE | Liz Leonard | Karen Lewis | Fiona MacMillan |
| | Andrew Chitty[2] | Ian McKay | Huw Roberts[2] | Brendan Mulgrew |
| | Becky Hogge[2] | John Trower | Hywel Wiliam | Sharon O'Connor[2] |
| | Emma Davison | Amanda Bryan[2] | Aled Eirug | Paul Wilson |
| | Caroline Roberts-Cherry | Phillip Schlesinger | Rhys Evans[2] | Andrew Colman[2] |
| | Chris Holland | Amanda Britain[1] | Andrew Board[1] | Rick Hill |
| | Alan Nunn[1] | Carmel Teusner[1] | Robert Andrews[1] | Alan Meban[1] |
| | Mark Smith[1] | David Connolly[1] | Ruth McElroy[1] | John Ellison[1] |
| | Monisha Shah[1] | Laura Anderson[1] | | Kathy Graham[1] |

[1] Penodwyd Alan Nunn a Mark Smith ar Bwyllgor Cynghori Lloegr ar 1 Chwefror 2018 a phenodwyd Monisha Shah fel arsylwr i Bwyllgor Cynghori Lloegr ar 14 Chwefror 2018. Penodwyd Amanda Britain ar Bwyllgor Cynghori'r Alban ar 1 Awst 2017, a phenodwyd Carmel Teusner, David Connolly a Laura Anderson ar Bwyllgor Cynghori'r Alban ar 1 Chwefror 2018. Penodwyd Andrew Board, Robert Andrews a Ruth McElroy ar Bwyllgor Cynghori Cymru ar 1 Tachwedd 2017. Penodwyd Alan Meban, John Ellison a Kathy Graham ar Bwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon ar 1 Medi 2017.

[2] Roedd Barnie Choudhury ac Andrew Chitty wedi ymddeol oddi ar Bwyllgor Cynghori Lloegr ar 31 Awst 2017 ac roedd Becky Hogge wedi ymddeol oddi ar Bwyllgor Cynghori Lloegr ar 15 Chwefror 2018. Roedd Amanda Bryan wedi ymddeol fel arsylwr i Bwyllgor Cynghori'r Alban ar 31 Mehefin 2017, roedd Peter Peacock CBE wedi ymddeol oddi ar Bwyllgor Cynghori'r Alban ar 31 Hydref 2017 ac roedd Laura Alexander wedi ymddeol oddi ar Bwyllgor Cynghori'r Alban ar 31 Mawrth 2018. Roedd Huw Roberts a Nerys Evans wedi ymddeol oddi ar Bwyllgor Cynghori Cymru ar 31 Hydref 2017 ac roedd Rhys Evans wedi ymddeol fel arsylwr i Bwyllgor Cynghori Cymru ar 31 Rhagfyr 2017. Roedd Andrew Colman, Fiona Boyle a Sharon O'Connor wedi ymddeol oddi ar Bwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon ar 31 Awst 2017.

### Pwyllgor Gwledydd

Mae'r Pwyllgor Gwledydd yn un o Bwyllgorau uniongyrchol Bwrdd Ofcom. Mae ei rôl yn cynnwys: deall deinameg gwleidyddol pob gwlad yn y DU a chynghori ar ymwneud Ofcom ymhob gwlad; cytuno ar brosesau priodol ar gyfer ymgysylltiad Ofcom â phob un o'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol; monitro digwyddiadau rhanddeiliaid ymhob gwlad; a monitro cyfraniad ac ymgysylltiad Bwrdd Ofcom a'r Bwrdd Cynnwys ymhob gwlad.

Mae ei aelodau'n cynnwys dau Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol pob gwlad, ynghyd ag uwch swyddogion gweithredol eraill Ofcom, yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwledydd.

### Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

Mae Adran 20 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y DU. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw darparu cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau pobl, mewn perthynas â materion cyfathrebiadau a materion post, sy'n byw yn y rhan o'r DU a wasanaethir gan y Pwyllgor.

Yn ychwanegol at aelodau penodedig y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, mae'r aelod o'r Bwrdd Cynnwys a'r aelod o Banel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y gwledydd yn cael gwahoddiad i wylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori.

## Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau

Mae Adran 16 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel hefyd yn darparu cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn adeiladol ac yn bragmataidd.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys arbenigwyr annibynnol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ac mae ganddynt brofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Ceir rhagor o wybodaeth am y Panel yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk

| Aelodau |
|---|
| Jo Connell OBE, DL (Cadeirydd) |
| Amanda Britain[1] |
| Jaya Chakrabarti MBE |
| Rhys Evans[2] |
| Rick Hill MBE |
| Chris Holland |
| Craig Tillotson |
| Richard Williams[3] |
| Bob Twitchin MBE[4] |

## Y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl

Mae Adran 21(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom sefydlu Pwyllgor i gynghori Ofcom ar faterion yn y sector cyfathrebiadau sy'n effeithio ar bobl hŷn a phobl anabl yn arbennig.

Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posibl, sefydlwyd bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff ar llall yn ystod 2012. Nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid.

| Aelodau |
|---|
| Jo Connell OBE, DL (Cadeirydd) |
| Jaya Chakrabarti MBE |
| Rhys Evans |
| Rick Hill MBE |
| Chris Holland |
| Craig Tillotson |
| Bob Twitchin MBE |

## Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Bwrdd yn www.osab.org.uk

| Aelodau |
|---|
| David Meyer (Cadeirydd) |
| Professor Linda Doyle |
| Professor Mischa Dohler |
| John Fuller (DCMS) (ex officio) |
| Wassim Chourbaj |
| Mike Walker |
| Gavin Young |
| David Harrison (ex officio) |
| Niall Murphy |
| Peter Pitsch |
| Greg Bensberg |

[1] Penodwyd Amanda Britain ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar 1 Awst 2017.

[2] Roedd Rhys Evans wedi ymddeol oddi ar y Panel ar 31 Rhagfyr 2017

[3] Penodwyd Richard Williams ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar 18 Ionawr 2018.

[4] Roedd Bob Twitchin wedi ymddeol oddi ar y Panel ar 31 Awst 2017

# Datganiadau rheoleiddio

Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2017/18, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid.

| Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol ar ran defnyddwyr |
|---|
| **Galluogi gweithredwyr sy'n cystadlu â'i gilydd i fuddsoddi mewn rhwydweithiau llinell sefydlog cyflym iawn a thra chyflym** |
| Adolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol |
| **Monitro effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio ar gyfer post** |
| Amodau Amddiffyn Defnyddwyr 2: Gweithdrefnau Gweithredol Cyffredin Post |
| **Prosiectau eraill i hyrwyddo dewis a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol** |
| Ardrethi annomestig a phris Ffeibr Tywyll rheoledig |
| **Hyrwyddo cystadleuaeth mewn gwasanaethau llinell sefydlog, drwy gryfhau annibyniaeth strategol a gweithredol Openreach ar BT** |
| Darparu Openreach sy'n fwy annibynnol |
| **Prosiectau eraill i hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol** |
| Adolygiad o'r Farchnad Band Cul: datganiad drafft |
| **Gorfodi cystadleuaeth** |
| Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd |

| Diogelu defnyddwyr rhag niwed |
|---|
| **Prosiectau eraill i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed** |
| Datganiad: Adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol |
| **Gwasanaethau rhaglenni ar-alwad** |
| Ffioedd rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad |
| Hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad |
| **Gwella'r canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid llinell dir yn unig** |
| Adolygiad o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau ffôn llinell dir yn unig |
| **Delio â chwynion** |
| Adolygu cynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod |

| Sicrhau safonau a gwella ansawdd |
| --- |
| **Sicrhau bod darlledu yn cynrychioli ac yn portreadu cymdeithas y DU yn gywir** |
| Datganiad: Diffiniad o Gerddoriaeth Newydd ar Radio 1 a Radio 2 |
| **Sicrhau ansawdd mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus** |
| Gweithgareddau masnachol y BBC: Datganiad ynghylch gofynion a chanllawiau |
| Datganiad ar weithdrefnau ar gyfer gorfodi gofynion cystadleuaeth y BBC |
| **Prosiectau eraill i sicrhau safonau a gwella ansawdd** |
| Adolygiad Strategol o UHF Band 1 a Band 2 - 410 MHz i 470 MHz |
| Adolygu'r broses o ddarparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol |
| Datganiad ar lunio'r rheoliadau ar gyfer dyfarnu'r sbectrwm 2.3 GHz a 3.4 GHz |
| Dyfarnu'r sbectrwm 2.3 a 3.4GHz drwy arwerthiant |
| Datganiad: Adolygu ffioedd trawsgludo rhoddwr symudol am y cyfnod 2018 i 2021 |
| Adolygiad o'r farchnad terfynu galwadau symudol 2018-21 |
| Datganiad ac ymgynghoriad ar fynediad sbectrwm yn y band 3.6 - 3.8 GHz |
| Gwella mynediad defnyddwyr at wasanaethau symudol yn y bandiau 3.6 GHz i 3.8 GHz |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Esemptiad) 2017 |
| **Gwella ansawdd y gwasanaeth mewn gwasanaethau telegyfathrebu sefydlog a symudol ar gyfer defnyddwyr a busnesau** |
| Iawndal awtomatig |
| Datganiad: Ansawdd gwasanaeth ar gyfer WLR, MPF a GEA |
| Y Cod Cyfathrebiadau Electronig |

Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd

Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio

Cymysg/dim newid/parhaus

Llai o reoleiddio

| Sicrhau safonau a gwella ansawdd |
|---|
| **Diogelwch a chadernid rhwydweithiau** |
| Adolygu Canllawiau Diogelwch |
| **Awdurdodi sbectrwm** |
| Gwella mynediad i sbectrwm 5.8 GHz ar gyfer mynediad band eang di-wifr sefydlog |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Gwasanaethau Cyfathrebu Symudol ar Awyrennau) (Esemptiad) 2017: Gweithredu Penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd |
| Adolygiad porth sawl-defnyddiwr masnachol |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Gwasanaethau Cyfathrebu Symudol ar Longau) (Esemptiad) 2017 |
| Gweithredu Penderfyniad y Comisiwn ar Ddyfeisiau Pellter Agos a Phenderfyniad Ofcom ar ddyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol |
| **Trwyddedau darlledu teledu a radio** |
| Radio Cymunedol: polisi trwyddedu a thechnegol i'r dyfodol |
| **Gwella darpariaeth gwasanaethau cyfathrebu sefydlog a symudol i ddiwallu anghenion defnyddwyr a busnesau ledled y DU** |
| Defnyddio y band gwarchod 700 MHz ar gyfer PMSE |
| Dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol |

| Gwaith arall ar draws ein nodau |
|---|
| Datganiad: Cynllun Blynyddol 2018-19 |
| Datganiad ac ymgynghori pellach: Adennill costau am wasanaethau eiriolaeth defnyddwyr a rheoleiddio'r post |
| Datganiad: Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant 2018-2022 Ofcom |
| Dull gweithredu Ofcom yng nghyswllt gorfodi: Diwygio'r Canllawiau Gorfodi a dogfennau cysylltiedig |
| Canllawiau gorfodi ar gyfer ymchwiliadau rheoleiddiol: Canllawiau |
| Canllawiau gorfodi ar gyfer ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gystadleuaeth; Canllawiau |
| Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri amodau sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth mewn trwyddedau dan y Ddeddf Darlledu: Canllawiau |
| Cyngor i bobl sy'n cwyno: Canllawiau ar gyflwyno cwynion i Ofcom |
| Awdurdodi rhwydweithiau symudol daearol sy'n ategu'r Gwasanaeth Lloeren Symudol 2 GHz: Datganiad am yr amodau technegol a'r ffioedd ar gyfer 2 GHz MSS Cydrannau Ategol ar y Ddaear at ddefnydd awyrofod |

Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd

Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio

Cymysg/dim newid/parhaus

Llai o reoleiddio

| Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2017/18 lle roedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith |
| --- |
| Awdurdodi rhwydweithiau symudol daearol sy'n ategu'r Gwasanaeth Lloeren Symudol 2 GHz: Datganiad am yr amodau technegol a'r ffioedd ar gyfer 2 GHz MSS Cydrannau Ategol ar y Ddaear at ddefnydd awyrofod |
| Ffioedd rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alwad |
| Hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alwad |
| Radio Cymunedol: polisi trwyddedu a thechnegol i'r dyfodol |
| Dyfarnu'r sbectrwm 2.3 a 3.4GHz drwy arwerthiant |
| Adolygiad o'r Farchnad Band Cul: datganiad drafft |
| Adolygiad Strategol o UHF Band 1 a Band 2 410 MHz i 470 MHz |
| Dull Ofcom o orfodi: Diwygio'r Canllawiau Gorfodi a dogfennau cysylltiedig |
| Canllawiau gorfodi ar gyfer ymchwiliadau rheoleiddiol: Canllawiau |
| Canllawiau gorfodi ar gyfer ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Gystadleuaeth; Canllawiau |
| Adolygiad o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau ffôn llinell dir yn unig |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Esemptiad) 2017 |
| Iawndal awtomatig |
| Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd |
| Adolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol |
| Adolygu cynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod |
| Datganiad: Ansawdd gwasanaeth ar gyfer WLR, MPF a GEA |
| Adolygu'r broses o ddarparu adroddiadau ariannol rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol |

| Ymgyngoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2017/18 a oedd yn cynnwys asesiad o effaith a lle nad oedd datganiad terfynol wedi cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2018 |
|---|
| Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig clirio'r band 700 MHz: Cefnogaeth i berchnogion offer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig |
| Cydfodolaeth gwasanaethau newydd yn y band 700 MHz gyda theledu daearol digidol |
| Adolygu'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol: Ymgynghoriad ar ddiffiniadau o'r farchnad, penderfyniadau ac atebion pŵer y farchnad |
| Adolygiadau o'r Farchnad Band Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a Mynediad Lleol Cyfanwerthol: Adolygiad o gystadleuaeth yn Ardal Hull |
| Canllawiau ar gyfer Cyfleusterau Adnabod y Llinell sy'n Galw |
| Egluro sut gall Darparwyr Cyfathrebiadau ddefnyddio rhifau ffôn symudol |
| Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Scotland |
| Hygyrchedd Cyfeirydd Rhaglenni Electronig |
| Rhifau personol - Adolygiad o'r ystod rhifau 070 |
| Strategaeth sbectrwm di-wifr sefydlog: Ymgynghoriad ar y camau nesaf arfaethedig i allu defnyddio cysylltiadau di-wifr sefydlog yn y dyfodol |
| Ymgynghoriad: Gwella darpariaeth symudol - Cynigion ar gyfer rhwymedigaethau darpariaeth wrth ddyfarnu'r band sbectrwm 700MHz |

# Rhaglen ymchwiliadau

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom yn cynnal asesiadau cychwynnol ac ymchwiliadau yn ystod 2017/181. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018.

Mae rhagor o fanylion am achosion yr ymchwiliwyd iddynt o dan y rhaglen ymchwiliadau wedi'u nodi yn Mwletin Competition and Enforcement Ofcom sydd ar gael yn:

https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/competition-bulletins

Mae'r data yn y tabl isod yn ymdrin â Thîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth a'r Tîm Gorfodi Defnyddwyr.

| Gweithgarwch | Math | Nifer | | | | Gweithgarwch parhaus (ar 31/03/2018) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Cyfanswm wedi'u derbyn i'w hymchwilio | Cyfanswm heb eu derbyn i'w hymchwilio | | |
| Asesiadau Cychwynnol | Anghydfodau | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| | Deddf cystadleuaeth | 0 | 0 | 0 | | 0 |
| | Cwynion | 2 | 2 | 0 | | 0 |
| | Liwt ein hunain | 16 | 10 | 3 | | 3 |
| | | Anghydfodau | Cyfanswm sydd wedi cael sylw | Y cyfanswm sy'n parhau ers y cyfnod adrodd blaenorol | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | |
| Anghydfodau | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deddf Cystadleuaeth | | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| ymchwiliadau eraill | | 22 | 14 | 0 | 15 | 7 |
| Rhaglenni gorfodaeth | | 7 | 3 | 4 | 1 | 6 |

# Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan wrandawyr a gwylwyr, a'u datrys, am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gennym ni, ac S4C.

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan wrandawyr a gwylwyr, a'u datrys, am raglenni radio a theledu sy'n cael eu darlledu ar wasanaethau sydd wedi'u trwyddedu gennym ni, ac S4C. Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Siarter a Chytundeb y BBC i osod gweithdrefnau ar gyfer trin a datrys cwynion a gyfeirir atom am raglenni teledu, radio ac ar-alwad y BBC (gweler tudalen 132 i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn trin cwynion ynghylch y BBC).

Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw darlledwr yn cydymffurfio neu beidio â rheolau'r Cod Darlledu,[1] neu godau eraill Ofcom.

Yn ogystal â lansio ymchwiliadau ar ôl asesu cwynion, gallwn wneud hynny ar ein liwt ein hunain hefyd. Rydym yn delio ag ymchwiliadau yn sgîl cwynion ac ymchwiliadau a roddwyd ar waith gennym ni ein hunain dan yr un gweithdrefnau.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu cael yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu mater neu raglen benodol, a gall gynnwys un gŵyn neu ragor. Caewyd cyfanswm o 5,965 achos (a oedd yn cynnwys 15,484 o gwynion) yn y cyfnod dan sylw.

## Safonau cynnwys

Mae cwynion am safonau cynnwys yn cael sylw o dan *Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio.* Mae cwynion am safonau cynnwys y BBC yn cael eu trin o dan y *Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y BBC.*[2]

## Asesiad cychwynnol o gwynion

Ar sail asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac ar ôl ystyried y cynnwys teledu neu radio perthnasol, bydd Ofcom yn ystyried a yw amodau'r Cod Darlledu (neu godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Os na, bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymchwilio ymhellach a bydd yn cyhoeddi'r penderfyniad hwn yn ei Fwletin *Broadcast and On Demand.*[3]

Aseswyd 5,774 o achosion (15,293 o gwynion) yn y ffordd hon yn ystod y cyfnod adrodd. Canfu Ofcom:

- 169 o achosion (2,053 o gwynion) wedi codi materion sylweddol a oedd yn galw am ymchwiliad pellach; a
- bod 5,605 o achosion (13,240 o gwynion) nad oedd angen ymchwilio ymhellach iddynt neu a oedd y tu allan i gylch gwaith Ofcom.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 7.9 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

[1] Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code

[2] Mae'r holl ddogfennau gweithdrefnol perthnasol ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures

[3] Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/broadcast-bulletins




## Ymchwiliadau

Os bydd achos yn codi materion a allai fod yn sylweddol, byddwn yn ymchwilio ymhellach i'r mater i benderfynu a yw amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri. Gall ymchwiliad gynnwys un neu ragor o achosion cysylltiedig yn cynnwys yr un darlledwr.

Cafodd cyfanswm o 179 o achosion ymchwilio eu cwblhau rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Canfu Ofcom:

- 110 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi arwain at gofnodi bod amodau'r Cod Darlledu (neu un o godau eraill Ofcom) wedi cael eu torri;
- bod 11 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi cael eu datrys; ac
- nad oedd 58 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt wedi torri amodau'r codau neu na pharhawyd â hwy.

Anelwn at gwblhau'r achosion hynny y penderfynwn ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 48.8 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Tegwch a Phreifatrwydd

Mae cwynion Tegwch a Phreifatrwydd yn gwynion am driniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt). Bydd y cwynion hyn yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni a ddarlledir, neu a oedd yn rhan o wneud rhaglenni, neu y mae'r rhaglenni hynny'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael sylw o dan y *Gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu yn eu cylch.*[1] Bydd cwynion am degwch a phreifatrwydd ar raglenni teledu, radio ac ar-alwad y BBC yn cael eu trin o dan y *Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad y BBC.*[2]

Cafodd cyfanswm o 191 o gwynion a oedd yn ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd eu cau.

## Asesu a Phwyso a Mesur

Mae Ofcom yn asesu pob cwyn Tegwch a Phreifatrwydd mae'n ei chael i benderfynu a ddylid pwyso a mesur y gŵyn. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y canlynol: ai'r sawl sy'n cwyno yw'r "sawl yr effeithir arno" ac a yw'n gallu cwyno; a yw'r mater y cwynir amdano yn destun achos mewn llys barn yn y DU; neu a yw'r gŵyn yn ddisylwedd.

Cafodd cyfanswm o 191 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd eu hasesu yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. O'r rhain:

- cafodd 38 achos eu derbyn i'w pwyso a'u mesur; ac
- yng nghyswllt 153 o gwynion penderfynwyd peidio â'u pwyso a'u mesur neu ni fwriwyd ymlaen â hwy cyn eu pwyso a'u mesur.

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am bwyso a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 asesodd a phenderfynodd Ofcom a ddylid pwyso a mesur cwynion Tegwch a Phreifatrwydd cyn pen 19.9 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

---

[1] Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures

[2] Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0003/100101/Procedures-for-the-consideration-and-adjudication-of-Fairness-and-Privacy-complaints.pdf






## Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei hystyried gan Ofcom, byddwn yn ymchwilio i'r mater ymhellach i benderfynu a gafodd y Cod Darlledu ei dorri. Byddwn wedyn yn gwneud ein dyfarniad terfynol.

Dyfarnwyd ar gyfanswm o 38 o gwynion yn y cyfnod dan sylw. O'r rhain:

- roedd naw o gwynion wedi'u cadarnhau;
- roedd 26 o gwynion heb eu cadarnhau;
- roedd un gŵyn wedi'i datrys (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol); ac
- ni fwriwyd ymlaen â dwy gŵyn ar ôl eu pwyso a'u mesur.

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, o fewn 90 diwrnod gwaith i bwyso a mesur y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, gwnaethom gwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 98.4 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Mae ein tîm wedi asesu ac ymchwilio i lawer iawn o achosion Tegwch a Phreifatrwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae llawer o'r rhain wedi cynnwys rhai materion gweithdrefnol a chyfreithiol cymhleth iawn. Yn anffodus, mae hyn wedi golygu ein bod wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gwblhau ein dyfarniadau.

## Sancsiynau

Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod darlledwr wedi torri amodau'r Cod Darlledu neu un o godau eraill Ofcom, ac yn credu bod yr achos hwnnw'n ddifrifol, yn fwriadol, wedi'i ailadrodd a/neu'n ddi-hid, gallwn ystyried a ydym am roi sancsiwn statudol i'r darlledwr.

Mae gan Ofcom amrywiaeth o sancsiynau ar gael, gan gynnwys: cyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu rhaglen neu hysbyseb; cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad am ganfyddiadau Ofcom; rhoi cosb ariannol[1]; cwtogi trwydded neu ei hatal; a diddymu trwydded (nid yw hyn yn berthnasol i'r BBC, S4C na Channel 4).

[1] Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EM i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, gwnaethom benderfynu rhoi'r sancsiynau statudol canlynol:

- Iman Media UK Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Iman FM – dirymu'r drwydded;
- Ariana Television and Radio Network mewn perthynas â'i wasanaeth Ariana International – cosb ariannol o £200,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom;
- Kanshi Radio Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Kanshi Radio - cosb ariannol o £17,500 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom;
- Al Arabiya News Channel FZ-LLC mewn perthynas â'i wasanaeth Al Arabiya News - cosb ariannol o £120,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom a chyfarwyddyd i beidio ag ailddarlledu'r deunyddiau perthnasol eto;
- Karimia Limited mewn perthynas â'i wasanaeth Radio Dawn - cosb ariannol o £2,000 a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom; a
- Channel Four Television Corporation mewn perthynas

â'i wasanaeth Channel 4 News – cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom.

## Cwynion a ymchwiliadau yng nghyswllt safonau cynnwys y BBC

Mae cwynion am raglenni'r BBC yn cael eu hystyried o dan fframwaith cwynion 'BBC yn Gyntaf'. Mae hyn yn golygu os oes gan rywun gŵyn am rywbeth maen nhw wedi'i weld neu ei glywed ar raglen deledu, radio neu ar-alwad, maen rhaid iddyn nhw fel rheol gwyno wrth y BBC yn y lle cyntaf. Mae modd i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio eu cwyn at Ofcom os byddant yn anfodlon ar ymateb y BBC neu os na fydd y BBC yn ymateb yn ddigon prydlon. Mae modd cyfeirio cwyn hefyd os ydy'r sawl sy'n cwyno'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn yn erbyn y BBC.

O'r cyfanswm o 15,291 o gwynion am safonau a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, roedd 139 o gwynion yn ymwneud â rhaglenni'r BBC.

Roeddem hefyd wedi cael 1,490 o gwynion ychwanegol am raglenni'r BBC pan, yn yr asesiad cychwynnol, roeddem wedi canfod nad oedd y sawl a oedd yn cwyno wedi cwblhau system gwyno'r BBC cyn cyflwyno eu cwyn i Ofcom. Yn yr achosion hyn roeddem wedi cyfeirio'r gŵyn yn ôl i'r BBC. Caiff y cwynion hyn eu cyhoeddi ar wahân o dan 'BBC yn Gyntaf' yn ein *Bwletin Broadcast and On Demand.*



Eleni, roedd Ofcom wedi cynnal ei ymchwiliad cyntaf i un o raglenni'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb newydd. Ym mis Awst 2017, roedd rhifyn o'r rhaglen Today ar BBC Radio 4 wedi cynnwys cyfweliad gyda'r Arglwydd Lawson, y Cyn Ganghellor y Trysorlys a phennaeth y Sefydliad Polisi Cynhesu Byd-eang. Roedd Uned Cwynion Gweithredol y BBC wedi cadarnhau cwynion yn rhannol ynghylch y cyfweliad hwn ac wedyn roedd dau o'r rheini a oedd wedi cwyno wedi cyfeirio eu cwynion at Ofcom. Daeth Ofcom i'r casgliad bod dau ddatganiad a wnaed yn y rhaglen gan yr Arglwydd Lawson ynghylch gwyddoniaeth pwnc newid yn yr hinsawdd yn anghywir ac nad oedd y rhain wedi cael eu herio'n ddigonol yn ystod y cyfweliad nac wedyn yn ystod y rhaglen. O ganlyniad, ein canfyddiad oedd nad oedd y rhaglen yn ddigon cywir, a oedd yn torri Rheol 5.1 o'r Cod Darlledu.

## Deunydd ar-lein y BBC

Y llynedd, roedd Ofcom wedi ysgwyddo rôl newydd yn ymwneud â chwynion ynghylch deunydd ar-lein y BBC. O dan Siarter a Chytundeb y BBC, a osodir gan Lywodraeth a'r Senedd, mae'r BBC yn gyfrifol am safonau golygyddol ei ddeunydd ar-lein. Mae gan Ofcom gyfrifoldeb i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefannau ac apiau'r BBC, fel erthyglau, delweddau a fideos. Nid yw'n cynnwys rhaglenni ar y BBC iPlayer sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau Cod Darlledu Ofcom.

Rydym yn delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan y y *Gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC.*

Dechreuodd Ofcom ystyried cwynion am ddeunydd ar-lein y BBC pan ddaeth y Ddeddf Economi Ddigidol i rym ar 27 Ebrill 2017. Rhwng y dyddiad yma a 31 Mawrth 2018 roeddem wedi cau cyfanswm o 195 o gwynion am ddeunydd ar-lein y BBC. Nid oedd angen i ni gyhoeddi barn mewn perthynas ag unrhyw un o'r cwynion a gafodd eu cau yn ystod y cyfnod adrodd yma. Cafodd 89 o gwynion eraill eu cyfeirio'n ôl i'r BBC o dan 'BBC yn Gyntaf'.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 27 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 20.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Roeddem wedi cymryd mwy o amser i asesu'r cwynion hyn nag ydym yn anelu ato, gan mai dyma oedd blwyddyn gyntaf ein dyletswydd newydd yn y maes hwn.

# Gorfodi a pheirianneg sbectrwm

## Dangosydd perfformiad allweddol

### Prif Weithgareddau

| Gweithgarwch Rhaglen Waith / Digwyddiad | Ebrill 16 - Mawrth 17 | Ebrill 16 - Mawrth 17 |
|---|---|---|
| Cwynion a gafwyd am Ymyriant[1] | 1,983 | 1,637 |
| Gwirio cydymffurfiad â thrwyddedau systemau radio[2] | 2,273 | 3,663 |
| Nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd[3] | 22 | 29 |
| Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm[4] | 10 | 7 |

### Targedau ansawdd gwasanaeth ar gyfer cwynion a gafwyd am ymyriant

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Blaenoriaeth Achos | Targed | Targed wedi'i gyflawni | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ebrill 17 - Mawrth 18 | Ebrill 16 – Mawrth 17 |
| **Amser cyn yr ymweliad cyntaf:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes). | 1 | 8 awr | - | 100% |
| | 2 | 18 awr | 100% | 100% |
| | 3 | 2 diwrnod gwaith | 100% | 96% |
| | 4 | 5 diwrnod gwaith | 96% | 94% |
| | 5 | 15 diwrnod gwaith | 100% | 100% |
| | 6 | Dim targed | - | - |
| **Datrysiad:** Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys. | 1 | 2 ddiwrnod calendr | - | 100% |
| | 2 | 3 ddiwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 3 | 6 diwrnod gwaith | 98% | 97% |
| | 4 | 20 diwrnod gwaith | 96% | 92% |
| | 5 | 40 diwrnod gwaith | 97% | 97% |
| | 6 | 60 diwrnod gwaith | 97% | 99% |

[1] Achosion ymyriant a nodwyd gan y cyhoedd a busnesau

[2] Gwaith gan Ofcom i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau neu nad oes defnydd didrwydded yn digwydd

[3] Fel arfer rhoddir Hysbysiadau Cosb Benodedig os yw rhybudd cychwynnol gan Ofcom yn cael ei anwybyddu. Gall peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig arwain at gymryd camau cyfreithiol

[4] Erlyniadau yng nghyswllt gorsafoedd radio anghyfreithlon neu fethiant i dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig

# Trwyddedu sbectrwm

## Categori A

| Trwydddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 – Mawrth 18 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 16 – Mawrth 17 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 17 |
|---|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn -DU Syml (dim gorsaf ganolog) | 1,931 | 2,165 | 13,799 | 12,281 |
| Radio Busnes Safle Syml | 1,235 | 1,100 | 9,087 | 8,110 |
| Cyflenwyr Radio Busnes Ysgafn | 337 | 121 | 1,162 | 875 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 65 | 55 | 414 | 427 |
| Ailadroddwr GNSS | 21 | 33 | 260 | 239 |
| Heddlu a Thân | 58 | 4 | 124 | 124 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **3,647** | **3,478** | **24,846** | **22,056** |
| Medrydd Lefel Radar | 0 | 0 | 124 | 124 |
| Amatur a Morol | 26,515 | 25,096 | 249,723 | 240,538 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **30,162** | **28,574** | **274,693** | **262,718** |
| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | - | - |
| DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 100% | 100% | - | - |

## Categori B

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 – Mawrth 18 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 16 – Mawrth 17 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 17 |
|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | 20 | 27 | 291 | 276 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | 17 | 21 | 407 | 412 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | 17 | 15 | 358 | 368 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | 23 | 13 | 409 | 412 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | 59 | 15 | 414 | 361 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | 21 | 1 | 84 | 80 |
| Cynnyrch Cymorth Llywio Morol a Radar | 4 | 7 | 122 | 138 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS) | 0 | 0 | 5 | 5 |
| **Is gyfanswm ar gyfer dadreoleiddio a gosod cynnyrch dan gontract** | **161** | **99** | **2,090** | **2,052** |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | 2,656 | 2,611 | 25,905 | 26,966 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | 34 | 42 | 293 | 286 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) wedi'i diffinio fesul Ardal | 4 | 1 | 8 | 3 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) wedi'i diffinio fesul Ardal | 2 | 0 | 7 | 8 |
| Radar Profi'r Tir | 24 | 40 | 224 | 215 |
| Telemetreg Sganio | 0 | 4 | 33 | 34 |
| Cysylltiadau hunangydlynol | 33 | 30 | 143 | 128 |
| **Is gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,753** | **2,728** | **26,613** | **27,640** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | **2,914** | **2,827** | **28,703** | **29,692** |
| DPA ar gyfer Categori B | 90% mewn 21 diwrnod | 79% | 98% | - |
| | 100% mewn 42 diwrnod | 99% | 99% | - |

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 – Mawrth 18 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 16 – Mawrth 17 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 17 |
|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | 2,428 | 2,734 | 26,902 | 29,848 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | 38 | 23 | 155 | 152 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | 103 | 102 | 109 | 110 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | 9 | 5 | 59 | 62 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog) | 7 | 1 | | 4 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | **2,585** | **2,865** | **27,225** | **30,176** |
| DPA ar gyfer Categori C | 90% mewn 42 diwrnod | 100% | 99% | |
| | 100% mewn 60 diwrnod | 100% | 100% | |

## Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 – Mawrth 18 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 16 – Mawrth 17 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 17 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau PMSE | 58,009 | 35,236 | 7,679 | 3,305 |
| **Cyfanswm ar gyfer PMSE** | **58,009** | **35,236** | **7,679** | **3,305** |
| DPA ar gyfer PMSE (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | - | - |

## Trwyddedau band eang di-wifr a symudol[1]

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 – Mawrth 18 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 16 – Mawrth 17 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 17 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800 MHz | | | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: 2100 MHz | | | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: Twnnel y Sianel[2] | | | 2 | 2 |
| Mynediad i Sbectrwm: 800 MHz, 2.6 GHz | | | 5 | 5 |
| Mynediad i Sbectrwm: 412 – 414 MHz | | | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1452 – 1492 MHz | | | 2 | 2 |
| Mynediad Cydamserol i Sbectrwm: 1781-1785 MHz | | | 12 | 12 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | | | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 3.5, 3.6, 10, 28, 32, 40 GHz | | 1[3] | 20 | 20 |
| Mynediad i Sbectrwm ar y Môr | | 6 | 7 | 6 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **0** | **7** | **58** | **57** |

[1] Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd yn llawn o un cwmni i'r llall, wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn

[2] Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU

[3] Y broses o rannol fasnachu'r sbectrwm 28 Ghz yn arwain at drwydded newydd sy'n cwmpasu 6 lleoliad daearyddol

## Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 – Mawrth 18 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 16 – Mawrth 17 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 17 |
|---|---|---|---|---|
| Ffonau Symudol 3G, Ynysoedd y Sianel | | | 1 | 1 |
| Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | | | 32 | 32 |
| Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28 GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | | | 9 | 9 |
| **Cyfanswm Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | **0** | **0** | **42** | **42** |

## Trwyddedau Sbectrwm y Difidend Digidol

Y sbectrwm a ryddhawyd i'w ddefnyddio mewn ffyrdd newydd yn sgîl y newid i'r digidol

| Trwyddedau DDR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 – Mawrth 18 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 16 – Mawrth 17 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 17 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd) | | | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion) | | | 1 | 1 |
| **Cyfanswm trwyddedau'r Difidend Digidol** | **0** | **0** | **2** | **2** |

## Trwyddedau sbectrwm annewisol

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn rhoi trwyddedau ar gyfer awyrennau

| Gweithgarwch partner | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 17 – Mawrth 18 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 16 – Mawrth 17 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 18 | Y Cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 17 |
|---|---|---|---|---|
| Yr Awdurdod Hedan Sifil sy'n rhoi Trwyddedau Awyrenegol | 13,555 | 6,035 | 16,290 | 13,427 |
| Cyfanswm ar gyfer Gweithgareddau Partner | 13,555 | 6,035 | 16,290 | 13,427 |
| DPA ar gyfer yr Awdurdod Hedfan Sifil (100% mewn 7 niwrnod) | 83% | 86% | | |
| **Cyfanswm** | **13,555** | **6,035** | **16,290** | **13,427** |
| **Cyfanswm nifer y trwyddedau – Pob categori** | **107,927** | **76,240** | **355,145** | **339,891** |

# Cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn rhoi data am gynaliadwyedd a'r costau ariannol yn fanylach.

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli CO2e)** | **Cwmpas 1** | Nwy | 142 | 135 | 158 | 161 | 187 |
| | | Olew | 18 | 14 | 18 | 19 | 22 |
| | | Tanwydd Fflyd | 210 | 200 | 180 | 185 | 192 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | 1,129 | 1,299 | 1,214 | 1,090 | 809 |
| | **Cwmpas 3** | Teithiau Busnes | 346 | 290 | 250 | 312 | 519 |
| | | *Hedfan* | 241 | 182 | 144 | 188 | 410 |
| | | *Domestig* | 100 | 63 | 47 | 76 | 156 |
| | | *Teithiau byr* | 83 | 71 | 30 | 79 | 164 |
| | | *Teithiau hir* | 57 | 48 | 67 | 34 | 91 |
| | | *Trên/bws/tanddaearol* | 61 | 59 | 59 | 78 | 66 |
| | | *Car/Beic Modur/Beic* | 41 | 46 | 44 | 43 | 41 |
| | | *Tacsis* | 2 | 3 | 3 | 3 | 2 |
| **Data defnydd cysylltiedig** | **Cwmpas 1** | Nwy (kWh) | 772,668 | 730,047 | 855,056 | 874,478 | 1,014,202 |
| | | Nwy fesul FTE (kWh) | 975 | 932 | 1,070 | 1,012 | 1,136 |
| | | Olew (litrau) | 7,000 | 5,697 | 7,001 | 7,500 | 8,500 |
| | | Tanwydd Fflyd (litrau) | 80,558 | 76,898 | 69,596 | 71,024 | 73,659 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan (kWh) | 2,334,436 | 2,416,678 | 2,425,743 | 2,426,666 | 2,103,652 |
| | | Trydan fesul FTE (kWh) | 2,945 | 3,086 | 3,036 | 2,808 | 2,356 |
| **Dangosyddion Ariannol** | **Cwmpas 1** | Nwy (kWh) | £33,060 | £34,677 | £27,786 | £22,293 | £19,465 |
| | | Olew | £5,317 | £3,500 | £3,504 | £2,128 | £5,530 |
| | | Tanwydd Fflyd | £113,397 | £102,026 | £78,996 | £87,398 | £93,911 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | £290,452 | £334,932 | £334,677 | £293,991 | £340,333 |
| | **Cwmpas 3** | Teithiau Busnes | £628,340 | £596,116 | £569,099 | £663,705 | £705,602 |
| | | *Hedfan* | £301,014 | £257,364 | £197,408 | £253,733 | £333,723 |
| | | *Trên/bws/tanddaearol* | £226,171 | £227,260 | £264,211 | £299,929 | £266,725 |
| | | *Car/Beic Modur/Beic* | £58,458 | £66,876 | £67,721 | £65,077 | £64,329 |
| | | *Tacsis* | £42,696 | £44,615 | £39,759 | £44,966 | £40,826 |

Roeddem wedi rhyddhau dau lawr yn ein swyddfa yn Llundain ddiwedd mis Mehefin 2017. Mae ein dwy swyddfa newydd yng Nghaeredin a Warrington wedi cael eu cynnwys yn ystod 2016/17. Mae data defnydd a chostau ar gyfer Glasgow wedi'u cynnwys. Cafodd y swyddfa hon ei hisosod ym mis Mehefin 2016. Mae data defnydd a chostau ar gyfer Project Park wedi'u cynnwys. Caeodd y swyddfa hon ym mis Mawrth 2015.

Rydym wedi ailddatgan ein data defnydd o drydan a nwy ar gyfer 2012/13 a'n defnydd o drydan ar gyfer 2015/16 yn dilyn esboniad o sut mae defnydd yn cael ei ddyrannu ar draws ein hystad.



**Cwmpas 1**

Mae hyn yn berthnasol i ddefnydd o nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnydd o danwydd yng ngheir fflyd Ofcom.

Mae'r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Belfast, Birmingham, Haydock a Livingston. Caiff costau nwy ar gyfer swyddfeydd Caeredin a Warrington eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r defnydd o nwy yn dibynnu ar y tywydd.

Mae'r data am y defnydd o olew yn berthnasol i swyddfa Ofcom yn Baldock yn unig.

Bydd Ofcom yn talu am danwydd diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi.

**Cwmpas 2**

Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Glasgow, Haydock, Warrintgon a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y DU

Ar gyfer 2012/13 mae hefyd yn cynnwys data costau o swyddfa ym Mryste. Ar gyfer y cyfnod rhwng 2012/13 a 2014/15 mae hefyd yn cynnwys y defnydd o ddŵr yn swyddfa Project Park yn Llundain. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

**Cwmpas 3**

Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o'n system cofnodi SAP ac mae'n cynnwys teithio gan bob cydweithiwr ni waeth ble maent wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithiau mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithiau mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir.

Mae'r data am hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig, teithiau byr a theithiau hir yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.



## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am y defnydd o wastraff ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, ac ar gyfer y cyfnod rhwng 2012/13 a 2014/15 mae'n cynnwys data o'n swyddfa Project Park yn Llundain hefyd.

Nid oes data cywir am y defnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi'u cynnwys.

Mae Ofcom yn talu ffi rheoli gwastraff gyffredinol nad oes modd ei rhannu yn ôl y categorïau gwastraff unigol.

Mae Ofcom yn gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

| | | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli)** | Cyfanswm gwastraff | 173 | 166 | 173 | 172 | 76 |
| | *Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | *Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu/ ailddefnyddio* | 9 | 4 | 7 | 4 | 0 |
| | *Gwastraff wedi'i ailgylchu/ ailddefnyddio* | 98 | 94 | 111 | 91 | 52 |
| | *Gwastraff wedi'i gompostio* | 14 | 14 | 13 | 14 | 4 |
| | *Gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni* | 51 | 53 | 41 | 63 | 20 |
| | *Gwastraff wedi'i losgi heb adfer ynni* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cyfanswm gwastraff fesul FTE | 0.218 | 0.212 | 0.216 | 0.199 | 0.086 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Cyfanswm gwastraff | £60,796 | £45,500 | £32,023 | £37,984 | £7,004 |





## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham, Glasgow a Haydock.

Ar gyfer y cyfnod rhwng 2012/13 a 2014/15 mae hefyd yn cynnwys y defnydd o ddŵr yn swyddfa Project Park yn Llundain. Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny.

Mae'r costau yn 2017/18 yn cynnwys nodiadau credyd gan gyflenwyr oherwydd biliau a oedd wedi codi gormod yn ystod blynyddoedd blaenorol. Caiff defnydd o ddŵr ei gyfyngu i ddefnydd gweithredol, gan gynnwys cyfleuster arlwyo ym mhrif swyddfa Ofcom yn Llundain.

| | | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | Defnydd dŵr (m3) | 13,694 | 14,213 | 10,767 | 11,282 | 9,379 |
| | Defnydd dŵr fesul FTE | 17.27 | 18.15 | 13.48 | 13.06 | 10.50 |
| | Rimiau papur | 7,721 | 5,993 | 7,545 | 6,317 | 3,915 |
| | *Rimiau A3* | 156 | 103 | 80 | 92 | 50 |
| | *Rimiau A4* | 7,565 | 5,890 | 7,465 | 6,225 | 3,865 |
| | *Rimiau A5* | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Dŵr | £20,107 | £24,931 | £16,784 | £22,248 | £6,929 |

1. Mae'r tablau uchod wedi cael eu paratoi yn unol â chanllawiau a osodwyd gan y Trysorlys: https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-annual-reports-sustainability-reporting-guidance-2017-to-2018
2. Mae'r holl wybodaeth yn cydymffurfio â blwyddyn ariannol arferol y sector cyhoeddus, sef 1 Ebrill–31 Mawrth.
3. Mae ffactorau trosi Defra wedi cael eu defnyddio i gyfrifo ffigurau allyriadau carbon.
4. Ni chaiff allyriadau eu cywiro yn ôl y tywydd.
5. Dim ond mewn adeiladau lle cawn filiau uniongyrchol a phan rydym yn gyfrifol am eu talu y byddwn yn adrodd ar ddefnydd o ynni a dŵr.
6. Dim yn ond yr adeiladau lle cawn ddata gan gwmni rheoli gwastraff byddwn yn adrodd ar ein defnydd o wastraff.
7. Pan nad oedd biliau cyfleustodau wedi cyrraedd eto, roedd y data ar gostau a defnydd wedi cael eu hamcangyfrif ar sail data'r blynyddoedd blaenorol.
8. Mae rhai ffigurau blwyddyn flaenorol wedi cael eu hailddatgan yn 2013/14 yn sgil cael canllawiau diwygiedig oddi wrth Drysorlys Ei Mawrhydi.
9. Mae allyriadau trydan Cwmpas 2 wedi cael eu hailddatgan ar gyfer pob blwyddyn i roi cyfrif am newidiadau o bwys i'r ffactorau trosi a ddarperir gan Defra. Mae hyn yn cydymffurfio â chanllawiau adrodd ar gynaliadwyedd 2013/14.
10. Mae faint o bapur a brynwyd yn ofyniad newydd ar gyfer adrodd arno a gyflwynwyd yn y canllawiau adrodd ar gynaliadwyedd yn 2013/14. Dim ond ar bapur a brynwyd yn uniongyrchol drwy ein cyflenwyr deunydd papur yr ydym wedi adrodd; dim ond ar gyfer rhai swyddfeydd dethol y mae'r wybodaeth hon ar gael.

# Clirio 700 MHz



## Beth ydy clirio 700 MHz?

Ym mis Tachwedd 2014 cyhoeddodd Ofcom y penderfyniad i adleoli amleddau rhwng 694 MHz a 790 MHz (y 'band 700 MHz') a ddefnyddir gan Deledu Daearol Digidol (DTT), gwasanaethau Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE) a Dyfeisiau Gofod Gwyn (WSDs) ar gyfer data symudol o, dan rhaglen sy'n cael ei hariannu gan y Llywodraeth. Mae proses debyg yn cael ei chynnal ledled Ewrop wrth i sbectrwm gael ei ail aseinio er mwyn diwallu'r cynnydd a ddisgwylir yn y galw am ddata symudol.

Bydd y penderfyniad yn arwain at newidiadau sylweddol i'r rhwydwaith DTT a bydd angen i rai sianeli DTT symud i amleddau newydd. Bydd hefyd yn golygu y bydd angen i ddefnyddwyr PMSE ddisodli rhywfaint o offer. Enw'r rhaglen hon ydy Clirio 700 MHz.

### Amcanion y rhaglen

- clirio a rhyddhau'r band 700Mhz cyn gynted ag sy'n bosibl yn ymarferol;
- darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus;
- osgoi amharu ar wylwyr; a
- diogelu parhau i ddarparu manteision DTT a PMSE.

### Sut bydd y clirio'n effeithio ar wylwyr a darparwyr sianeli?

Mae'r amcangyfrifon cychwynnol a ragwelir yn awgrymu:

- bydd angen i 14-20 miliwn o gartrefi ail-diwnio eu hoffer teledu pan fydd y newid hwn yn digwydd yn eu hardal;
- efallai y bydd angen i 100,000 -160,000 o gartrefi newid eu herial;
- efallai y bydd angen newid aliniad 40,000 - 110,000 erial; ac
- efallai y bydd angen i nifer bach o gartrefi newid eu llwyfan teledu

Yn yr wythnosau cyn pob digwyddiad clirio mae cynllun cyfathrebu helaeth o hysbysebion ar y teledu a chapsiynau ar sgrin y teledu sy'n ymddangos yn rhoi gwybod i wylwyr y bydd angen iddyn nhw ail-diwnio eu setiau teledu ar ddyddiad penodol.

Ar ben hynny, bydd cefnogaeth gynhwysfawr i wylwyr a chyngor ar ail-diwnio ar gael yn ystod digwyddiadau clirio gan y Freeview Advice Line a gwefan Freeview. Mae'r rhan fwyaf o wylwyr DTT yn gyfarwydd ag ail-diwnio ac yn gwneud hynny o bryd i'w gilydd i ddiweddaru eu sianeli, pan na fydd y teledu'n gwneud hynny'n awtomatig. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen ail-diwnio mwy nag unwaith pan fydd y clirio'n digwydd ar sawl cam.

## Pryd fydd y clirio'n digwydd?

Roedd clirio'r band 700 MHz wedi dechrau fesul cam daearyddol yn 2017 a bydd yn parhau tan fis Ebrill 2020. Bu cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau clirio rhwng mis Ionawr 2018 a mis Mawrth 2018. Bydd y gyfradd hon yn parhau drwy gydol gweddill y flwyddyn ac i 2019, gyda'r rhaglen ar y trywydd iawn i gwblhau'r clirio yn 2020.

## Cynllun Grantiau Ofcom

Er mwyn gallu clirio'r band 700 MHz, mae Ofcom yn darparu grantiau i newid seilwaith DTT o dan fframwaith cydsyniad sefydlog y cytunwyd arno gyda Thrysorlys EM.

Mae proses ymgeisio am grant sydd wedi'i diffinio y mae pob parti wedi cytuno arni ac yn ei dilyn. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18, cafwyd 61 cais am grant, dyfarnwyd 56 grant, ac roedd cyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd yn £63.7m. Cyfanswm y grant a ddyfarnwyd hyd yma ar y rhaglen: £195.5m. Cyfanswm a dalwyd yn y flwyddyn ariannol 2017/18: £81.1m.

# Trosolwg syml o'r Cynllun ar gyfer Clirio Sbectrwm


**Medi 2017**

Mae'r map yma'n dangos dyddiad dechrau'r digwyddiadau clirio 700 MHz mewn grwpiau trosglwyddyddion yr effeithir arnynt ar draws y DU. Mae'n bosibl y bydd rhagor o ddigwyddiadau ym mhob grŵp tan Ch2 2020.

Gall pob dyddiad newid.

**Allwedd:**

1 Angus - Q4 2018
2 Beacon Hill - Q1 2019
3 Belmont - Q4 2019
4 Bilsdale - Q4 2019
5 Black Hill - Q3 2018
6 Blaenplwyf - Q4 2018
7 Bluebell Hill - Q3 2018
8 Bressay - Q3 2017
9 Brougher Mountain - Q3 2019
10 Caldbeck - Q3 2019
11 Caradon Hill - Q2 2019
12 Carmel - Q3 2019
13 Chatton - Q4 2019
14 Craigkelly - Q4 2018
15 Crystal Palace - Q1 2018
16 Darvel - Q3 2018
17 Divis - Q3 2019
18 Dover - Q1 2018
19 Durris - Q3 2018
20 Eitshal - Q3 2017
21 Emley Moor - Q4 2019
22 Fremont Point - Q1 2019
23 Hannington - Q2 2018
24 Heathfield - Q3 2018
25 Huntshaw Cross - Q2 2019
26 Ynys Manaw - Q2 2020
27 Keelylang Hill - Q3 2017
28 Knockmore - Q3 2017
29 Limavady - Q3 2019
30 Llanddona - Q4 2018
31 Mendip - Q1 2018
32 Midhurst Q1 2018
33 Moel Y Parc - Q1 2019
34 Oxford - Q1 2018
35 Pontop Pike - Q4 2019
36 Preseli - Q4 2017
37 Redruth - Q2 2019
38 Ridge Hill - Q1 2018
39 Rosemarkie - Q3 2017
40 Rowridge - Q1 2018
41 Rumster Forest - Q3 2017
42 Sandy Heath - Q2 2018
43 Selkirk - Q1 2017
44 Stockland Hill - Q1 2018
45 Sudbury - Q1 2018
46 Sutton Coldfield - Q1 2018
47 Tacolneston Q1 2018
48 The Wrekin - Q12018
49 Torosay - Q4 2017
50 Waltham - Q1 2018
51 Gwenfô - Q2 2019
52 Winter Hill - Q1 2018



# Geirfa

**3G:** Systemau symudol trydedd genhedlaeth. Mae'n trosglwyddo data'n gyflym ac yn cefnogi rhaglenni amlgyfrwng megis fideo symud llawn, cynadledda fideo a chysylltu â'r rhyngrwyd, ochr yn ochr â gwasanaethau llais confensiynol.

**4G:** Y bedwaredd genhedlaeth o dechnoleg ffonau symudol, sy'n dilyn 2G a 3G. Mae'r cyflymderau lawrlwytho a throsglwyddo data yn gyflymach na rhwydweithiau 3G.

**5G:** Pumed cenhedlaeth technoleg ffonau symudol, sy'n ceisio gwella cyflymder cyfathrebu data hyd at dair gwaith wrth gymharu â 4G.

**Amlblecs:** Mae gwasanaethau teledu daearol digidol yn cael eu trawsyrru gan ddefnyddio strwythur 'amlblecs' gyda phob amlblecs yn cynnwys nifer o wasanaethau teledu cydredol, yn ogystal â gorsafoedd radio a gwasanaethau testun. Cyfunir y gwasanaethau hyn yn ddigidol yn un signal i ffurfio'r amlblecs a drawsyrrir.

**Band eang cyflym iawn:** Gwasanaethau band eang sy'n darparu cyflymderau o fwy na 30Mbit yr eiliad.

**Band eang symudol:** Gwahanol fathau o fynediad cyflymder uchel di-wifr i'r rhyngrwyd trwy fodem cludadwy, ffôn neu ddyfais arall.

**BDUK:** Broadband Delivery UK, yn gyfrifol am ddarparu'r Rhaglen Band Eang Gwledig.

**BEIS:** Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

**Cyfraddau did:** Y gyfradd a ddefnyddir mewn perthynas â chludo gwybodaeth ddigidol o fewn sianel gyfathrebu benodol. Fel rheol caiff cyflymder band eang ei fesur mewn Mbit yr eiliad.

**Cyfnewid testun:** Gwasanaeth sy'n galluogi pobl sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd i gyfathrebu â phobl eraill drwy ddefnyddio offer ffôn neu ffôn testun.

**Cystadleuaeth pen-i-ben:** Lle mae gweithredwyr post masnachol yn casglu, yn prosesu ac yn dosbarthu'r post yn uniongyrchol i'r derbynnydd heb ddefnyddio rhwydwaith y Post Brenhinol.

**Darlledu unionlin:** Darllediadau teledu traddodiadol a drawsyrrir i deledu.

**Darparwr gwasanaeth:** Darparwr gwasanaethau cyfathrebiadau electronig i drydydd partïon, p'un ai dros ei rwydwaith ei hun neu dros un arall.

**DCMS:** Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

**DTT:** Teledu daearol digidol. Y dechnoleg teledu sy'n cludo'r gwasanaeth Freeview.

**EU5:** Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Sbaen a'r DU.

**Fideo ar-alwad (VoD):** Gwasanaeth neu dechnoleg sy'n galluogi gwylwyr teledu i wylio rhaglenni neu ffilmiau pryd bynnag y byddant yn dewis gwneud hynny, heb fod wedi'u cyfyngu gan amserlen unionlin.

**Ffibr Tywyll:** Ceblau ffeibr-optig nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio, sydd ar gael i'w defnyddio mewn cyfathrebu ffeibr-optig.

**Galwad mud:** Galwad ffôn a dderbynnir lle nad oes neb ar ochr arall y lein.

**IPTV (internet protocol television):** Gwasanaethau teledu a gyflwynir drwy'r rhyngrwyd yn hytrach na thrwy ddulliau traddodiadol, megis daearol, lloeren neu gebl.

**ISP:** Darparwr gwasanaeth rhyngrwyd. Cwmni sy'n darparu mynediad at y rhyngrwyd.

**Llinell ar brydles:** Cyfleuster trawsyrru sy'n cael ei lesio gan ddefnyddiwr oddi wrth gludydd cyhoeddus, ac sy'n benodol ar gyfer traffig y defnyddiwr hwnnw.

**LLU (dadfwndelu dolenni lleol):** Y broses lle bydd y gweithredwyr presennol (BT a Kingston Communications) yn darparu eu rhwydwaith lleol (y llinellau sy'n rhedeg o eiddo'r cwsmer i'r gyfnewidfa ffôn) ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau eraill.

**Newid dan arweiniad y darparwr sy'n ennill y cwsmer (GPL):** Proses lle mai darparwr gwasanaeth newydd y cwsmer (y darparwr sy'n ennill) sy'n cymryd yr awenau gyda newid y gwasanaeth.

**Radio cymunedol:** Gorsafoedd radio sydd fel rheol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fach gyda radiws darpariaeth o hyd at 5km ac sy'n rhedeg ar sail ddi-elw.

**Rhwydweithiau craidd y genhedlaeth nesaf (NGN):** Rhwydweithiau craidd sy'n seiliedig ar brotocol rhyngrwyd sy'n cefnogi amrywiaeth o wasanaethau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd, fel rheol gan ddisodli hen rwydweithiau lluosog a oedd yn gallu delio ag un-gwasanaeth.

**Rhwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA):** Rhwydweithiau mynediad newydd neu wedi'u huwchraddio sy'n darparu gwelliannau sylweddol mewn cyflymder band eang ac ansawdd gwasanaeth. Gall hyn fod yn seiliedig ar nifer o dechnolegau gan gynnwys cebl, di-wifr sefydlog a symudol. Gan amlaf caiff ei ddefnyddio i gyfeirio at rwydweithiau sy'n defnyddio technoleg ffeibr optig.

**Sioc bil:** Adwaith negyddol y gall unigolyn ei gael os yw ei fil yn annisgwyl o uchel.

sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

**Ofcom**

Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

Switsfwrdd:
+44 (0)300 123 3000 neu
+44 (0)20 7981 3000

Ffôn testun:
+44 (0)20 7981 3043

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom:
+44 (0)300 123 3333 neu
+44 (0)20 7981 3040

**Yr Alban:**

125 Princes Street
Caeredin EH2 4AD

Ffôn: 0131 220 7300

**Cymru:**

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

Ffôn: 029 2046 7200

**Gogledd Iwerddon:**

Landmark House
The Gasworks
Ormeau Road,
Belfast BT7 2JD

Ffôn: 028 9041 7500

**ofcom.org.uk**

CCS0318319686

978-1-5286-0283-9

584 (Gorffennaf 2018)